# Gwarchod Gwyrchoedd yng Nghymru



AIDAC Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru

IEPAW Interim Environmental Protection Assessor for Wales

| | |
|---|---|
| Rhagair | 3 |
| Rôl Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru (AIDAC) | 6 |
| Crynodeb gweithredol | 7 |
| Tabl o acronymau | 20 |
| 1 Diben yr adroddiad | 21 |
| 2 Cefndir | 23 |
| 2.1 Cyflwr gwrychoedd yng Nghymru | 23 |
| 2.2 Pwysigrwydd gwrychoedd yng Nghymru | 24 |
| 2.3 Pwysigrwydd amgylcheddol | 25 |
| 3 Y fframwaith cyfreithiol | 29 |
| 3.1 Rheoliadau Gwrychoedd 1997 | 29 |
| 3.2 Cyfraith a pholisi perthnasol arall | 34 |
| 4 Dadansoddi'r dystiolaeth | 38 |
| 4.1 Pwysigrwydd gwrychoedd Cymru | 39 |
| 4.2 Cylch gorchwyl y Rheoliadau Gwrychoedd | 39 |
| 4.3 Gorfodi'r Rheoliadau | 50 |
| 4.4 Newidiadau a gynigiwyd i'r Rheoliadau ac i arweiniad | 52 |
| 4.5 Rheoli gwrychoedd | 53 |
| 4.6 Cyllid | 57 |
| 4.7 Gosod rhwydi | 59 |
| 4.8 Sylwadau ar ddeddfwriaeth a pholisi arall | 61 |
| 5. Casgliadau ac argymhellion | 63 |
| Atodiad 1 Cyflwyniadau | 77 |
| Atodiad 2 Tystiolaeth | 86 |

## Rhagair

Mae gwrychoedd yn elfennau pwysig o gefn gwlad ac o amgylchedd trefol Cymru. Cânt eu cydnabod yn gynefin â blaenoriaeth yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, a dylai cadw gwrychoedd a'u rheoli yn gynaliadwy fod yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o fynd i'r afael â'r argyfwng natur a'r argyfwng hinsawdd. Maent yn gartref ac yn ffynhonnell bwyd a chysgod i ystod o anifeiliaid, a gallant ddarparu coridor sy'n cysylltu cynefinoedd â'i gilydd. Maent yn chwarae rhan yn y gwaith o fynd i'r afael â'r argyfwng newid hinsawdd, drwy storio carbon a thrwy ddal dŵr yn ôl gan leihau'r perygl o lifogydd.

Mae gwrychoedd hefyd yn hanfodol i dirwedd cefn gwlad Cymru. Mae rhai ohonynt yn eithriadol o hen ac yn cyfrannu'n helaeth i ddiwylliant ardal.

Yn anffodus, fodd bynnag, nid yw ein gwrychoedd yn ffynnu. Yn ôl Cyfoeth Naturiol Cymru, dim ond 17 y cant ohonynt oedd mewn cyflwr da adeg yr arolwg diwethaf yn 2016, ac ni chawsom unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y sefyllfa wedi gwella.


Nid yw gwrychoedd wedi cael y warchodaeth gyfreithiol y maent yn ei haeddu. Dim ond ychydig o wrychoedd dethol y mae'r Rheoliadau Gwrychoedd yn eu gwarchod rhag camau i'w gwaredu, cyhyd â'u bod yn bodloni diffiniad cymhleth sydd wedi dyddio o 'bwysigrwydd', ac nid yw'r Rheoliadau yn sôn dim am yr angen i reoli gwrychoedd. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn galw am adolygiad drastig o'r ddeddfwriaeth fel bod pob gwrych yn cael ei warchod oni bai bod modd cynnig cyfiawnhad cyfreithiol dros ei waredu.

Rydym yn falch o weld bod rheoli gwrychoedd yn rhywbeth sydd wedi'i gynnwys yn y cynigion ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Fodd bynnag, mae rheoli gwrychoedd yn y modd mwyaf manteisiol i fywyd gwyllt yn gofyn am lawer o adnoddau, a bydd angen i ffermwyr gael eu digolledu'n ddigonol am eu gwaith.

Nid yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn cynnig unrhyw warchodaeth benodol i wrychoedd trefol, er gwaetha'r ffaith eu bod yn darparu llawer o wasanaethau ecosystemau, yn enwedig i fioamrywiaeth. Rydym yn argymell y dylai gwrychoedd fod yn rhan o'r drefn gynllunio ac y dylai awdurdodau cynllunio lleol gael arweiniad

ynghylch y ffactorau y dylent eu pwyso a'u mesur wrth iddynt ystyried ceisiadau cynllunio.

Mae'r adroddiad hwn yn benllanw dros dair blynedd o waith. Cafodd y rhan fwyaf ohono ei gyflawni pan oedd Nerys Llewelyn Jones yn Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru. Bu Nerys yn gweithio ar ei phen ei hun yn ystod y rhan fwyaf o'r cyfnod hwnnw. Ymunodd Anna Heslop a fi â Nerys fel dirprwyon ym mis Mai 2024, ac ym mis Mawrth 2025 ymgymerais i â'r swydd. I Nerys y mae'r clod am yr adroddiad hwn, felly, ond fi sy'n gyfrifol am unrhyw wallau.



Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru

## Diolchiadau

Cafodd drafft cychwynnol o rannau o’r adroddiad hwn ei ysgrifennu yn rhan o Bortffolio Pro Bono Ysgol y Gyfraith Caerdydd. Roedd y prosiect yn rhan o Raglen Prosiectau Amgylcheddol Addysg Gyfreithiol Glinigol, a gafodd ei chynnal mewn partneriaeth â’r Sefydliad Cyfraith Amgylcheddol, yn ystod 2022-2023.

Rydym yn ddiolchgar i’r myfyrwyr canlynol a fu’n gweithio ar yr adroddiad ac i’w goruchwylwyr, Tabea Wilkes a Ben Pontin:

Nikita Caldeira, Melissa James, Omeesha Kandlapelli, Ema Mikolasova a Devendra Rajan Selvarajan a fu’n drafftio deunydd, a’r myfyrwyr canlynol a fu’n cynorthwyo gyda gwaith ymchwilio a phrawf-ddarllen: Charlene Antwi-Boasiako, Rose Hancock, Akshat Khettry a Catherine Maunder.

## Rôl Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru (AIDAC)

Mae AIDAC yn rhoi i aelodau'r cyhoedd system annibynnol ar gyfer anfon cyflwyniadau ynghylch y modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu yng Nghymru. Mae AIDAC yn cynghori Gweinidogion Cymru os yw'r cyflwyniadau a anfonwyd yn perthyn i gylch gorchwyl AIDAC, ac mae'n gwneud argymhellion ynghylch unrhyw gamau gweithredu y mae o'r farn bod angen eu cymryd.

Mae'r mesurau interim yn rhai anstatudol, a'u prif ddiben yw:

- arolygu'r modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu yng Nghymru; ac
- ystyried materion systematig sy'n ymwneud â'r modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithio/gweithredu yng Nghymru.

Gallai arolygu'r modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu olygu ystyried:

- a yw'r gyfraith yn addas i'w diben neu'n dal yn berthnasol;
- a yw'r wybodaeth neu'r deunydd esboniadol am y gyfraith yn hygyrch, yn glir ac yn bendant; neu
- a yw'r modd y caiff y gyfraith ei rhoi ar waith yn ymarferol yn effeithiol.

Nid yw cwmpas y mesurau interim yn ymdrin â'r canlynol:

- achosion o weithredu'n groes i gyfraith amgylcheddol;
- meysydd lle na chydymffurfir â chyfraith amgylcheddol; a
- materion a godir y mae proses neu system gwyno arall yn ymdrin â nhw.

Nod AIDAC yw nodi ble y mae angen cymryd camau i gywiro problemau gweithredu efallai, a fydd yn gwella canlyniadau amgylcheddol. Amcanion strategol AIDAC yw:

- darparu gwasanaeth i aelodau'r cyhoedd, sy'n eu galluogi i anfon cyflwyniadau i AIDAC;
- cynghori Gweinidogion Cymru ynghylch unrhyw gamau gweithredu a allai fod yn ofynnol; a
- chyfrannu at ddatblygu'r dull parhaol o ymdrin â llywodraethiant amgylcheddol yng Nghymru.

## Crynodeb gweithredol

Cafodd yr adroddiad hwn am wrychoedd ei ysgrifennu er mwyn ymateb i gyflwyniadau a anfonwyd yn 2021, a oedd yn ymwneud yn bennaf ag effeithiolrwydd Rheoliadau Gwrychoedd 1997. Roedd yna bryderon hefyd am y defnydd a gâi ei wneud o'r arfer o osod rhwydi ar wrychoedd er mwyn atal adar. Cafodd AIDAC dystiolaeth yn ystod trafodaeth banel a gynhaliwyd yn Sioe Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf 2022 ac mewn ymatebion i Alwad am Dystiolaeth, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2022. Er mwyn rhoi sylw i'r materion a godwyd, mae'r adroddiad:

- yn asesu a yw'r fframwaith cyfreithiol presennol yn gweithredu'n effeithiol;
- yn nodi meysydd lle nad yw'r warchodaeth gyfreithiol bresennol efallai'n sicrhau'r manteision a fwriadwyd, yn enwedig yng nghyswllt gwarchod bioamrywiaeth;
- yn nodi bylchau posibl yn y ddeddfwriaeth bresennol;
- yn nodi meysydd lle gallai'r broses o roi'r ddeddfwriaeth ar waith yn ymarferol fod yn cael ei rhwystro; ac
- yn darparu argymhellion ynghylch sut y gellid gwella'r gyfraith.

### Gwrychoedd yng Nghymru

Yn ôl asesiad Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2020, dim ond 17 y cant o wrychoedd yng Nghymru oedd mewn cyflwr da yn 2016. Roedd y ffigur hwnnw'n disgyn i 2 y cant ar gyfer gwrychoedd ar dir âr.

### Pwysigrwydd gwrychoedd yng Nghymru

Mae cadw gwrychoedd a'u rheoli yn gynaliadwy yn hanfodol o safbwynt cynnal bioamrywiaeth Cymru, gwarchod ecosystemau hanfodol a gwrthsefyll newid hinsawdd. Gall trefoli, newidiadau i'r modd y caiff y tir ei ddefnyddio, arferion ffermio yn ogystal ag effeithiau newid hinsawdd fygwth yr ecosystemau hyn. Gall gwaredu gwrychoedd sydd wedi hen ymsefydlu ddryllio ecosystemau cyfan, gan darfu ar fywyd gwyllt ac ymyrryd â gwasanaethau ecosystemau. Mae'r un peth yn wir am ddulliau gwael o reoli gwrychoedd presennol, oherwydd nid oes gan wrychoedd sydd newydd ymsefydlu yr un gwerth o safbwynt bywyd gwyllt, y dirwedd a phwysigrwydd hanesyddol o'u cymharu â gwrychoedd sydd wedi hen ymsefydlu.

Gallai adfer gwrychoedd a'u rheoli chwarae rhan yn y gwaith o fynd i'r afael â'r argyfwng bioamrywiaeth yng Nghymru a helpu i greu Cymru gydnerth. Yn anffodus, caiff cyfran fawr o wrychoedd eu gor-reoli neu'u hesgeuluso. Mae gwrychoedd hefyd yn darparu ystod o wasanaethau ecosystemau eraill. Gallant helpu i atal pridd rhag erydu, cynnal iechyd pridd a gwella ansawdd dŵr. Mae gwrychoedd hefyd yn ddalfeydd carbon pwysig. Ar gyfartaledd, gall fod yna oddeutu 300 $m^3$ o bren ym mhob cilometr o wrych, sy'n gyfwerth â rhwng 60 a 100 tunnell o garbon am bob cilometr, a hynny yn y biomas sydd uwchlaw wyneb y ddaear yn unig.

**Pwysigrwydd diwylliannol**

Mae'r DU yn enwog ledled y byd, a hynny'n gywir ddigon, am ei phatrymau cyfoethog ac amrywiol o wrychoedd. Yng Nghymru, mae gwrychoedd yn rhan bwysig o'n treftadaeth ddiwylliannol a'n treftadaeth o ran y dirwedd ac maent yn gwneud cyfraniad hanfodol i'r ymdeimlad o le sydd gan ardal. Mae llawer o wrychoedd Cymru yn hynafol ac o ddiddordeb hanesyddol. Mae hynny'n arbennig o wir os ydynt yn nodi terfynau plwyfi, henebion cofrestredig neu nodweddion eraill o'r fath. Caiff oes gwrych ei hymestyn gan waith tocio mynych, sy'n aml yn golygu bod gwrychoedd yn hŷn na llawer o'r adeiladau hanesyddol y mae cymdeithas yn rhoi gwerth arnynt (e.e. eglwysi plwyf). Mae gwrychoedd, felly, yn galluogi cenedlaethau heddiw i gysylltu â'u hardal a'i hanes.

**Y fframwaith cyfreithiol**

Yng Nghymru, yr unig ddeddfwriaeth sy'n ymwneud yn uniongyrchol ac yn gyfan gwbl â gwarchod gwrychoedd yw Rheoliadau Gwrychoedd 1997. Rydym wedi dod i'r casgliad bod y Rheoliadau hynny'n anfoddhaol mewn sawl ffordd, ac nid yn lleiaf oherwydd eu bod yn rhagflaenu datganoli ac nad ydynt, felly, yn cyd-fynd â'r egwyddorion cynaliadwyedd a eglurir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 neu Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023. Rydym o'r farn y byddai'r hepgoriadau hyn yn rhesymau digonol dros ddiwygio'r Rheoliadau, hyd yn oed heb y galwadau manwl am newid a nodwyd yn y dystiolaeth.

Rydym wedi dod i'r casgliad bod sawl opsiwn diwygio ar gael. Ein man cychwyn yw'r angen i fynd i'r afael â'r problemau gyda'r Rheoliadau, ac rydym yn gwneud nifer o argymhellion sy'n benodol i'r rheiny. Mae opsiynau eraill yn cynnwys diwygio Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 er mwyn cyflwyno gwarchodaeth benodol ar gyfer gwrychoedd yng Nghymru, neu gyflwyno Bil Gwarchod Gwrychoedd (Cymru) sydd wedi'i ddatganoli. Dylai unrhyw ddiwygio deddfwriaethol o leiaf:

- gyflwyno rhagdybiaeth bod pwysigrwydd cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac ecolegol yn perthyn i bob gwrych, sy'n drech na'r meini prawf cul a gorgymhleth presennol a ddefnyddir i roi gwrych yn y categori 'pwysig';
- ymdrechu i sicrhau bod gwarchod gwrychoedd yn cyd-fynd ag uchelgeisiau Cymru ers datganoli, drwy ymgorffori:
    - yr agweddau ar gydnerthedd dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru);
    - yr egwyddorion datblygu cynaliadwy dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru);
    - yr egwyddorion rheoli tir yn gynaliadwy dan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru); ac
    - unrhyw derminoleg leol a ddefnyddir ar gyfer 'gwrychoedd';
- cael ei ategu gan arweiniad wedi'i ddiweddaru ynghylch arferion er mwyn rhoi cyngor ymarferol i ffermwyr, tirfeddianwyr a rheolwyr tir, yn ogystal ag awdurdodau lleol, ynglŷn â rhoi'r ddeddfwriaeth ar waith;
- cael ei ategu gan strwythur cyllido digonol sy'n hybu ac yn galluogi'r arfer o reoli gwrychoedd yn gynaliadwy;
- cael ei ystyried yn rhan o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol/Gweithredoedd Cyffredinol a'r llinell sylfaen reoleiddiol a gyflwynir yn rhan o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

**Beth yw gwrych a phryd y mae'n bwysig?**

Nid yw'r Rheoliadau yn rhoi diffiniad o 'wrych' ond mae'n amlwg nad yw pob gwrych wedi'i gynnwys. Yr unig wrychoedd y mae'r Rheoliadau yn ymdrin â nhw yw gwrychoedd sy'n tyfu mewn neu wrth ymyl tir a ddefnyddir at ddibenion amaethyddiaeth neu goedwigaeth, tir comin a thir gwarchodedig (h.y. gwarchodfeydd

natur a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig) ond nid pob un o'r rheiny. Mae'r categorïau canlynol o wrychoedd yn rhai nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau, boed yn benodol neu'n ddiofyn:

- gwrychoedd sydd yng nghwrtil tŷ annedd neu sy'n nodi terfyn cwrtil o'r fath;
- mwyafrif y gwrychoedd sydd ar dir nad yw at ddibenion amaethyddiaeth neu goedwigaeth;
- gwrychoedd sy'n llai nag 20 metr o hyd, oni bai eu bod yn gysylltiedig â gwrych arall;
- gwrychoedd sydd wedi troi'n llinell o goed; a
- mathau eraill o derfynau caeau, megis cloddiau â pherthi, a chloddiau.

At hynny, nid yw hyd yn oed gwrychoedd y mae'r Rheoliadau yn ymdrin â nhw yn cael eu gwarchod oni fernir eu bod yn rhai 'pwysig'. Cawsom dystiolaeth ynghylch y rhesymau canlynol pam yr oedd y meini prawf ar gyfer penderfynu ynglŷn â phwysigrwydd yn rhai amhriodol ac yn rhai anodd eu gweithredu:

- mae'r wybodaeth sydd i'w defnyddio i benderfynu a yw gwrych yn 'bwysig' oherwydd yr anifeiliaid y mae'n eu cynnal wedi dyddio, fel y mae'r dyddiad perthnasol (cyn 1997) y mae gofyn asesu'r dystiolaeth o bwysigrwydd ar ei sail;
- mae'r gofyniad bod yn rhaid i wrych fod yn 30 oed er mwyn iddo gael ei ystyried yn bwysig wedi'i seilio ar y syniad bod oedran yn arwydd o werth o ran bioamrywiaeth, ac nid yw'n cydnabod y ffaith nad yw gwerth o ran bioamrywiaeth o reidrwydd yn cyfateb i oedran;
- mae'r meini prawf ar gyfer asesu pwysigrwydd ar sail y cymunedau o blanhigion sy'n bresennol yn gymhleth, mae'n anodd gweithio gyda nhw ac maent wedi'u seilio ar restrau anghyflawn o rywogaethau.

Nid ydym yn cytuno bod yn rhaid nad oes unrhyw ddiddordeb o ran bioamrywiaeth yn perthyn i wrychoedd sy'n llai nag 20 metr o hyd, ond rydym yn derbyn ei bod yn debygol na ddylai gwrychoedd sy'n fyrrach na rhyw hyd gofynnol gael eu cynnwys yn y diffiniad o wrychoedd. Dylai'r hyd gofynnol hwnnw fod gryn dipyn yn llai nag 20 metr. Rydym yn cytuno bod gwerth yn perthyn i wrychoedd sydd wedi troi'n llinellau o goed, nid yn lleiaf oherwydd y gallent fod yn cynnwys coed yn eu llawn dwf. Rydym wedi dod

i'r casgliad y dylent gael eu gwarchod, naill ai drwy eu cynnwys yng nghylch gorchwyl y Rheoliadau neu mewn rhyw ffordd arall. Ni chaiff argloddiau a waliau eu gwarchod yn benodol yn y Rheoliadau, a dim ond yn y rhestr o nodweddion cysylltiedig y maent wedi'u cynnwys. Rydym yn cytuno bod methu â'u cynnwys fel nodweddion yn eu rhinwedd eu hunain yn golygu bod perygl iddynt beidio â chael eu hystyried.

Nid yw'r Rheoliadau yn sôn dim am dir arall nad yw'n dir amaethyddol. Rydym yn cytuno â'r safbwynt y dylai'r Rheoliadau ymdrin â gwrychoedd sy'n ffurfio terfyn eiddo cyhoeddus ac eiddo preifat annomestig gan gynnwys safleoedd diwydiannol, mynwentydd a pharciau. Rydym hefyd yn cytuno â'r safbwynt y dylai'r Rheoliadau ymdrin â gwrych sy'n ffurfio'r terfyn rhwng tŷ annedd a thir amaethyddol. Er ein bod hefyd o'r farn y dylai gwrychoedd gerddi eraill gael eu gwarchod, nid ydym yn credu mai'r Rheoliadau yw'r ffordd orau o sicrhau'r warchodaeth honno.

Yn bwysicach na dim, rydym wedi nodi bod gwrychoedd wedi'u rhestru dan adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gynefin sydd o'r pwysigrwydd pennaf at ddiben cynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru (yn gynefin â blaenoriaeth). Mae'r Ddeddf yn mynnu bod Gweinidogion yn cymryd pob cam rhesymol i gynnal a gwella'r cynefinoedd hyn â blaenoriaeth, ac mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus roi sylw iddynt. Rydym yn credu, felly, ei bod yn hanfodol i bob gwrych gael ei warchod.

**Gwaredu gwrychoedd**

Rydym o'r farn bod angen gwneud newidiadau i'r gyfraith a'r arferion sy'n gysylltiedig â gwaredu gwrychoedd. Rydym yn cytuno y dylid tynnu 'rheolaeth briodol' ('proper management') allan o'r rhestr o waith a ganiateir fel amddiffyniad rhag cyhuddiad bod gwrych wedi'i waredu heb awdurdod, oherwydd bod modd i hynny gael ei gamddefnyddio.

Dan y Rheoliadau, rhaid i dirfeddiannwr sy'n bwriadu gwaredu gwrych hysbysu'r awdurdod lleol am ei fwriad drwy anfon Hysbysiad Gwaredu Gwrych. Yna, mae gan yr awdurdod lleol 42 o ddiwrnodau i benderfynu a yw'r gwrych yn 'bwysig'. Os yw'n 'bwysig', gall yr awdurdod lleol roi Hysbysiad Cadw Gwrych. Os nad yw'r awdurdod lleol yn gallu gwneud y penderfyniad hwn o fewn yr amserlen gyfreithiol, gellir gwaredu'r gwrych yn gyfreithlon oni chytunwyd ar estyniad gyda'r ymgeisydd. Nid

ydym yn teimlo bod hynny'n foddhaol, ac rydym yn credu y dylai fod gan yr awdurdod lleol y pŵer i roi hysbysiad ynghylch estyniad os oes yna resymau ymarferol sy'n golygu ei bod yn amhosibl iddo wneud y penderfyniad cyn pen 42 o ddiwrnodau. Mae'r Rheoliadau yn mynnu bod yr awdurdod lleol yn ymgynghori â'r cyngor cymuned perthnasol cyn penderfynu rhoi hysbysiad neu beidio. Rydym yn credu y dylid ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd.

Cawsom wybod bod mynnu bod gwrych newydd yn cael ei osod yn lle'r hen un yn opsiwn a gâi ei ffafrio'n gyffredinol, yn hytrach nag erlyn rhywun. Mae hynny'n rhannol oherwydd yr arian a'r amser sy'n gysylltiedig â dwyn achos, ac yn rhannol oherwydd bod gosod gwrych newydd yn lle'r hen un o leiaf yn sicrhau bod gwrych yn cael ei ail-greu. Fodd bynnag, nid oes gan yr awdurdod lleol unrhyw bwerau i orfodi Hysbysiad Gosod Gwrych Newydd. Os bydd y perchennog yn methu â chydymffurfio, mae gan yr awdurdod lleol yr opsiwn o hyd i erlyn rhywun am waredu gwrych yn anghyfreithlon a/neu gall gyflawni'r gwaith ailblannu ei hun. Mae'r ddau beth yn gofyn am lawer o adnoddau. Rydym yn credu y dylai methu â chydymffurfio â Hysbysiad Gosod Gwrych Newydd fod yn drosedd. Rydym hefyd yn credu, os yw proses erlyn wedi bod yn foddhaol, y dylai'r unigolyn a ganfyddir yn euog gael Hysbysiad Gosod Gwrych Newydd gorfodol yn ogystal â dirwy.

Rydym wedi nodi bod Rheoliadau Rheoli Gwrychoedd (Lloegr) 2024 yn cyflwyno'r opsiwn o sancsiynau sifil os oes trosedd wedi digwydd. Rydym yn credu y dylid ystyried a allai sancsiynau sifil ar gyfer troseddau yng Nghymru fod yn ddull mwy effeithiol o atal na'r bygythiad o erlyn, ac a allai sancsiynau o'r fath olygu bod angen llai o adnoddau.

Nododd nifer sylweddol o ymatebwyr mai newid defnydd tir, ac yn enwedig arferion ffermio, yw'r prif fygythiad i wrychoedd yng Nghymru. Er mwyn sicrhau bod gwrychoedd yn cael eu gwarchod, dylai cynlluniau cyllido gael eu hadolygu i sicrhau nid yn unig eu bod yn anghymeradwyo arferion rheoli sy'n anghynaliadwy ond eu bod hefyd yn mynd ati i annog arferion rheoli sy'n fwy cynaliadwy. Tynnwyd ein sylw at y bwlch posibl o ran sgiliau ym maes arferion rheoli sy'n fwy cynaliadwy, ac at yr angen i ddarparu cyllid ar gyfer unrhyw hyfforddiant a gwaith gwella sgiliau sy'n angenrheidiol

er mwyn annog y defnydd o arferion mwy cynaliadwy. Nid ydym yn credu y byddai'n ymarferol mynnu bod ffermwyr yn mabwysiadu technegau traddodiadol i reoli gwrychoedd. Fodd bynnag, rydym yn credu y dylai ffermwyr gael eu hannog i reoli eu gwrychoedd mewn modd sy'n fanteisiol i fywyd gwyllt ac y dylent gael eu gwobrwyo'n ariannol am wneud hynny.

Cawsom nifer o awgrymiadau ynghylch ariannu cymorth ar gyfer gwaith ar wrychoedd dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Rydym yn credu ei bod yn werth ystyried pob un o'r rheiny, ac rydym yn falch o nodi'r cynigion diwygiedig yng Ngweithredoedd Cyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a amlinellwyd ym mis Tachwedd 2024. Mae'n bwysig bod arweiniad clir yn cael ei roi i ffermwyr ynghylch sut beth yw rheoli gwrychoedd yn dda at ddibenion canlyniadau i'r amgylchedd a bioamrywiaeth. Am resymau tebyg, rydym yn cefnogi'r Cod Carbon Gwrychoedd yn fawr iawn, oherwydd byddai'n galluogi ffermwyr i gynhyrchu incwm o'u gwaith ar reoli gwrychoedd.

**Gwrychoedd nad ydynt yn rhai amaethyddol**

Rydym yn credu y dylai gweithdrefnau'r Rheoliadau Gwrychoedd ynghylch gwaredu gwrychoedd fod yn berthnasol i dir cyhoeddus a phreifat nad yw'n dir amaethyddol, ar wahân i eiddo domestig. Yn y rhan fwyaf o achosion o'r fath, mae'r gwaith o waredu gwrych yn debygol o ymwneud â datblygiad arfaethedig y byddai angen caniatâd cynllunio ar ei gyfer. Dylai cynnwys gofyniad pellach i roi Hysbysiad Gwaredu Gwrych sicrhau nad yw gwrychoedd yn cael eu gwaredu cyn bod cais cynllunio'n cael ei gyflwyno.

Awgrymwyd wrthym hefyd y dylai gwrychoedd gerddi gael eu cynnwys yng nghylch gorchwyl y Rheoliadau. Rydym yn cytuno bod y rhain yn gyfranwyr pwysig i seilwaith gwyrdd trefol. Nid yw eu cyfraniad i wasanaethau ecosystemau wedi'i gyfyngu i'w gwerthoedd o ran bioamrywiaeth. Gallant wella ansawdd yr aer a helpu i leihau llifogydd. Rydym wedi dod i'r casgliad bod angen i'r gwrychoedd hyn gael eu gwarchod ond nid ydym wedi cael ein hargyhoeddi mai'r Rheoliadau Gwrychoedd yw'r ffordd orau o'u diogelu, nid yn lleiaf oherwydd byddai'n rhaid rhoi gwybod i bob tirfeddiannwr am yr angen i anfon Hysbysiad Gwaredu Gwrych i'r awdurdod lleol. At hynny, gallai methu â chydymffurfio â'r Rheoliadau arwain at euogfarn droseddol.

Rydym o'r farn mai'r ffordd orau o warchod gwrychoedd gerddi yw drwy'r system gynllunio. Mae perchnogion tai domestig eisoes yn gwybod am yr angen i gael caniatâd cynllunio ar gyfer datblygu, felly byddai'r dull hwn o weithredu yn osgoi'r angen i orfod cyflwyno fframwaith cyfreithiol hollol newydd. Gallai'r gwaith o waredu gwrych gael ei gynnwys yn y drefn ar gyfer caniatâd cynllunio. Yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd, gelid ei ychwanegu at y rhestr o waith datblygu a ganiateir dan y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol. Byddai angen meini prawf i nodi gwrychoedd y byddai angen cais cynllunio ar eu cyfer.

**Gosod rhwydi**

Rydym o'r farn nad oes yn rhaid gosod rhwydi. Unig ddiben gwneud hynny yw atal adar rhag nythu, a galluogi perchennog y gwrych i waredu'r gwrych yn ystod y tymor magu heb fod perygl y byddai'n cyflawni trosedd dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Rydym yn credu y dylid gwahardd gosod rhwydi ar bob math o wrych.

**Arweiniad**

Nid yw'r canllaw sy'n dwyn y teitl *The Hedgerows Regulations 1997: A Guide to the Law and Good Practice* wedi cael ei ddiwygio ers iddo gael ei gyhoeddi yn 1997. Rydym o'r farn mai'r ffordd orau o fynd i'r afael â sawl pryder a fynegwyd mewn tystiolaeth fyddai drwy roi arweiniad sydd wedi'i ddiwygio.

Mae llawer o wrychoedd pwysig o ran y dirwedd yn perthyn i gylch gorchwyl y Rheoliadau oherwydd eu diddordeb hanesyddol neu archaeolegol. Fodd bynnag, nid yw'r Rheoliadau yn cynnwys gwrychoedd sydd wedi'u sefydlu yn fwy diweddar ond a gaiff eu hystyried er hynny'n wrychoedd pwysig i ddiwylliant y gymuned leol. Nid ydym yn credu ei bod yn bosibl llunio maen prawf ar gyfer diffinio gwrych sydd o bwys diwylliannol, oherwydd bydd hynny'n dibynnu ar yr amgylchiadau lleol. Fodd bynnag, nid yw hynny'n rheswm dros beidio â chynnwys y mathau hyn o wrychoedd mewn trefniadau gwarchod. Rydym wedi dod i'r casgliad y dylai arweiniad i gynorthwyo awdurdodau lleol i benderfynu a yw gwrych o bwys diwylliannol lleol neu beidio gael ei gynnwys yn y canllaw.

Fodd bynnag, ni fydd y ffaith bod canllaw wedi'i ddiweddaru yn bodoli yn ddigon, a bydd yn rhaid bod gwaith cyfathrebu strategol yn cyd-fynd ag ef er mwyn mynd i'r afael â'r lefelau amrywiol o ymwybyddiaeth o'r Rheoliadau a geir ymhlith tirfeddianwyr, awdurdodau lleol ac aelodau'r cyhoedd.

**Rhestr o wrychoedd**

Mae'n amlwg o'r dystiolaeth a gafwyd bod rhywfaint o ddryswch ynghylch cyfanswm hyd y gwrychoedd sy'n bresennol yng Nghymru. Awgrymwyd wrthym mai mater eithaf syml fyddai llunio rhestr o wrychoedd hynafol, a fyddai'n seiliedig ar nodi'r gwrychoedd sydd ar fapiau'r Arolwg Ordnans ac sy'n dal yn bresennol. Awgrymwyd hefyd y gellid talu ffermwyr am fapio gwrychoedd presennol dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy er mwyn creu rhestr. Rydym o'r farn y gallai cronfa ddata i Gymru, sy'n debyg i'r rhaglen fanwl yn ymwneud â gorchudd tir a gyflawnwyd yn Lloegr, fod yn ddefnyddiol iawn wrth benderfynu ynghylch pwysigrwydd gwrychoedd.

**Argymhellion**

**Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd gwarchod gwrychoedd, gan gynnwys drwy ddarparu arweiniad clir i'r cyhoedd ac i awdurdodau lleol ynghylch y gofynion o ran gwarchodaeth gyfreithiol sy'n ymwneud â gwrychoedd.**

**Argymhelliad 2: Yn ystod tymor nesaf y Senedd, dylai Llywodraeth Cymru ddeddfu i ddarparu gwarchodaeth gyfreithiol i wrychoedd yng Nghymru, sy'n adlewyrchu eu statws fel cynefinoedd â blaenoriaeth. Dylai Gweinidogion Cymru ymgynghori ynghylch y ffordd orau o gyflawni hynny – adolygu'r Rheoliadau Gwrychoedd yn helaeth neu gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol newydd.**

**Argymhelliad 3: Waeth beth fydd ffurf y warchodaeth newydd dan sylw, dylai ddarparu:**

- **diffiniad cyfreithiol o 'wrych', a fydd yn cynnwys unrhyw wrych sy'n hirach na hyd lleiaf a ragnodir (sydd i'w benderfynu ac a fydd yn amodol ar gael tystiolaeth ynghylch beth ddylai'r hyd lleiaf hwnnw fod), ac o nodweddion cysylltiedig megis cloddiau â pherthi a chloddiau;**
- **diffiniad o 'nodweddion unionlin prennaidd eraill'; a**
- **gwarchodaeth gyfreithiol rhag gwaredu ar gyfer pob gwrych ac ar gyfer unrhyw nodweddion unionlin prennaidd eraill, oni chafwyd awdurdod i'w gwaredu.**

**Argymhelliad 4: Yn ystod tymor nesaf y Senedd, dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r darpariaethau sy'n ymwneud â gwaredu gwrych gydag awdurdod, er mwyn:**

- **ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch y bwriad i waredu'r gwrych;**

- rhoi dyletswydd ar Cyfoeth Naturiol Cymru i gynghori'r awdurdod lleol ynghylch a ddylid rhoi Hysbysiad Cadw Gwrych neu beidio, a mynnu bod yr awdurdod lleol yn ystyried y cyngor hwnnw wrth wneud ei benderfyniad;
- estyn i Cyfoeth Naturiol Cymru yr un hawliau i fynd i mewn i dir ag sydd ar gael i'r awdurdod lleol er mwyn arolygu'r gwrych; a
- rhoi pŵer i'r awdurdod lleol roi hysbysiad ynghylch estyniad mewn sefyllfaoedd lle na all asesu gwerth gwrych o fewn y cyfnod a bennwyd.

**Argymhelliad 5: Yn ystod tymor nesaf y Senedd, dylai Llywodraeth Cymru dynnu 'rheoli'r gwrych yn briodol' allan o'r rhestr o waith a ganiateir.**

**Argymhelliad 6: Yn ystod tymor nesaf y Senedd, dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r adran ar droseddau yn y Rheoliadau:**

- **fel bod y person a ganfyddir yn euog dan Reoliad 7 yn cael Hysbysiad Gosod Gwrych Newydd gorfodol yn ogystal â dirwy; ac**
- **fel bod methu â chydymffurfio â Hysbysiad Gosod Gwrych Newydd yn drosedd.**

**Argymhelliad 7: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a allai sancsiynau sifil fod yn opsiwn priodol.**

**Argymhelliad 8: Dylai Llywodraeth Cymru, yn ystod tymor hwn y Senedd yn rhan o'r newidiadau i bolisi amaethyddol yng Nghymru, fynd ati ar frys i wneud y canlynol:**

- **darparu cymorth ariannol gan gynnwys grantiau cyfalaf er mwyn i ffermwyr reoli gwrychoedd mewn modd cynaliadwy i gynnal a gwella eu gwerth o ran bioamrywiaeth;**
- **cynnwys gwrychoedd yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, yn rhan o'r gofynion ynghylch ardaloedd o gynefinoedd yng Ngweithred Gyffredinol 7 ar gyfer Rheoli Cynefinoedd;**

- **hybu'r Cod Carbon Gwrychoedd a'i symud yn ei flaen;**
- **rhoi ystyriaeth ddyladwy i'r posibilrwydd o roi taliadau ychwanegol yn rhan o Haen Opsiynol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy am gael cyfran o berthi sy'n dwyn ffrwythau ac yn blodeuo bob blwyddyn; a**
- **chomisiynu ymchwil a digwyddiadau trosglwyddo gwybodaeth ynghylch manteision posibl technegau plygu perthi er budd bywyd gwyllt**

**Argymhelliad 9: Yn ystod tymor nesaf y Senedd, dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori ynghylch y ffordd orau o reoli gwrychoedd ar dir nad yw'n dir amaethyddol.**

**Argymhelliad 10: Dylai Llywodraeth Cymru weithredu ar frys i wahardd y defnydd o rwydi ar bob gwrych.**

**Argymhelliad 11: Yn y cyfamser, nes y caiff yr arfer o osod rhwydi ar wrychoedd ei wahardd, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi arweiniad ar frys i awdurdodau lleol i esbonio:**

- **y rhagdybiaeth yn erbyn gosod rhwydi ar wrychoedd ar unrhyw adeg;**
- **y cyfyngiadau cyfreithiol ar ddefnyddio rhwydi;**
- **yr angen i fod yn wyliadwrus er mwyn darganfod achosion anghyfreithlon o osod rhwydi.**

**Argymhelliad 12: Dylai Llywodraeth Cymru:**

- **gyhoeddi arweiniad newydd neu ddiwygiedig ynghylch y Rheoliadau Gwrychoedd;**
- **codi ymwybyddiaeth o fodolaeth yr arweiniad pan fydd wedi'i gyhoeddi; ac**
- **ystyried cynnwys yn yr arweiniad gyfeiriad at arfer gorau ym maes rheoli gwrychoedd.**

**Argymhelliad 13: Dylai Llywodraeth Cymru, yn ystod tymor hwn y Senedd, roi arweiniad cynllunio i awdurdodau lleol ynghylch yr angen i bwyso a mesur ffactorau hanesyddol, archaeolegol, ecolegol a diwylliannol wrth ystyried cais am ganiatâd cynllunio i waredu gwrych.**

**Argymhelliad 14: Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i ariannu a darparu rhestr o wrychoedd yng Nghymru, ac rydym yn awgrymu y gallai rhywfaint o'r gwaith casglu data gael ei gyflawni drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.**

## Tabl o acronymau

| | |
|---|---|
| AIDAC | Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru |
| Defra | Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Rhanbarthol Llywodraeth y DU |
| SoNaRR | Yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol |
| UE | Yr Undeb Ewropeaidd |

## 1 Diben yr adroddiad

Mae'r adroddiad hwn wedi'i ysgrifennu er mwyn ymateb i gyflwyniadau a gafwyd rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Rhagfyr 2021. Cafwyd cyfanswm o bedwar cyflwyniad. Cafodd un cyflwyniad ei anfon at AIDAC ar 4 Tachwedd 2021, un arall ar 17 Rhagfyr 2021 a dau ar 20 Rhagfyr 2021.

Mae fersiynau wedi'u golygu o'r cyflwyniadau ar wahân hyn wedi'u cynnwys yn Atodiad 1. Mae'r cyflwyniadau yn codi cwestiynau sy'n gysylltiedig â'i gilydd, felly penderfynodd AIDAC lunio un adroddiad a fyddai'n ymateb cyfun ac adrodd i Weinidogion Cymru yn unol â hynny.

Roedd y pryderon yn cynnwys y canlynol:

- a yw Rheoliadau Gwrychoedd 1997 yn cyflawni'r nod a ddatganwyd ar eu cyfer, sef gwarchod gwrychoedd yn effeithiol;
- a yw'r Rheoliadau hyn yn cael eu deall yn ddigon da neu'n cael eu gorfodi'n iawn;
- a ddylai'r gyfraith gael ei gweithredu'n ehangach fel ei bod yn ymdrin â pharciau a gerddi yn ogystal â thir ffermio;
- a yw cyllid grantiau'n annog pobl i waredu gwrychoedd sydd wedi tyfu'n wyllt; a
- beth yw effaith defnyddio rhwydi atal adar ar wrychoedd.

Yn dilyn cael y cyflwyniadau, cafodd ymatebion byr eu hanfon gan AIDAC at bob cyflwynydd yn cadarnhau'r cwestiynau y byddai AIDAC yn eu hystyried ac yn cadarnhau y byddai adroddiad yn cael ei lunio.

O ystyried pwysigrwydd gwrychoedd i'r amgylchedd ac i fioamrywiaeth yng Nghymru, penderfynodd AIDAC ofyn am dystiolaeth bellach ynghylch y mater. Cynhaliodd drafodaeth banel yn ystod Sioe Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf 2022 am y ddeddfwriaeth bresennol ynghylch gwrychoedd yng Nghymru ac am y ffordd orau o fynd ati i reoli gwrychoedd yn y dyfodol er mwyn cyflawni canlyniadau amgylcheddol. Yna, cafodd Galwad am Dystiolaeth ei lansio ym mis Awst 2022 a'r dyddiad cau ar gyfer anfon ymatebion oedd 2 Medi 2022.

Er mwyn rhoi sylw i'r materion a godwyd yn y cyflwyniadau, mae'r adroddiad hwn:

- yn asesu a yw'r fframwaith cyfreithiol presennol yn gweithredu'n effeithiol;
- yn nodi meysydd lle nad yw'r warchodaeth gyfreithiol bresennol efallai'n sicrhau'r manteision a fwriadwyd, yn enwedig yng nghyswllt gwarchod bioamrywiaeth;
- yn nodi bylchau posibl yn y ddeddfwriaeth bresennol;
- yn nodi meysydd lle gallai'r broses o roi'r ddeddfwriaeth ar waith yn ymarferol fod yn cael ei rhwystro; ac
- yn gwneud argymhellion ynghylch sut y gellid gwella'r gyfraith.

# 2 Cefndir

## 2.1 Cyflwr gwrychoedd yng Nghymru

Amcangyfrifir bod 25 y cant o wrychoedd yng Nghymru wedi'u dinistrio rhwng 1984 a 1990.[1] Gwelwyd amodau'n sefydlogi ar ôl cyflwyno'r Rheoliadau Gwrychoedd yn 1997 a gwarchodaeth trawsgydymffurfio yn rhan o Gynllun y Taliad Sengl ac yna Cynllun y Taliad Sylfaenol. Mewn gwirionedd, cynyddodd nifer y cilometrau o wrychoedd yn 2007 ac mae'r sefyllfa wedi parhau'n eithaf sefydlog ers hynny.

Gostyngodd nifer y coed mewn gwrychoedd ym Mhrydain o 56 miliwn yn 1951 i 2 filiwn yn unig yn 2007, yn rhannol oherwydd colledion o ganlyniad i glefyd llwyfen yr Isalmaen.[2] Amcangyfrifwyd bod brigdwf coed mewn gwrychoedd yn gorchuddio 6000 hectar, a bod 3600 hectar o'r arwynebedd hwnnw'n cynnwys grwpiau o goed a 2400 hectar ohono'n cynnwys coed sy'n sefyll ar eu pen eu hunain.[3] Nid yw cyfanswm hyd gwrychoedd yng Nghymru yn eglur. Rhoddodd Arolwg Cefn Gwlad 2007[4] ffigur o 106,000 cilometr ar gyfer nodweddion unionlin prennaidd a oedd, yn ôl y diffiniad ohonynt, yn cynnwys perthi (*hedges*), llinellau o goed, prysgoed a pherthi creiriol. Mae adroddiadau diweddarach yn amcangyfrif bod yna 75,000-76,000 cilometr o wrychoedd, a ddiffinnir fel llinellau terfyn o goed a phrysgoed sydd dros 20 metr o hyd, sy'n llai na 3 metr o uchder ac y mae lled cymedrig eu gwaelod yn llai na 4 metr.[5] I greu rhagor o ddryswch, mae Coed Cadw yn amcangyfrif bod yna 76,000 cilometr o berthi yng Nghymru a bod yna 106,000 cilometr arall o 'nodweddion unionlin prennaidd'.[6]

---

[1] *Yr Ail Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR 2020).* https://naturalresources.wales/media/693343/ 2020-ecosystem-enclosed-farmland.pdf, tudalen 23
[2] SoNaRR 2020, gweler nodyn 1, ar dudalen 23.
[3] Beauchamp, K. a Jenkins, T. (2020) *Creu Coetir yng Nghymru: Adroddiad i Fforwm Rheoli Tir Cymru, Asiantaeth Ymchwil y Comisiwn Coedwigaeth.* Llywodraeth Cymru. Ar gael yma: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-07/adroddiad-creu-coetiroedd-nghymru.pdf.
[4] Fel y dyfynnwyd yn Coed Cadw ("The Woodland Trust") (2021) *State of the UK's Woods and Trees* Tabl 1.1.4 https://www.woodlandtrust.org.uk/media/51705/state-of-the-uks-woods-and-trees-2021-thewoodlandtrust.pdf.
[5] Brewer et al (2017) *Tree Cover Outside Woodland in Great Britain*, Y Comisiwn Coedwigaeth, dyfynnwyd gan Coed Cadw a Beauchamp. Gweler nodiadau 4 a 3 uchod.
[6] Coed Cadw, tystiolaeth ysgrifenedig ym mharagraff 1.7.

Adroddodd yr Arolwg Cefn Gwlad fod 78 y cant o wrychoedd Cymru mewn 'cyflwr anffafriol'.[7] Canfu asesiad Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2020[8] mai dim ond 17 y cant o wrychoedd Cymru yn 2016 oedd yn bodloni'r holl feini prawf ar gyfer cyflwr da (h.y. o ran eu strwythur a'u cyrion).Dim ond 2 y cant oedd y ffigur ar gyfer tir âr. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o welliant i'w weld yn y cyflwr strwythurol ers 2007 wrth i 61 y cant fodloni'r meini prawf ar gyfer cyflwr strwythurol da. Mae pryderon difrifol wedi'u mynegi am effaith *Chalara*, o gofio bod llawer o ynn i'w cael mewn gwrychoedd, ar ffurf prysgoed a choed. Heb drefniadau rheoli parhaus priodol, gallai'r clefyd coed ynn arwain at fylchau niweidiol mewn gwrychoedd.[9]

**2.2 Pwysigrwydd gwrychoedd yng Nghymru**

Mae cadw gwrychoedd a'u rheoli yn gynaliadwy yn hanfodol o safbwynt cynnal bioamrywiaeth Cymru, gwarchod ecosystemau hanfodol a gwrthsefyll newid hinsawdd. Gall trefoli, newidiadau i'r modd y caiff y tir ei ddefnyddio, arferion ffermio yn ogystal ag effeithiau newid hinsawdd fygwth yr ecosystemau hyn. Gall gwaredu gwrychoedd sydd wedi hen ymsefydlu ddryllio ecosystemau cyfan, gan darfu ar fywyd gwyllt ac ymyrryd â gwasanaethau ecosystemau. Mae'r un peth yn wir am ddulliau gwael o reoli gwrychoedd presennol, oherwydd nid oes gan wrychoedd sydd newydd ymsefydlu yr un gwerth o safbwynt bywyd gwyllt, y dirwedd a phwysigrwydd hanesyddol o'u cymharu â gwrychoedd sydd wedi hen ymsefydlu. Cafodd Rheoliadau Gwrychoedd 1997 eu cyflwyno er mwyn mynd i'r afael â'r diwreiddio gwrychoedd a oedd yn digwydd ar raddfa eang o ganlyniad i arferion amaethyddol a oedd yn newid ac o ganlyniad i'r galw am ddatblygu tir, Felly, yr unig beth y mae'r Rheoliadau yn ymdrin ag ef yw gwaredu gwrychoedd. Nid ydynt yn sôn dim am reoli gwrychoedd presennol ac am y perygl i fioamrywiaeth a achosir gan waith plannu diwahaniaeth, sy'n cynnwys plannu er mwyn cyflawni ymrwymiadau'n ymwneud â charbon sero net.

---

[7] Fel y dyfynnwyd yn Cyfoeth Naturiol Cymru (2014) *Yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR). Asesu Rheolaeth Gynaliadwy ar Adnoddau Naturiol. Adroddiad Technegol. Pennod 3. Crynodeb o raddau, cyflwr a thueddiadau adnoddau naturiol ac ecosystemau yng Nghymru*, ym mharagraff 3.8. https://cdn.cyfoethnaturiol.cymru/media/684348/chapter-3-state-and-trends-final-for-publication.pdf.

[8] *Yr Ail Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR 2020).* https://naturalresources.wales/media/693343/ 2020-ecosystem-enclosed-farmland.pdf, tudalen 23.

[9] Beauchamp yn nodyn 3 uchod.

## 2.3 Pwysigrwydd amgylcheddol

### *2.3.1 Bioamrywiaeth*

Mae gwrychoedd yn rhan annatod o amgylchedd gwledig a threfol Cymru ac yn darparu ystod o fanteision amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol. Cafodd eu pwysigrwydd i fioamrywiaeth ei gydnabod gan eu statws fel cynefin â blaenoriaeth yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU[10] ac maent wedi'u cynnwys yn y rhestr o gynefinoedd â blaenoriaeth dan adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Mae gwrychoedd yn gyfoethog o ran bioamrywiaeth, ac ar gyfartaledd maent yn cynnal mwy o rywogaethau planhigion na choetiroedd a glaswelltiroedd.[11] Maent hefyd yn hanfodol bwysig i fathau eraill o fywyd gwyllt. Gwyddys bod dros 600 o rywogaethau planhigion, 1500 o rywogaethau pryfed, 65 o rywogaethau adar ac 20 o rywogaethau mamaliaid yn defnyddio cynefinoedd gwrychoedd.[12] Maent yn darparu safleoedd magu a nythu ar gyfer llawer o rywogaethau adar, bwyd ar gyfer gwenyn a gloÿnnod byw, a chysgod ar gyfer mamaliaid megis draenogod, ystlumod a llwynogod. Fel nodweddion unionlin, mae gwrychoedd yn hanfodol i gydnerthedd ecosystemau oherwydd eu bod yn darparu coridorau hollbwysig i fywyd gwyllt, sy'n creu cysylltedd rhwng cynefinoedd tameidiog ac yn cynnig lloches i rywogaethau y mae cynefinoedd diraddiedig ac effeithiau cynyddol newid hinsawdd yn effeithio arnynt.

Gallai adfer a rheoli gwrychoedd chwarae rhan yn y gwaith o fynd i'r afael â'r argyfwng bioamrywiaeth yng Nghymru a helpu i greu Cymru gydnerth. Yn anffodus, caiff cyfran fawr o wrychoedd eu gor-reoli neu'u hesgeuluso. Gall yr arfer rheoli a gaiff ei ffafrio ar hyn o bryd, sef ffustio perth unwaith y flwyddyn, ddinistrio llawer o werth gwrych o ran bioamrywiaeth. Ceir tystiolaeth i awgrymu nad yw 68 y cant o ffermwyr erioed wedi

---

[10] Cynefinoedd â Blaenoriaeth Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU oedd y cynefinoedd y nodwyd yn y Cynllun hwnnw eu bod fwyaf dan fygythiad a bod angen cymryd camau i'w cadw. Er nad yw'r rhestr o gynefinoedd â blaenoriaeth yn uniongyrchol berthnasol mwyach yn dilyn datganoli, mae'r rhestr yn parhau i fod yn rhestr gyfeirio bwysig ar gyfer mesurau ar lefel y DU.

[11] Vannest T. et al (2020) Plant diversity in hedgerows and road verges across Europe. *Journal of Applied Ecology* 57(7) 1244-1257 doi.org/10.1111/1365-2664.13620.

[12] Graham L. et al (2018) The influence of hedgerow structural conditions on wildlife habitat provision in farmed landscapes. *Biological Conservation* 220, 122-131.

gofyn am gyngor ynghylch sut i reoli eu gwrychoedd, a cheir diffyg dealltwriaeth yn gyffredinol o arferion rheoli da.[13] Fodd bynnag, cydnabyddir bod llawer o'n gwrychoedd presennol wedi cael eu plannu a'u cynnal a'u cadw gan ffermwyr.

### *2.3.2 Gwasanaethau ecosystemau*

Mae gwrychoedd hefyd yn darparu ystod o wasanaethau ecosystemau eraill. Maent yn nodweddion amaethyddol sydd wedi hen ymsefydlu yng Nghymru, lle maent yn gweithredu fel systemau amaeth-goedwigaeth ac yn gwella'r berthynas rhwng amaethyddiaeth a rheoli coetiroedd.[14] Gall gwrychoedd gynnig manteision sylweddol i iechyd a lles anifeiliaid. Maent yn darparu cysgod i dda byw a chnydau, gan leihau oerfel y gwynt yn y gaeaf a lleihau straen oherwydd gwres yn yr haf.[15]

Gall gwrychoedd atal pridd rhag erydu, cynnal iechyd pridd a gwella ansawdd dŵr. Gallant leihau llifogydd drwy gyflymu'r graddau y mae dŵr yn ymdreiddio i bridd a thrwy arafu llif dŵr[16] – sy'n nodwedd fwyfwy pwysig oherwydd canlyniadau'r argyfwng hinsawdd. Amcangyfrifwyd y gall gwrych 50 metr ar waelod cae 1 hectar storio rhwng 150 a 375 $m^3$ o ddŵr yn ystod cyfnodau o law, i'w ryddhau'n araf tuag i lawr yn ystod cyfnodau sych.[17] Ceir tystiolaeth bod gwrychoedd yn gallu lleihau briglif cyrsiau dŵr cyfagos yn dilyn glaw trwm, a hynny hyd at 50 y cant.[18]

Mae gwrychoedd hefyd yn ddalfeydd carbon pwysig. Ar gyfartaledd, gall fod yna oddeutu 300 $m^3$ o bren ym mhob cilometr o wrych, sy'n gyfwerth â rhwng 60 a 100 tunnell o garbon am bob cilometr, a hynny yn y biomas sydd uwchlaw wyneb y ddaear yn unig.[19]

---

[13] SoNaRR 2020, nodyn 1 uchod, ar dudalen 24.
[14] Tilzey M. (2021) The political ecology of hedgerows and their relationship to agroecology and food sovereignty in the UK. *Frontiers* doi.org/10.3389/fsufs.2021.752293
[15] Ymddiriedolaeth y Bobl dros Rywogaethau mewn Perygl *What have hedgerows ever done for us?* Ar gael yma: https://ptes.org/hedgerow/what-have-hedgerows-ever-done-for-us/.
[16] Tilzey, nodyn 14 uchod.
[17] Ymddiriedolaeth y Bobl dros Rywogaethau mewn Perygl, nodyn 15 uchod.
[18] SoNaRR 2020, nodyn 1 uchod, ar dudalen 44.
[19] Vanneste T. a De Frenne P. (2020) Hedging against biodiversity loss *The Applied Ecologist*. Ar gael yma: https://appliedecologistsblog.com/2020/05/14/hedging-against-biodiversity-loss/.

Mae'r galw cynyddol am fwyd a'r cynnydd mewn tyfu cnydau yn golygu bod bioamrywiaeth tir ffermio wedi dirywio. Gall gwrychoedd o safon, a reolir yn briodol, ddarparu ateb naturiol i'r broblem hon drwy adfer amrywiaeth cynefinoedd ar gyfer fflora, anifeiliaid di-asgwrn-cefn a mathau eraill o fywyd gwyllt.[20] Byddai hynny'n arwain at fwy o beillwyr, yn ogystal â'r posibilrwydd o ddefnyddio dulliau biolegol o reoli plâu yn y dirwedd gyfagos. Byddai, felly, yn lleihau'r angen am blaladdwyr a gwasanaethau peillio, a fyddai'n golygu llai o gostau i ffermwyr, ac yn lleihau llygredd aer a dŵr hefyd.[21]

Bydd rheoli gwrychoedd yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a gyflwynir yn 2026.[22] Mae potensial gwrychoedd i atafaelu carbon wedi'i gydnabod a'i ystyried yn nwydd yn y Cod Carbon Gwrychoedd sydd newydd gael ei dreialu, sy'n ceisio darparu cyfle i gynhyrchu ffrwd incwm amgen o fasnachu credydau carbon a bioamrywiaeth. Amcangyfrifir bod masnachu credydau o'r fath yn werth dros £60 miliwn ar y farchnad, a byddai'r masnachu yn cael ei gyflawni'n uniongyrchol gan ffermwyr.[23] Ym marn Cyfoeth Naturiol Cymru, dylai cydnabod potensial gwrychoedd i atafaelu carbon arwain at fesurau cadarnhaol i gynyddu nifer y cilometrau o wrychoedd presennol a chreu rhai newydd.[24]

Y tu allan i'r amgylchedd ffermio, gallai gwrychoedd chwarae rhan mewn seilwaith gwyrdd trefol hefyd.[25]

---

20 Garratt MPD. et al (2017) The benefits of hedgerows for pollinators and natural enemies depends on hedge quality and landscape context. *Agriculture, Ecosystems & Environment* 247, 363-370 doi.org/10.1016/j.agee.2017.06.048.
21 Stiles W. *Manteision gwrychoedd a choed ar gyfer amaethyddiaeth*. https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/newyddion-digwyddiadau/erthyglau-technegol/manteision-gwrychoedd-choed-ar-gyfer-amaethyddiaeth
22 https://www.llyw.cymru/y-cynllun-ffermio-cynaliadwy-amlinelliad-or-cynllun-2024-html
23 https://www.allertontrust.org.uk/projects/hedgerow-carbon-code/
24 SoNaRR 2020, nodyn 1 uchod, ar dudalen 25.
25 Höpfl L. et al (2021) Initiating research into adapting rural hedging techniques, hedge types, and hedgerow networks as novel urban green systems. *Land* 10(5) 529 doi.org/10.3390/land.10050529.

### *2.3.3 Pwysigrwydd diwylliannol*

Mae'r DU yn enwog ledled y byd, a hynny'n gywir ddigon, am ei phatrymau cyfoethog ac amrywiol o wrychoedd. Yng Nghymru, mae gwrychoedd yn rhan bwysig o'n treftadaeth ddiwylliannol a'n treftadaeth o ran y dirwedd ac maent yn gwneud cyfraniad hanfodol i'r ymdeimlad o le sydd gan ardal. Cawsom drafodaeth ddiddorol ynghylch beth yn union yw gwrych mewn gwahanol rannau o Gymru yn y digwyddiad a gynhaliwyd gan AIDAC yn y Sioe Frenhinol yn 2022.

Mae llawer o wrychoedd Cymru yn hynafol ac o ddiddordeb hanesyddol. Mae hynny'n arbennig o wir os ydynt yn nodi terfynau plwyfi, henebion cofrestredig neu nodweddion eraill o'r fath. Caiff oes gwrych ei hymestyn gan waith tocio mynych, sy'n aml yn golygu bod gwrychoedd yn hŷn na llawer o'r adeiladau hanesyddol y mae cymdeithas yn rhoi gwerth arnynt (e.e. eglwysi plwyf). Mae gwrychoedd, felly, yn galluogi cenedlaethau heddiw i gysylltu â'u hardal a'i hanes.

# 3 Y fframwaith cyfreithiol

## 3.1 Rheoliadau Gwrychoedd 1997

Yng Nghymru, yr unig ddarn o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud yn uniongyrchol ac yn gyfan gwbl â gwarchod gwrychoedd yw Rheoliadau Gwrychoedd 1997.[26] Yn ystod y blynyddoedd cyn hynny, roedd yna bryderon cynyddol am golli gwrychoedd[27] ac roedd Maniffesto'r Ceidwadwyr yn 1992[28] wedi addo mynd i'r afael â'r pryderon hynny drwy gyflwyno Cynllun Cymhelliant Gwrychoedd. Yn unol â hynny, cafodd darpariaethau eu cynnwys yn adran 97 Deddf yr Amgylchedd 1995, a oedd yn rhoi pŵer i Weinidogion wneud rheoliadau i warchod gwrychoedd pwysig yng Nghymru a Lloegr.[29] Ni chafodd y Rheoliadau eu hunain eu gwneud tan 1997.

Dim ond ar ôl sawl ymgais aflwyddiannus i gyflwyno Bil Gwrychoedd mwy cynhwysfawr i Senedd y Deyrnas Unedig y cafodd adran 97 ei chyflwyno – Bil a fyddai wedi cyflwyno mesurau ar gyfer rheoli ac adfer gwrychoedd ynghyd â rhagdybiaeth yn erbyn eu gwaredu.[30] Mae cwmpas y Rheoliadau yn fwy cyfyngedig o lawer. Gwnaeth canlyniadau arolwg gwrychoedd a oedd yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1990 a 1993 ddylanwadu ar ddull gweithredu Llywodraeth y DU. Roedd y canlyniadau'n dangos bod cyflymder gwaredu gwrychoedd wedi mwy na haneru i 3600 cilometr y flwyddyn o gymharu â 9500 cilometr y flwyddyn rhwng 1984 a 1990, a bod gwaith plannu gwrychoedd newydd wedi cynyddu i 4400 cilometr y flwyddyn. Yng nghyd-destun twf yn nifer y cilometrau o wrychoedd, penderfynodd Llywodraeth y DU sianelu gwarchodaeth i gyfeiriad y gwrychoedd pwysicaf na fyddai gwrychoedd newydd yn gallu gwneud iawn amdanynt pe baent yn cael eu gwaredu.[31] Roedd Llywodraeth y DU yn credu ei bod yn debygol y byddai oddeutu 20 y cant o wrychoedd yn cael eu

---

[26] Rheoliadau Gwrychoedd 1997 OS 1997/1160.
[27] Adroddodd Sefydliad Ecoleg y Tir fod cyfanswm hyd gwrychoedd yng Nghymru wedi gostwng 25 y cant rhwng 1984 a 1990 (gweler *The Hedgerows Regulations 1977: A Guide to the Law and Good Practice*, Defra 1997, paragraff 2.4).
[28] http://www.conservativemanifesto.com/1992/1992-conservative-manifesto.shtml
[29] Nid yw'r Ddeddf yn cynnwys diffiniad o wrych ('hedgerow'); yr unig beth y mae'n ei ddatgan yw bod gwrych yn cynnwys unrhyw ardal o wrych ('any stretch of hedgerow'). Yn ôl adran 97(2), mae'r cwestiwn ynghylch a yw gwrych yn bwysig neu beidio i'w ateb yn unol â meini prawf a ragnodir.
[30] Gan gynnwys y Bil Gwarchod Gwrychoedd, sef Bil Aelod Preifat a fethodd â chael ail ddarlleniad ym mis Mai 1993.
[31] Dadleuon Tŷ'r Cyffredin, cyfrol 291, colofn 308, 26 Chwefror 1997, Mr Clappison, Gweinidog dros yr Amgylchedd.

clustnodi'n rhai pwysig.[32] Er hynny, roedd yna bryderon am effeithiolrwydd y mesurau i ddarparu gwarchodaeth ddigonol, fel y nodwyd yn y dadleuon ynghylch y Rheoliadau drafft ac ynghylch y cynnig i'w cymeradwyo[33] ac yn ymchwiliad dilynol y Pwyllgor Dethol.[34]

### *3.1.1 Categorïau o wrychoedd*

Unig ddiben y Rheoliadau oedd atal gwrychoedd rhag cael eu gwaredu. Nid oedd a wnelo'r ddeddfwriaeth â rheoli gwrychoedd. Nid yw'r Rheoliadau yn ymdrin â phob gwrych, dim ond y rhai mewn ardaloedd o gefn gwlad, sef y rhai sydd ar neu wrth ymyl tir comin, meysydd pentref, tir gwarchodedig (h.y. Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig) neu dir a ddefnyddir at ddibenion amaethyddiaeth, coedwigaeth neu gadw ceffylau, merlod neu asynnod.[35] Nid yw'r Rheoliadau yn ymdrin â pherthi gerddi, na gwrychoedd sy'n nodi terfyn tŷ annedd, waeth beth yw'r defnydd a wneir o'r tir cyfagos.[36] At hynny, ceir cyfyngiadau ar hyd y gwrychoedd sydd wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau: rhaid bod gwrychoedd yn o leiaf 20 metr o hyd neu, os ydynt yn llai nag 20 metr o hyd, rhaid eu bod wedi'u cysylltu â gwrych arall fel eu bod yn creu rhwydwaith di-dor.[37] Os yw gwrych yn bodloni un o'r gofynion hyn, bydd y Rheoliadau yn berthnasol iddo cyhyd â bod y gwrych hefyd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer penderfynu bod gwrychoedd yn 'bwysig'. [38]

### *3.1.2 Meini prawf ar gyfer penderfynu bod gwrychoedd yn 'bwysig'*

I fod yn bwysig, rhaid bod gwrych yn bodoli ers 30 mlynedd neu fwy. Rhaid hefyd ei fod yn bodloni o leiaf un o'r meini prawf yn Atodlen 1 Rhan II y Rheoliadau. Y prif feini prawf yw gwerth archaeolegol a hanesyddol, bywyd gwyllt a gwerth o ran y dirwedd.

---

[32] Ibid, yng ngholofn 309.
[33] Dadleuon Tŷ'r Cyffredin, cyfrol 291, 26 Chwefror 1997 a chyfrol 292, 20 Mawrth 1997.
[34] Y Pwyllgor Dethol ar yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a Materion Rhanbarthol, 13[eg] Adroddiad Sesiwn 1997-98 *The Protection of Field Boundaries* HC-969
[35] Rheoliad 3(1).
[36] Rheoliad 3(3). Yn ôl arweiniad Defra, y ffordd orau o ymdrin â bygythiadau i wrychoedd trefol oedd drwy bwerau cynllunio awdurdodau lleol, *The Hedgerows Regulations 1977: A Guide to the Law and Good Practice,* Defra, 1997, paragraff 3.8.
[37] Rheoliad 3(1) (a) a (b).
[38] Rheoliad 4.

I fodloni'r maen prawf archaeolegol a hanesyddol[39], rhaid bod y gwrych yn:

- nodi terfyn plwyf neu drefgordd cyn 1850; neu'n
- ymgorffori nodwedd archaeolegol; neu
- wedi'i leoli mewn safle archaeolegol ac yn gysylltiedig â un o henebion neu nodweddion y safle hwnnw; neu'n
- nodi terfyn ystâd neu faenor cyn 1600; neu'n
- rhan annatod o system gaeau sy'n dyddio o gyfnod cyn y Deddfau Cau Tir.

I fodloni'r maen prawf sy'n ymwneud â bywyd gwyllt, rhaid bod y gwrych naill ai'n cynnwys rhywogaethau gwarchodedig penodol a/neu rywogaethau sydd mewn perygl, sydd wedi diflannu, sy'n brin neu sy'n agored i niwed neu'n cynnwys nifer benodedig o rywogaethau penodol o blanhigion prennaidd â nodweddion cysylltiedig lle bo'n briodol.[40]

Dan y maen prawf sy'n ymwneud â rhywogaethau, rhaid bod y gwrych yn:

- cynnwys rhywogaethau adar, anifeiliaid neu blanhigion a restrir mewn atodlenni i'r Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad[41]; neu'n
- cynnwys rhywogaethau adar ac anifeiliaid sydd mewn perygl, sydd wedi diflannu, sy'n brin neu sy'n agored i niwed ym Mhrydain cyn pen cyfnod o 5 mlynedd yn union cyn 1997;[42] neu'n
- cynnwys rhywogaethau planhigion sydd mewn perygl, sydd wedi diflannu, sy'n brin neu sy'n agored i niwed ym Mhrydain cyn pen cyfnod o 10 mlynedd yn union cyn 1997.[43]

I gael ei ystyried yn 'bwysig' ar sail ei gyfansoddiad o ran planhigion[44], rhaid bod gwrych yn cynnwys:

---

[39] Atodlen 1 Rhan II 1-5.
[40] Atodlen 1 Rhan II 6-7
[41] Mae Atodlen 1 Rhan II 6(1)(a) yn cyfeirio at adar Atodlen I Rhan I y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad a warchodir bob amser, anifeiliaid gwarchodedig Atodlen 5 y Ddeddf honno a phlanhigion gwarchodedig Atodlen 8. Mae Atodlenni 5 ac 8 yn destun adolygiadau rheolaidd.
[42] Atodlen 1 Rhan II 6(i)(b)(i) a 6(3)(c).
[43] Atodlen 1 Rhan II 6(i)(b)(ii) a 6(3)(c).
[44] Atodlen 1 Rhan II 7(i)(a)(i)–(d).

- o leiaf saith o rywogaethau prennaidd[45], ar gyfartaledd, mewn rhan sy'n 30 metr o hyd; neu
- o leiaf chwech o rywogaethau prennaidd, ar gyfartaledd, mewn rhan sy'n 30 metr o hyd, a rhaid bod ganddo o leiaf dair nodwedd gysylltiedig; neu
- o leiaf chwech o rywogaethau prennaidd, ar gyfartaledd, mewn rhan sy'n 30 metr o hyd, sy'n cynnwys poplysen ddu, neu bisgwydden dail mawr, neu bisgwydden dail bach, neu gerddinen wyllt; neu
- o leiaf bump o rywogaethau prennaidd, ar gyfartaledd, mewn rhan sy'n 30 metr o hyd, a rhaid bod ganddo o leiaf bedair nodwedd gysylltiedig.

Yn gryno, dyma'r nodweddion cysylltiedig[46]:

- arglawdd neu wal sy'n cynnal y gwrych;
- bylchau nad ydynt, o'u cyfuno, yn fwy na 10 y cant o hyd y gwrych;
- o leiaf un goeden dal am bob 50 metr;
- o leiaf dair rhywogaeth o restr o 57 o blanhigion coetir;[47]
- ffos ar hyd o leiaf hanner hyd y gwrych;
- nifer o gysylltiadau â gwrychoedd eraill, pyllau neu goetir;
- gwrych cyfochrog o fewn pellter o 15 metr.

I fodloni'r maen prawf sy'n gysylltiedig â'r dirwedd[48], rhaid bod y gwrych:

- wrth ymyl llwybr ceffylau, llwybr troed, ffordd a ddefnyddir fel llwybr cyhoeddus, neu gilffordd sy'n agored i bob math o draffig; ac
- yn cynnwys o leiaf bedair rhywogaeth brennaidd; ac
- yn cynnwys o leiaf ddwy nodwedd gysylltiedig.

[45] Mae Atodlen 3 y Rheoliadau yn rhestru 56 o rywogaethau coed a phrysgoed a ddiffinnir fel 'rhywogaethau prennaidd'.
[46] Atodlen 1 Rhan II 7(4) (a)-(i).
[47] Fel y rhestrir yn Atodlen 2 y Rheoliadau, 'Rhywogaethau Coetir' ('Woodland Species').
[48] Atodlen 8 (a) a (b).

### *3.1.3 Gwaredu neu gadw gwrychoedd pwysig*

Gwaherddir gwaredu gwrych pwysig oni chaiff hynny ei awdurdodi ymlaen llaw. Caiff 'gwaredu' ('remove') ei ddiffinio fel dadwreiddio neu ddinistrio fel arall ('uproot or otherwise destroy').[49] Gyda rhai eithriadau[50], rhaid i unrhyw un sy'n dymuno gwaredu'r cyfan neu unrhyw ran o wrych pwysig hysbysu'r awdurdod cynllunio lleol am eu bwriad. Yna, mae gan yr awdurdod cynllunio lleol 42 o ddiwrnodau i benderfynu a ddylai roi Hysbysiad Cadw Gwrych sy'n gwahardd gwaredu'r gwrych. Yn ystod y cyfnod hwnnw, rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol benderfynu a yw'r gwrych yn bodloni'r meini prawf ar gyfer pwysigrwydd neu beidio, a rhaid hefyd iddo ymgynghori â'r cyngor cymuned perthnasol. Os bydd yn dod i'r casgliad bod y gwrych yn bwysig, rhaid iddo roi'r Hysbysiad Cadw Gwrych oni bai ei fod yn fodlon bod yr amgylchiadau yn cyfiawnhau gwaredu'r gwrych. Yn ôl yr arweiniad, mae amgylchiadau o'r fath yn debygol o fod yn rhai eithriadol.[51]

### *3.1.4 Troseddau*

Dan Reoliad 7 mae'n drosedd gwaredu gwrych 'pwysig':

a) os yw'r awdurdod lleol wedi rhoi Hysbysiad Cadw Gwrych; neu

b) cyn pen 42 o ddiwrnodau ar ôl i'r awdurdod lleol gael Hysbysiad Gwaredu Gwrych gan yr ymgeisydd; neu

c) os na chaiff y gwaith gwaredu ei gyflawni'n unol â'r cynigion sydd yn yr Hysbysiad Gwaredu Gwrych; neu

ch) os oes mwy na dwy flynedd wedi pasio ers dyddiad cyflwyno Hysbysiad Gwaredu Gwrych.

Mae hefyd yn drosedd cyflawni gwaith sy'n mynd yn groes i Hysbysiad Cadw Gwrych.[52]

---

[49] Deddf yr Amgylchedd 1997, adran 97(8).

[50] Dan Reoliad 6 caniateir gwaredu gwrych os oes angen gwneud hynny er mwyn cael mynediad, cyflawni gwaith datblygu a ganiateir neu reoli'r gwrych yn briodol, ymhlith rhesymau eraill.

[51] *The Hedgerows Regulations 1977: A Guide to the Law and Good Practice*, Defra, 1997, paragraff 8.16.

[52] Rheoliad 7(1).

Yn y ddwy sefyllfa, mae'r drosedd yn berthnasol i unrhyw berson sy'n fwriadol neu'n fyrbwyll yn gwaredu'r gwrych, neu'n peri neu'n caniatáu i berson arall wneud hynny.

Mae'r ddirwy sy'n gysylltiedig â'r troseddau yn ddirwy nad yw'n fwy na'r uchafswm statudol ar gyfer euogfarn ddiannod neu'n ddirwy anghyfyngedig ar gyfer trosedd drwy dditiad. [53] Wrth benderfynu ynghylch swm unrhyw ddirwy, rhaid i'r llys ystyried unrhyw fudd ariannol sydd wedi cronni neu sy'n debygol o gronni i'r troseddwr.[54]

### *3.1.5 Gosod gwrych newydd*

Mae'n bosibl y bydd yr awdurdod lleol yn rhoi Hysbysiad Gosod Gwrych Newydd os oes gwrych wedi'i waredu mewn modd sy'n mynd yn groes i'r Rheoliadau. Gellir rhoi hysbysiad o'r fath waeth a oes achos troseddol wedi'i ddwyn neu beidio. [55]

## 3.2 Cyfraith a pholisi perthnasol arall

### *3.2.1 Deddfau Cau Tir*

Mae pwysigrwydd gwrychoedd fel terfynau caeau sy'n atal stoc rhag crwydro wedi'i gydnabod ers o leiaf y cyfnod Eingl-Sacsonaidd. Er enghraifft, roedd mesurau i ddigolledu tirfeddianwyr os oedd gwartheg cymydog wedi dod drwy berth i dir âr wedi'u cynnwys mewn cyfreithiau a bennwyd gan y Brenin Ine o Wessex ddiwedd y 7$^{fed}$ ganrif.[56] Daeth gwrychoedd yn elfen amlycach o lawer o gefn gwlad o'r Oesoedd Canol ymlaen, o ganlyniad i amryw Ddeddfau i droi tir comin yn dir preifat drwy ei amgáu â therfyn sefydlog. Cafodd dros 5000 o Ddeddfau gwahanol eu pasio yn ystod cyfnod o 300 mlynedd a gychwynnodd ddechrau'r 1600au. Erbyn y 18$^{fed}$ ganrif, roedd y broses wedi'i ffurfioli a chafodd cyfres o Ddeddfau Cau Tir yr oedd modd eu rhoi ar waith yn fwy cyffredinol eu pennu. Roedd y rheiny nid yn unig yn trosglwyddo hawliau comin i berchnogion unigol ond hefyd yn mynnu bod y perchennog yn cynnal a chadw'r

[53] Rheoliad 7(4).
[54] Rheoliad 7(6).
[55] Rheoliad 8.
[56] Cyfreithiau Ine, a ddyfynnir yn Pollard, Hooper a Moore 1974 *Hedges*: New Naturalist.

gwrych. Yn achos Flamborough[57], bernid bod gan aelod o'r cyhoedd statws i ddwyn achos dan Ddeddf Cau Tir Flamborough 1765, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog greu perth fyw a'i chynnal a'i chadw am byth[58]. Roedd hwn yn achos arbennig gan mai'r gwrych oedd y terfyn rhwng y cae a'r ffordd, a'r farn felly oedd ei fod o fudd nid yn unig i berchennog y cae ond hefyd i'r cyhoedd yn gyffredinol. Fodd bynnag, roedd yn dangos ei bod yn bosibl dwyn achos mewn amgylchiadau tebyg. Gellir dod o hyd i eiriad tebyg mewn Deddfau Cau Tir eraill a ddefnyddiwyd gan dirfeddianwyr, yr effeithid arnynt yn uniongyrchol, i orfodi rhwymedigaethau.[59] Yn dibynnu ar eiriad y Ddeddf Cau Tir berthnasol, roedd y rhwymedigaeth i gynnal a chadw'r berth yn drech nag unrhyw hawl a gâi ei rhoi dan y Rheoliadau i waredu gwrych.[60]

### *3.2.2 Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig*

Gall gwrychoedd gael eu gwarchod am resymau gwyddonol dan adran 28 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, sy'n darparu ar gyfer cadw gwrychoedd mewn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig os ydynt yn cynnwys cynefinoedd sy'n berthnasol i'r dynodiad. Fel rheol, caiff gwaredu gwrychoedd ei gynnwys ar y rhestr o weithrediadau sy'n debygol o niweidio'r diddordeb arbennig, a byddai angen caniatâd gan Cyfoeth Naturiol Cymru i wneud gwaith o'r fath.

### *3.2.3 Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017[61]*

Byddai gwaredu gwrychoedd ar raddfa fawr (2 i 4 cilometr ohonynt) ar dir amaethyddol yn cael ei ystyried yn waith ailstrwythuro dan y Rheoliadau hyn, a byddai angen i unrhyw waredu arfaethedig ar y raddfa hon at ddibenion amaethyddol gael penderfyniad sgrinio ynghylch cynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol.

---

[57] Rhoddodd y barnwr yn yr achos *Sinclair and Yorkshire Wildlife Trust v Flamborough Parish Council* ddatganiad a oedd yn nodi ei bod yn ofynnol i'r Cyngor Plwyf gynnal a chadw'r berth am byth.
[58] H.y. perth fyw yn hytrach na physt a rheiliau.
[59] Yn yr achos *Garnett v Pratt* [1926] Ch 897, cadarnhawyd y gallai tirfeddiannwr cyfagos yr effeithir arno'n uniongyrchol orfodi'r gofyniad hwn.
[60] Atebion ysgrifenedig gan yr Arglwydd Whitty, Dadleuon Tŷ'r Arglwyddi, cyfrol 595, 3 Rhagfyr 1988, colofn 49W a chyfrol 609, 7 Chwefror 2000, colofn 66W.
[61] OS Rhif 2017/565, Cy. 134.

### *3.2.4 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016*

Caiff gwrychoedd eu rhestru dan adran 7 yn gynefin sydd o'r pwysigrwydd pennaf at ddiben cynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru (yn gynefin â blaenoriaeth). Mae adran 7(3) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion gymryd pob cam rhesymol er mwyn cynnal a gwella'r cynefinoedd sydd wedi'u rhestru ac er mwyn annog eraill i gymryd camau o'r fath. At hynny, dan adran 6, rhaid i awdurdodau cyhoeddus roi sylw i restrau adran 7 mewn perthynas â'u dyletswyddau i geisio a chynnal bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau. Yn ogystal, cyfeirir yn glir at gynefinoedd â blaenoriaeth ym Mholisi Cynllunio Cymru.

### *3.2.5 Polisi Cynllunio Cymru*

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi bod gwrychoedd o bwysigrwydd mawr i fioamrywiaeth a'u bod yn gynefinoedd cysylltu pwysig.[62] Aiff yn ei flaen i ddatgan y dylai awdurdodau cynllunio warchod gwrychoedd 'lle mae iddynt werth ecolegol, lle maent yn cyfrannu at gymeriad neu amwynder ardal leol arbennig, neu lle maent yn cyflawni swyddogaeth fuddiol i'r seilwaith gwyrdd.'[63] 'Dylai ceisiadau cynllunio nodi mesurau i'w cadw, eu diogelu a'u hintegreiddio'[64] ac ni ddylid rhoi caniatâd i waredu gwrych oni bai y byddai gwneud hynny'n sicrhau 'budd cyhoeddus sylweddol a phenodol'.[65] Dylai'r gwaith gwarchod gael ei gyflawni, 'lle bo'n briodol, drwy strategaethau a pholisïau penodol i'r ardal leol, drwy osod amodau wrth roi caniatâd cynllunio, a/neu drwy wneud Gorchmynion Diogelu Coed.'[66]

### *3.2.6 Polisi amaethyddol*

Nid yw Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn cynnwys darpariaethau penodol ynghylch rheoleiddio gwrychoedd ond mae'n amlwg bod rheoli gwrychoedd yn berthnasol i gynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r gwasanaethau y maent yn eu

[62] *Polisi Cynllunio Cymru* Rhifyn 12, Chwefror 2024, ym mharagraff 6.4.37.
[63] Ibid ym mharagraff 6.4.39.
[64] Ibid ym mharagraff 6.4.40.
[65] Ibid ym mharagraff 6.4.42.
[66] Ibid ym mharagraff 6.4.44.

darparu, sef un o'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy a nodir yn Rhan I.[67] Nodir bod y cysylltiadau rhwng ecosystemau ac oddi mewn iddynt yn ffactor perthnasol o ran yr amcan hwn.[68]

Ar hyn o bryd, caiff pob gwrych ei warchod rhag camau i'w waredu, a hynny trwy reolau trawsgydymffurfio ar ffermydd sy'n cymryd rhan yng Nghynllun y Taliad Sylfaenol. Mae rheoli gwrychoedd wedi'i gynnwys yn y Gweithredoedd Cyffredinol yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy y disgwylir iddo gael ei gyflwyno yn 2026.[69] Mae cydymffurfio â'r Gweithredoedd Cyffredinol yn un o ofynion cael mynediad i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Amcan Gweithred Gyffredinol 11, sef Rheoli Gwrychoedd, yw 'cynyddu maint a thrwch perthi (gwrychoedd) sy'n cael eu tocio'n rheolaidd er budd da byw, storio carbon, bioamrywiaeth a thirwedd'.

I gwblhau'r Weithred Gyffredinol hon, bydd angen i ffermwyr:

- reoli eu gwrychoedd drwy beidio â'u tocio neu'u torri bob blwyddyn (gallant eu torri bob yn ail flwyddyn neu'n llai aml na hynny);
- eu torri bob yn gyfnod i gynyddu eu huchder, eu lled a'u trwch fel eu bod yn cael tyfu'n uwch ac yn lletach bob tro nes eu bod yn cyrraedd y maint gorau i allu cyflawni eu holl fuddion. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cyngor ynghylch beth yw maint a thrwch da er mwyn cynorthwyo gyda hynny;
- cynnal coed mewn gwrychoedd, ar gyfartaledd bob 50 metr, drwy gadw coed sy'n bodoli eisoes a nodi sbesimenau i'w tyfu os oes angen;
- cynnal parth clustogi un metr o waelod y berth, nad yw'n cael ei drin na'i wrteithio a lle nad oes plaladdwyr nac unrhyw fewnbynnau eraill yn cael eu gwasgaru; a

[67] Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, adran 1(4).
[68] Ibid, adran 1(7).
[69] Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy: amlinelliad o'r cynllun (2024) a gyhoeddwyd ar 25 Tachwedd 2024 https://www.llyw.cymru/y-cynllun-ffermio-cynaliadwy-amlinelliad-or-cynllun-2024-html#158366.

- pharhau i gadw at ddyddiadau torri er mwyn gwarchod adar sy'n nythu (dim torri rhwng 1 Mawrth a 31 Awst).

Mae Gweithred Gyffredinol 13, Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi (Gwrychoedd), yn berthnasol hefyd. Mae'r Weithred hon yn ei gwneud yn ofynnol i ffermwyr 'ddatblygu cynllun sy'n nodi'r cyfleoedd ar gyfer ... creu perthi/gwrychoedd newydd ... er mwyn cynnig buddion niferus'.

### *3.2.7 Newid hinsawdd*

Mae rôl gwrychoedd wrth fynd i'r afael â newid hinsawdd wedi'i hystyried gan Bwyllgor Newid Hinsawdd y DU. Mae wedi argymell y dylai arwynebedd y tir a orchuddir gan wrychoedd gael ei gynyddu i oddeutu 181,000 hectar erbyn 2025.[70] Mae hynny'n gynnydd o 40 y cant. Er bod gwaith dadansoddi wedi awgrymu nad yw creu gwrychoedd yn gost-effeithiol o safbwynt carbon yn unig, roedd y Pwyllgor o'r farn bod yr ystod eang o fanteision amgylcheddol eraill yn cyfiawnhau'r gwariant cyhoeddus.[71]

## 4 Dadansoddi'r dystiolaeth

Cafodd AIDAC dystiolaeth gan 14 o ymatebwyr, a restrir yn Atodiad 2, a ymatebodd i'r cwestiynau canlynol a ofynnwyd yn yr Alwad am Dystiolaeth:

- a yw Rheoliadau Gwrychoedd 1997 yn cyflawni'r nod a ddatganwyd ar eu cyfer, sef gwarchod gwrychoedd yn effeithiol;
- a yw'r Rheoliadau hyn yn cael eu deall yn ddigon da neu'n cael eu gorfodi'n iawn;
- a ddylai'r gyfraith gael ei gweithredu'n ehangach fel ei bod yn ymdrin â pharciau a gerddi yn ogystal â thir ffermio;
- a yw cyllid grantiau'n annog pobl i waredu gwrychoedd sydd wedi tyfu'n wyllt; a
- beth yw effaith defnyddio rhwydi atal adar ar wrychoedd.

---

[70] *Land Use: Policies for a Net Zero UK*, Y Pwyllgor Newid Hinsawdd 2020, ar dudalen 34 https://www.theccc.org.uk/publication/land-use-policies-for-a-net-zero-uk/.
[71] Ibid ar dudalen 93.

### 4.1 Pwysigrwydd gwrychoedd Cymru

Pwysleisiodd sawl ymatebydd bwysigrwydd gwrychoedd yng Nghymru oherwydd eu gwerth o ran bywyd gwyllt a'u gwerth diwylliannol. Honnwyd hyd yn oed mai gwrychoedd yw'r prif adnodd ar gyfer cynefinoedd yng nghefn gwlad Cymru oherwydd, gan eu bod yn goridorau ecolegol rhwng darnau o goetir a safleoedd gwarchodedig eraill, eu bod yn chwarae rôl gynyddol o safbwynt helpu rhywogaethau i addasu i'r newid hinsawdd a'u bod hefyd yn chwarae rôl hanfodol ym maes cadwraeth ymhlith tirweddau a gaiff eu ffermio'n ddwys.[72] Nodwyd eu bod yn enghraifft brin o 'dreftadaeth naturiol', sy'n mwynhau gwarchodaeth gyfreithiol o ganlyniad i'w cyfraniad i dreftadaeth ddiwylliannol, oherwydd bod rhai gwrychoedd yn cynnwys nodweddion archaeolegol neu'n darparu lleoliad ar gyfer safleoedd archaeolegol.[73] Fodd bynnag, roedd yna bryderon am y diffyg amrywiaeth cynyddol mewn gwrychoedd; maent yn mynd yn rhy unrhyw ac yn rhy unffurf o ganlyniad i arferion rheoli diofyn.[74] Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru fod nifer y coed sydd mewn gwrychoedd yn parhau i ostwng a bod coed yn cael eu colli'n gyflymach o lawer yn awr oherwydd y clefyd coed ynn (*Chalara*).

### 4.2 Cylch gorchwyl y Rheoliadau Gwrychoedd

#### *4.2.1 Effeithiolrwydd y Rheoliadau*

Roedd rhywfaint o gefnogaeth i effeithiolrwydd y Rheoliadau o safbwynt lleihau gwaredu gwrychoedd ar raddfa eang.[75] Ystyrid bod y Rheoliadau yn werthfawr i'r graddau eu bod yn cadarnhau bod perthi'n bwysig ac na ddylid eu gwaredu. Mae hynny'n ofyniad cyfreithiol syml a chlir nad yw'n bodoli ar gyfer cynefinoedd gwerthfawr

---

[72] Tystiolaeth ysgrifenedig Ymddiriedolaethau Natur Cymru, tudalen 1.
[73] Tystiolaeth ysgrifenedig Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU
[74] Arfon Williams, fel y cofnodwyd yn y nodyn am y Drafodaeth Banel yn y Digwyddiad i Randdeiliaid yn y Sioe Frenhinol, ar dudalen 3.
[75] Tystiolaeth ysgrifenedig gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Coed Cadw. Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru fod arwynebedd y tir a orchuddir gan wrychoedd wedi sefydlogi ers cyflwyno'r Rheoliadau.

eraill megis coetiroedd hynafol neu goed hynafol.[76] Nododd sawl awdurdod lleol mai ychydig iawn o Hysbysiadau Gwaredu Gwrych y maent yn eu cael bellach, a bod y niferoedd wedi gostwng yn sylweddol ers yr ychydig flynyddoedd cyntaf ar ôl cyflwyno'r Rheoliadau.[77] Fodd bynnag, câi cwmpas y Rheoliadau ei feirniadu'n helaeth, o safbwynt y mathau o wrychoedd y maent yn ymdrin â nhw ac o safbwynt y mesurau gwarchod sydd ar gael. Barn y mwyafrif helaeth oedd nad yw'r Rheoliadau yn gwarchod y rhan fwyaf o wrychoedd rhag camau i'w gwaredu, ac nad ydynt yn gwarchod unrhyw wrychoedd rhag cael eu rheoli'n wael.

### *4.2.2 Diffiniad o wrych*

Nid yw'r Rheoliadau na'r Ddeddf lywodraethol yn diffinio beth yw 'gwrych'. Yr unig beth y mae'r Ddeddf yn ei ddatgan yw bod gwrych yn cynnwys unrhyw ardal o wrych ('any stretch of hedgerow'). Mae'r Canllaw i'r Rheoliadau yn awgrymu defnyddio diffiniad yr Oxford English Dictionary, sef 'a row of bushes forming a hedge with the trees etc growing in it; line of hedge'.[78] Aiff y Canllaw yn ei flaen i ddatgan nad yw'r Rheoliadau yn ymdrin ag unrhyw wrych blaenorol nad yw wedi'i reoli yn weithredol ac sydd wedi troi'n llinell o goed.[79] Nododd sawl cyflwyniad nad oedd bob amser yn hawdd gwahaniaethu rhwng gwrych a llinell o goed.[80] Er enghraifft, gall rhes o lwyni drain gwynion neu gyll nad ydynt wedi'u rheoli fod yn dal; ond ni fyddent yn cael eu hystyried yn llinell o goed.[81]

Cafwyd sylwadau ynghylch methiant y Rheoliadau i warchod coed mewn gwrychoedd. Roedd Coed Cadw yn teimlo bod y Rheoliadau wedi bod yn bwysig ac wedi llwyddo i leihau'r graddau y caiff perthi eu gwaredu a'u dinistrio, ond roedd yn teimlo hefyd nad

---

[76] Tystiolaeth ysgrifenedig Coed Cadw, ym mharagraff 1.1.
[77] Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cael llai na deg o Hysbysiadau Gwaredu Gwrych bob blwyddyn, ac yn cael dim weithiau. Dim ond llond llaw o Hysbysiadau y mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi'u cael yn ystod y 15 mlynedd diwethaf.
[78] *The Hedgerow Regulations 1997. A Guide to the Law and Good Practice*, paragraff 3.3.
[79] Ibid, paragraff 3.4.
[80] Tystiolaeth ysgrifenedig gan Gymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.
[81] Tystiolaeth ysgrifenedig gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Chymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol Cymru.

oeddent wedi llwyddo i atal colli coed mewn gwrychoedd, gan gynnwys hen goed a choed hynafol nad oes gan y rhan fwyaf ohonynt unrhyw warchodaeth gyfreithiol.[82] Mae gwarchod coed rhag cael eu cwympo yn dibynnu ar y Rheoliadau Cwympo Coed a wnaed dan Ddeddf Coedwigaeth 1967.[83]

Roedd yna bryderon nad yw'r Rheoliadau yn ystyried yr amrywiaeth o wahanol fathau o wrychoedd sydd i'w cael. Er enghraifft, ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro, mae mwyafrif y perthi'n tyfu ar gloddiau â pherthi Sir Benfro. Os yw'r rhain wedi'u cofnodi ar Fapiau Degwm, mae'n bosibl y byddant yn gymwys i gael eu hystyried yn bwysig dan y meini prawf ar gyfer archaeoleg a hanes, fel marcwyr terfynau hanesyddol.[84] Ceir pryderon tebyg am gloddiau, sef math o derfyn sy'n arbennig o nodweddiadol o Benrhyn Llŷn. Argloddiau o bridd yw cloddiau, y mae ganddynt wyneb o gerrig fel rheol ac y gallai perth fod wedi'i phlannu ar eu pen.[85] Ni sonnir yn benodol am nodweddion clawdd â pherth yn y Rheoliadau, ar wahân i fel nodwedd gysylltiedig.[86] Mae hynny er gwaetha'r ffaith bod y Canllaw yn datgan nad yw'r Rheoliadau yn ymdrin â waliau cerrig oni bai, fel sy'n gyffredin mewn rhannau o Gymru, bod tir sy'n cynnal y gwrych yn cynnwys arglawdd o bridd a/neu gerrig y mae gwrych yn tyfu ar ei ben.[87]

Yn y Digwyddiad i Randdeiliaid yn y Sioe Frenhinol, awgrymwyd bod y diffiniad yn rhy gul oherwydd ei fod yn gwarchod y rhan o'r gwrych sy'n tyfu yn hytrach na'r strwythur cyfan, gan gynnwys coed hynafol sy'n rhan o'r berth, ffosydd ac argloddiau.[88] Hoffai Coed Cadw weld y Rheoliadau yn cael eu haddasu fel eu bod yn cynnwys diffiniad o

---

[82] Tystiolaeth ysgrifenedig Coed Cadw, paragraff 1.1
[83] Mae trosolwg o'r drefn ar gyfer rheoleiddio cwympo coed yng Nghymru i'w weld yma: https://www.llyw.cymru/cwympo-coed-deddf-coedwigaeth-1967-phwerau-newydd.
[84] Tystiolaeth ysgrifenedig Nature at Risk Ceredigion, tudalen 4.
[85] *Cloddiau* https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Bioamrywiaeth/Cynlluniau-Gweithredu-Cynefinoedd/CGC-Cloddiau.pdf
[86] Tystiolaeth ysgrifenedig Nature at Risk Ceredigion, tudalen 4. Mae Atodlen I Rhan 2 7(4)(a) yn cynnwys, yn y rhestr o nodweddion cysylltiedig, arglawdd neu wal sy'n cynnal y gwrych ar hyd o leiaf ei hanner.
[87] *The Hedgerow Regulations 1997 A Guide to the Law and Good Practice*, paragraff 3.5.
[88] Jerry Langford fel y cofnodwyd yn y nodyn am y Drafodaeth Banel yn y Digwyddiad i Randdeiliaid yn y Sioe Frenhinol, tudalen 2. Cafodd barn debyg ei mynegi mewn tystiolaeth ysgrifenedig gan Coed Cadw, ym mharagraff 2.3.

wrych, sy'n gwahaniaethu'n glir rhwng y 'berth' – sef y prysgoed sy'n tyfu – a'r gwrych – sef yr holl elfennau byw a strwythurol eraill sy'n creu'r terfyn cae.[89]

#### *4.2.3 Gwrychoedd trefol a gwrychoedd eraill*

Roedd yna rywfaint o gefnogaeth, gan awdurdodau lleol yn bennaf,[90] dros ehangu cwmpas y Rheoliadau fel eu bod yn ymdrin â gwrychoedd nad ydynt yn rhai amaethyddol. Fodd bynnag, nid oedd un awdurdod lleol yn cefnogi hynny gan nad oedd yn glir pwy fyddai'n ei weinyddu.[91]

Nodwyd bod y Rheoliadau yn datgan yn benodol nad ydynt yn cynnwys gwrychoedd gerddi, ond nad oeddent yn sôn dim am ardaloedd eraill o dir a oedd yn cynnwys parcdir, mynwentydd ac ystadau diwydiannol ac unrhyw dir preifat nad yw yng nghwrtil annedd. Gallai unrhyw un o'r rhain fod â therfynau sy'n wrychoedd.[92]

Nododd un cyflwyniad nad oedd unrhyw wahaniaethu rhwng gwrychoedd gwledig a gwrychoedd trefol yn narpariaethau adran 97 Deddf yr Amgylchedd ac, felly, nad oedd unrhyw reswm pam na allai gwrychoedd trefol gael eu cynnwys.[93] Pe bai diben y Rheoliadau yn cael ei newid i sicrhau bod gwrychoedd bioamrywiol yn cael eu gwarchod, yna ceir dadl dros ehangu'r cylch gorchwyl i leihau'r tebygolrwydd bod gwrychoedd gerddi'n cael eu colli, yn enwedig lle maent yn ffinio â thir amaethyddol.[94] Fodd bynnag, os yw diben y Rheoliadau wedi'i gyfyngu i warchod gwrychoedd pwysig cefn gwlad, mae parhau i beidio â chynnwys parciau a gerddi'n gwneud synnwyr.[95]

---

[89] Tystiolaeth ysgrifenedig Coed Cadw, ym mharagraff 5.4.1.
[90] Fel y mynegwyd mewn tystiolaeth ysgrifenedig gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar dudalen 4, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ar dudalen 4 a Chyngor Castell-nedd Port Talbot ar dudalen 2.
[91] Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Abertawe.
[92] Tystiolaeth ysgrifenedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, paragraff 3g; tystiolaeth ysgrifenedig Undeb Amaethwyr Cymru, tudalen 4.
[93] Tystiolaeth ysgrifenedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, paragraff 3a.
[94] Tystiolaeth ysgrifenedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, paragraff 3b; Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, paragraff 3b.
[95] Tystiolaeth ysgrifenedig Cymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol Cymru, tudalen 3; Cyngor Castell-nedd Port Talbot, tudalen 3.

Gwnaeth hyd yn oed y sawl sydd o blaid newid y cylch gorchwyl fynegi pryderon am y goblygiadau o ran adnoddau. Byddai ehangu cylch gorchwyl y Rheoliadau mewn unrhyw fodd yn golygu y byddai galwadau newydd ar awdurdodau lleol ac y byddai angen adnoddau ychwanegol,[96] nid yn lleiaf oherwydd yr angen posibl am ymchwil bellach i'r ffactorau sy'n bygwth gwrychoedd trefol ac i werth gwrychoedd o'r fath.[97]

Pe bai cwmpas y Rheoliadau yn cael ei ehangu, byddai'n bwysig cydnabod na ddylai'r Rheoliadau ymdrin o reidrwydd â phob gwrych trefol. Teimlid mai'r gwrychoedd trefol pwysicaf yw'r rhai a oedd yn creu terfyn â thir amaethyddol. Y ddadl oedd bod y mathau hyn o wrychoedd yn aml yn gallu bod yn nodweddion hanfodol i'r bont rhwng ardal beritrefol ac ardal wledig, ac y dylid eu gwarchod. Byddai eu colli, ac yna gosod ffens addas i ardd yn eu lle, yn niweidio cymeriad a golwg terfynau aneddiadau.[98] Fodd bynnag, nid oedd mynnu bod yn rhaid i awdurdodau lleol roi'r Rheoliadau ar waith yng nghyswllt gwrychoedd gerddi rhwng eiddo cyfagos yn opsiwn a gâi ei ffafrio. Er bod gwrychoedd o'r fath efallai'n esgor ar fanteision sylweddol i fywyd gwyllt trefol, gellid creu anghydfodau sifil ychwanegol a diangen.[99] Awgrymwyd y byddai'r math hwn o wrych yn esempt oherwydd ei fod yn annhebygol o fod o fudd cyhoeddus.[100]

Honnwyd bod yna lai o lawer o rwymedigaethau i warchod gwrychoedd presennol yng nghyswllt datblygiadau megis ffyrdd a thai a bod yna lai o ganlyniadau, os oedd canlyniadau o gwbl, pe bai'r gwrychoedd hynny'n cael eu gwaredu.[101] Awgrymwyd efallai fod bygythiadau y gallai gwrychoedd gael eu gwaredu, ac y gallent gael eu colli ar raddfa eang, yn digwydd yn amlach yn awr oherwydd gwaith datblygu yn hytrach na gweithgarwch ffermydd. Yn benodol, mae datblygu wrth ymyl ffordd yn arwain yn aml at waredu gwrychoedd ar y tir blaen wrth ymyl y ffordd, y gallai rhai ohonynt fod yn hynafol.[102]

---

[96] Tystiolaeth ysgrifenedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, paragraff 3h.
[97] Tystiolaeth ysgrifenedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, paragraff 3c.
[98] Tystiolaeth ysgrifenedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, paragraff 3d-f.
[99] Tystiolaeth ysgrifenedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, paragraff 3d.
[100] Tystiolaeth ysgrifenedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, paragraff 3f.
[101] Tystiolaeth ysgrifenedig Undeb Amaethwyr Cymru, tudalen 4.
[102] Tystiolaeth ysgrifenedig Coed Cadw, paragraff 3.2-3.3.

### *4.2.4 Diffiniad o wrych "pwysig"*

Soniodd sawl cyflwyniad am y problemau sy'n gysylltiedig â'r diffiniad o 'pwysig' dan y pennawd Bywyd Gwyllt a Thirwedd. O ran bywyd gwyllt, roedd y sylwadau'n perthyn i ddau gategori bras: pryderon am eiriad y diffiniad a'r anawsterau y deuir ar eu traws wrth geisio ei ddefnyddio; a phryderon am ei fethiant i ystyried syniadau cyfredol am rôl gwrychoedd fel cynefinoedd â blaenoriaeth.

### *4.2.5 Atodlenni'r Rheoliadau Gwrychoedd*

Codwyd y materion canlynol am eiriad yr Atodlenni:

- cymhlethdod y meini prawf;
- y rheol 30 mlynedd;
- mesur ar draws 30 metr;
- rhestrau o rywogaethau coetir a rhywogaethau prennaidd;
- deunydd crai; ac
- arolygon yn y maes.

Credir bod y diffiniad o wrych 'pwysig' yn rhy gymhleth.[103] Mae'n seiliedig ar gyfuniad o oedran y gwrych a nifer y rhywogaethau sydd ynddo. Yn y Digwyddiad i Randdeiliaid yn y Sioe Frenhinol, y farn oedd y dylai oedran gwrych gael ei ystyried wrth benderfynu ynghylch ei 'bwysigrwydd' ac y dylai gwarchod gwrychoedd hynafol gael ei flaenoriaethu ar sail bioamrywiaeth yn ogystal â gwerth hanesyddol a diwylliannol.[104] Fodd bynnag, cafodd y terfyn oedran o 30 mlynedd ei herio. Er y gallai fod yn gwneud synnwyr am resymau archaeolegol a hanesyddol, nid yw o reidrwydd yn fesur da o werth o ran bioamrywiaeth. Yn benodol, teimlid bod cyfle'n cael ei golli i warchod gwrychoedd aeddfed y dyfodol drwy beidio â chynnwys gwrychoedd iau.[105]

Cafodd y maen prawf ynghylch presenoldeb rhywogaethau rhestredig ei feirniadu'n llym, yn gyntaf oherwydd ei fod yn seiliedig ar wybodaeth sydd wedi dyddio nad oes

---

[103] Tystiolaeth ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru, paragraff 2.
[104] Jerry Langford fel y cofnodwyd yn y nodyn am y Drafodaeth Banel yn y Digwyddiad i Randdeiliaid yn y Sioe Frenhinol, tudalennau 2-3.
[105] Tystiolaeth ysgrifenedig Ymddiriedolaethau Natur Cymru, paragraff 4.

modd cael gafael arni'n aml,[106] ac yn ail oherwydd ei fod yn dibynnu ar wybodaeth yn union cyn 24 Mawrth 1977, sef y 'dyddiad perthnasol' a nodir yn y Rheoliadau.[107] Ni ellir ystyried cofnodion o adeg ar ôl y dyddiad hwnnw, ac mae'r Rheoliadau yn nodi'n benodol nad ydynt yn cynnwys y posibilrwydd o ystyried unrhyw adolygiadau, ychwanegiadau neu addasiadau dilynol.[108]

Roedd yna bryderon hefyd am y ffocws ar rywogaethau sydd mewn gwrych. Gall gwrychoedd esgor ar effeithiau pwysig i rywogaethau nad ydynt yn byw ynddynt. Er enghraifft, gallant ddarparu coridorau fforio neu lwybrau ecoseinio i ystlumod.[109]

Cafodd y fformiwlâu cymhleth ar gyfer penderfynu ynghylch pwysigrwydd ar sail nifer y rhywogaethau prennaidd mewn rhan benodol o wrych eu herio hefyd. Gallai gwrychoedd cymharol ifanc, hyd yn oed os ydynt yn hŷn na 30 oed, fethu'r prawf hwn er bod ganddynt y potensial i barhau i ddatblygu gydag amser.[110] Mae'r maen prawf yn gofyn am bresenoldeb nifer benodol o rywogaethau prennaidd mewn rhannau 30 metr o wrych. Roedd yna bryderon mwy sylfaenol am y sail ar gyfer yr asesiad 30 metr. Tybid ei fod wedi'i seilio ar Reol Hooper ynghylch Oedran Gwrych, sy'n datgan bod modd cyfrifo'r oedran gan ddefnyddio fformiwla, ac mai un o dermau'r fformiwla yw nifer y rhywogaethau sydd mewn rhan 30 llathen.[111] Awgrymwyd y dylai'r nifer gael ei hasesu yn y gwrych cyfan, o ystyried y gallai'r gwrych cyfan gynnwys mwy o rywogaethau nag a welir mewn unrhyw ran 30 metr unigol, oherwydd bod rhywogaethau'n annhebygol o fod wedi ymsefydlu'n naturiol mewn modd gwastad ar

[106] Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn argymell y dylai'r cyfeiriadau hyn gael eu dileu neu'u diweddaru. Tystiolaeth ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru, paragraff 1.
[107] Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn argymell mai'r diwygiad lleiaf y dylid ei wneud yw dileu'r term 'dyddiad perthnasol' ('relevant date') o'r Rheoliadau. Tystiolaeth ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru, paragraff 1.
[108] Rhan I y Rheoliadau Gwrychoedd. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn bod awdurdodau lleol yn tueddu i anwybyddu'r geiriad hwn ac ystyried gwybodaeth arolygon diweddarach, a allai olygu felly bod achos o orfodi'r Rheoliadau yn cael ei herio am resymau technegol. Tystiolaeth ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru, tudalen 3.
[109] Tystiolaeth ysgrifenedig Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU, ym mharagraff 12.
[110] Tystiolaeth ysgrifenedig Ymddiriedolaethau Natur Cymru, paragraff 4.
[111] Tystiolaeth ysgrifenedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, paragraff 1m.

hyd y gwrych cyfan.[112] Mae'n bosibl bod y fformiwla'n gweithio ar gyfer penderfynu ynghylch oedran gwrych ond nid dyna'r cwestiwn a ofynnir.[113]

Cafodd materion eu codi hefyd ynghylch y planhigion sydd yn y rhestrau o rywogaethau prennaidd a phlanhigion coetir. Honnodd un cyflwyniad fod yna safonau mympwyol ynghylch beth yw gwrych, a bod rhai rhywogaethau planhigion â choesynnau prennaidd wedi'u cynnwys a bod eraill wedi'u hepgor.[114] Caiff rhywogaethau prennaidd eu diffinio yn y Rheoliadau fel y rhywogaethau a'r is-rywogaethau a restrir yn Atodlen 3 ac unrhyw hybrid ond nid unrhyw gyltifar.[115] Mae hynny'n peri i rywun ofyn a ddylid cyfrif gwahanol is-rywogaethau ar wahân. Nid oes dim yn y Rheoliadau i ddangos ai enwau Lladin ynteu enwau cyffredin ddylai gael blaenoriaeth, felly gallai dryswch godi hefyd pan fydd ymchwil yn y dyfodol yn arwain at newidiadau i enwau, er enghraifft wrth rannu rhywogaethau.[116] Yn gyffredinol, mae Atodlen 3 yn rhestru rhywogaethau ond ceir rhai achosion lle caiff planhigyn ei nodi gan y genws, sy'n awgrymu y bydd pob rhywogaeth o fewn y genws hwnnw'n cael eu cynnwys. Er hynny, mae'r Canllaw yn datgan bod y gwahanol amrywogaethau o fewn y grwpiau hyn yn cyfrif fel un rhywogaeth brennaidd yn unig. Tybir mai bwriad hynny yw cyfeirio at bob rhywogaeth a hybrid, ond nid dyna yw ystyr gwyddonol y term 'amrywogaeth' a, beth bynnag, ni roddir esboniad ynghylch pam na ddylent i gyd gael eu cyfrif ar wahân.[117] At hynny, mae'r rhestr o rywogaethau prennaidd yn hepgor nifer o rywogaethau cyffredin mewn gwrychoedd, megis castanwydden y meirch, y gastanwydden bêr, y fasarnen a'r pren melyn, a thybir mai'r rheswm am hynny yw'r ffaith nad ydynt yn rhywogaethau brodorol. Er hynny, gwnaethant gyrraedd y wlad gannoedd o flynyddoedd yn ôl. Er enghraifft, cafodd y fasarnen ei chyflwyno yn 1250, ymhell cyn i'r rhan fwyaf o wrychoedd gael eu creu.[118]

---

[112] Tystiolaeth ysgrifenedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, paragraff 1j.
[113] Tystiolaeth ysgrifenedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, paragraff 1n.
[114] Cyflwyniad gwreiddiol i AIDAC, a gafwyd ar 4.11.21, gydag enw'r cyflwynwr wedi'i guddio. Gweler Atodiad 1.
[115] Rhan I y Rheoliadau Gwrychoedd.
[116] Thomas B A (2000) 'Do the Hedgerow Regulations conserve the biodiversity of British hedgerows?' *International Journal of Biosciences and the Law* 2, 67-90 ar dudalen 76 fel y dyfynnwyd mewn tystiolaeth ysgrifenedig gan B A Thomas a Chymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU.
[117] Thomas op cit, ar dudalen 77.
[118] Thomas op cit, ar dudalen 77.

Mae'r rhestr o rywogaethau coetir yn Atodlen 2 wedi cael ei beirniadu hefyd. Dim ond 57 o rywogaethau sydd ynddi, sef cyfran fach o'r planhigion a welir yn tyfu drwy neu dan blanhigion prennaidd mewn gwrychoedd. At hynny, mae newidiadau tacsonomig ers 1997 yn golygu bod rhai rhywogaethau a enwir wedi'u rhannu yn ddwy neu fwy o rywogaethau newydd.[119]

Problem arall a nodwyd oedd y methiant i ystyried gwahaniaethau genetig lleol, sy'n golygu nad yw cymeriad nodweddion lleol yn cael ei warchod. Ystyrid bod yr angen i warchod yr amrywiaeth enetig hon yn gynyddol bwysig. Er enghraifft, roedd yna ofn bod arferion rheoli gwael yn arwain at golli'n barhaol darddiadau Cymreig lleol o'r ddraenen wen, y gollen, y llwyfen lydanddail a'r ysgawen ar adeg pan fo angen cadw adnoddau genetig yn wyneb y newid hinsawdd a'r nifer gynyddol o blâu a chlefydau.[120]

Roedd pwysigrwydd coed hynafol mewn gwrychoedd wedi'i anwybyddu hefyd, a dadleuwyd y dylai'r Rheoliadau gael eu diwygio fel bod coed hynafol a hen foncyffion coed yn cael eu gwarchod yn benodol rhag camau i'w torri.[121]

At hynny, mae dibynnu ar bresenoldeb rhywogaethau penodol yn arwain at broblemau adnabod ymarferol. Mae asesu pwysigrwydd yn golygu bod yn rhaid cynnal arolwg botanegol yn y maes, sy'n gofyn am sgiliau nad ydynt bob amser ar gael i awdurdod lleol. Caiff y broblem ei gwaethygu os oes yn rhaid i'r arolwg gael ei gynnal yn y gaeaf, oherwydd mae angen mwy o sgìl i adnabod coed heb eu dail.[122]

#### *4.2.6 Gwerth ecolegol gwrychoedd*

Gwnaeth sawl ymatebydd sylwadau ynghylch annigonolrwydd y Rheoliadau ar gyfer gwarchod bioamrywiaeth, oherwydd nid yw perthi dan 30 oed yn cael eu gwarchod o gwbl a gallant gael eu bôn-docio neu'u ffustio.[123] Nodwyd mewn tystiolaeth nad yw'r

[119] Thomas op cit, ar dudalen 78.
[120] Tystiolaeth ysgrifenedig Ymddiriedolaethau Natur Cymru, tudalen 2.
[121] Coed Cadw, paragraff 3.12.
[122] Tystiolaeth ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru, tudalen 3.
[123] Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Abertawe, tudalen 1.

meini prawf ar gyfer pwysigrwydd yn cyd-fynd â'r diffiniad o bwysigrwydd pennaf dan adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Yn ôl yr adolygiad o'r Rheoliadau, a gyhoeddwyd yn 1998,[124] dim ond 20 y cant o wrychoedd a gâi eu hystyried yn bwysig, sy'n golygu nad oedd y Rheoliadau yn gwarchod cyfran fawr o gynefin sydd o'r pwysigrwydd pennaf.[125] Ystyrid nad yw'r meini prawf yn adlewyrchu'n llawn swyddogaeth ecolegol cynefinoedd gwrychoedd a'r argyfwng natur sydd gennym yng Nghymru.[126] Awgrymwyd bod angen system reoleiddio sy'n dechrau â'r rhagdybiaeth bod gwerth ecolegol yn perthyn i unrhyw berth, yn hytrach na gwarchod ychydig yn unig o wrychoedd y cydnabyddir eu bod yn bwysig.[127]

### *4.2.7 Gwerth gwrychoedd o ran y dirwedd*

Gwnaeth sawl cyflwyniad sylwadau ynghylch methiant y Rheoliadau i ystyried gwerth gwrychoedd o safbwynt y dirwedd a threftadaeth ddiwylliannol.[128] Cafodd gwrychoedd eu disgrifio fel un o nodweddion allweddol tirwedd Cymru. Maent wedi'u sefydlu a'u cynnal a'u cadw gan ffermwyr ar hyd cenedlaethau lawer, ac mae gwrychoedd a'r sgiliau traddodiadol sy'n ofynnol i'w rheoli yn rhan bwysig o dreftadaeth a diwylliant y Gymru wledig.[129] Maent yn helpu i ddiffinio ymdeimlad o le a hanes; pan fyddant wedi mynd, nid yw'n hawdd i rywbeth arall gymryd eu lle.[130] Gallant fod o ddiddordeb diwylliannol sylweddol ar lefel leol oherwydd yr amrywiaeth o blanhigion sy'n tyfu mewn gwrychoedd[131] ac mewn nodweddion cysylltiedig megis cloddiau â pherthi.[132]

---

[124] Adran dros yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau Llywodraeth y DU (1998) *Review of The Hedgerow Regulations 1997* fel y dyfynnwyd mewn tystiolaeth ysgrifenedig gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ym mharagraff 1d. Aeth yr Awdurdod ymlaen i ddweud mai anaml iawn y bydd gan y rhan fwyaf o wrychoedd mewn caeau y nifer ofynnol o rywogaethau prennaidd a nodweddion cysylltiedig i fod yn gymwys i gael eu hystyried yn bwysig, paragraff 1h.
[125] Tystiolaeth ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru, tudalen 4.
[126] Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Castell-nedd Port Talbot, tudalen 1; tystiolaeth ysgrifenedig Cymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol Cymru, tudalen 1; tystiolaeth ysgrifenedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, paragraff 1e-f; tystiolaeth ysgrifenedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, paragraff 1e.
[127] Tystiolaeth ysgrifenedig Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU, paragraff 4.
[128] Cyflwyniad gwreiddiol i AIDAC, a gafwyd ar 4.11.21, gydag enw'r cyflwynwr wedi'i guddio; Thomas yn nodyn 116 ar dudalen 69.
[129] Tystiolaeth ysgrifenedig Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru, tudalen 1; barn a rannwyd mewn tystiolaeth ysgrifenedig gan Victoria Jenkins.
[130] Tystiolaeth ysgrifenedig Coed Cadw, paragraff 1.7.
[131] Er enghraifft, gwrychoedd tresi aur Ceredigion.
[132] Er enghraifft, cloddiau â pherthi Sir Benfro.

Nodwyd bod yna debygrwydd rhwng gwrychoedd ‘pwysig’ fel y diffinnir yn y Rheoliadau a choetir hynafol a choed hynafol. Mae’r cyfan yn arbennig o werthfawr fel nodweddion hanesyddol a diwylliannol a nodweddion o ran y dirwedd, yn ogystal â bod yn werthfawr i fywyd gwyllt.[133]

Er bod ‘tirwedd’ wedi’i gynnwys yn y pennawd Bywyd Gwyllt a Thirwedd, nid yw’r Rheoliadau yn cynnwys unrhyw feini prawf ar gyfer asesu gwerth o ran y dirwedd. Awgrymwyd y dylai’r diffiniad o wrychoedd sydd i’w gwarchod gael ei ddiwygio er mwyn ystyried yr hepgoriad hwn.[134]

### *4.2.8 Diffiniad o reolaeth briodol*

Fel y nodwyd mewn sawl cyflwyniad o dystiolaeth, nid bwriad y Rheoliadau oedd dylanwadu ar sut y caiff gwrychoedd eu rheoli.[135] Fodd bynnag, caniateir gwaredu gwrych er mwyn rheoli’r gwrych yn briodol, heb fod angen Hysbysiad Gwaredu Gwrych. Ni chaiff ‘rheolaeth briodol’ ei diffinio. Yn yr achos *Conwy County Borough Council v Lloyd*,[136] roedd Lloyd wedi hysbysu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ynghylch ei fwriad i waredu gwrych fel sy’n ofynnol dan y Rheoliadau. Cafodd y gwrych ei waredu gan Lloyd cyn diwedd y cyfnod o 42 o ddiwrnodau, ond mynnodd Lloyd yn llwyddiannus fod ei weithredoedd wedi’u caniatáu dan yr eithriad sy’n ymwneud â ‘rheolaeth briodol’. Roedd tystiolaeth a gyflwynwyd i AIDAC yn amau sut y gallai gwaredu gwrych yn gyfan gwbl fyth fod yn gyfystyr â rheolaeth briodol, a dadleuwyd y dylid dileu’r eithriad hwnnw.[137]

---

[133] Tystiolaeth ysgrifenedig Coed Cadw.
[134] Tystiolaeth ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru, tudalen 4.
[135] Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Castell-nedd Port Talbot, tudalen 2; tystiolaeth ysgrifenedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, paragraff 2f; tystiolaeth ysgrifenedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, paragraff 1f.
[136] Yr achos *R (on the application of Conwy County Borough Council) v Lloyd* [2003] Uchel Lys Cymru a Lloegr 264 (Gwein.).
[137] Tystiolaeth ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru, tudalen 3.

## 4.3 Gorfodi'r Rheoliadau

### *4.3.1 Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Rheoliadau*

Roedd y dystiolaeth yn cynnwys cymysgedd o wahanol safbwyntiau ar lefelau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Rheoliadau. Roedd rhai'n teimlo nad oedd tirfeddianwyr yn aml yn ymwybodol o'r Rheoliadau[138], ond nodwyd hefyd bod y rhan fwyaf o dirfeddianwyr yn ymwybodol ohonynt[139] a bod ffermwyr yn eu deall yn dda.[140] Mewn rhai ardaloedd, ymddengys fod aelodau'r cyhoedd yn ymwybodol iawn ohonynt ac mai nhw sy'n aml yn rhoi gwybod am achosion lle amheuir bod rhywun wedi gweithredu'n groes i'r Rheoliadau.[141] Fodd bynnag, hyd yn oed yn yr ardaloedd hynny, mae'r modd y caiff y Rheoliadau eu deall a'u dehongli weithiau'n anghywir. Awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol codi ymwybyddiaeth ymhlith tirfeddianwyr, datblygwyr a chynllunwyr perthnasol, ar lefel Cymru gyfan efallai.[142] Un pryder penodol oedd bod pobl weithiau'n camddeall ac yn meddwl bod modd gwaredu unrhyw wrych llai nag 20 metr o hyd heb gyflwyno hysbysiad.[143]

Roedd yna gymysgedd tebyg o safbwyntiau ar lefel y ddealltwriaeth mewn awdurdodau lleol. Nododd un awdurdod lleol fod ei adran gynllunio'n deall y Rheoliadau yn dda[144] ond honnwyd hefyd nad yw awdurdodau lleol efallai'n deall y Rheoliadau yn llawn, gan achosi dryswch i dirfeddianwyr.[145] Canfu arolwg gan Ymgyrch Diogelu Lloegr Wledig o awdurdodau yn Lloegr fod yna anghysondebau rhwng awdurdodau lleol o ran cyfran y gwrychoedd a warchodir, a bod y gyfran honno'n amrywio o 9 i 97 y cant, sy'n awgrymu anghysondeb yn y modd y caiff y Rheoliadau eu rhoi ar waith yn Lloegr. Yn yr un arolwg, roedd 63 y cant o awdurdodau

---

[138] Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Castell-nedd Port Talbot, paragraff 2; tystiolaeth ysgrifenedig Cymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol Cymru, tudalen 2.
[139] Tystiolaeth ysgrifenedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, paragraff 1k.
[140] Tystiolaeth ysgrifenedig Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, tudalen 3.
[141] Tystiolaeth ysgrifenedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, paragraff 2a; tystiolaeth ysgrifenedig Cymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol Cymru, tudalen 2.
[142] Tystiolaeth ysgrifenedig Nature at Risk Ceredigion, tudalen 4; tystiolaeth ysgrifenedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, paragraff 2a; tystiolaeth ysgrifenedig Cymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol Cymru, tudalen 2.
[143] Tystiolaeth ysgrifenedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, paragraff 2b.
[144] Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Abertawe.
[145] Cyflwyniad gwreiddiol i AIDAC, a gafwyd ar 4.11.21, gydag enw'r cyflwynwr wedi'i guddio.

lleol yn Lloegr yn teimlo bod y Rheoliadau yn anodd i'w defnyddio.[146] Nid ydym yn gwybod a oes tebygrwydd posibl rhwng canfyddiadau'r arolwg hwnnw a'r sefyllfa yng Nghymru.

### *4.3.2 Ymdrin ag achosion o weithredu'n groes i'r Rheoliadau*

Ystyrid bod camau gorfodi mwy niferus a phrydlon yn angenrheidiol.[147] Honnwyd nad oes gan awdurdodau lleol ddigon o adnoddau i roi'r Rheoliadau ar waith.[148] At hynny, mae'r gyfraith yn cael ei rhoi ar waith yn ôl-weithredol, ar ôl i fywyd gwyllt a bioamrywiaeth gael eu difrodi.[149] Roedd tystiolaeth gan awdurdodau lleol yn cyfeirio at yr angen am adnoddau digonol i gymryd camau gorfodi[150] ac roedd hefyd yn tynnu sylw at y risgiau perthnasol. Ystyrir yn gyffredinol mai ailblannu yw'r canlyniad gorau o ran camau gorfodi. Gellir rhoi Hysbysiad Gosod Gwrych Newydd, p'un a yw'r awdurdod lleol yn cychwyn dwyn achos neu beidio am weithredu'n groes i'r Rheoliadau, ond fel rheol ni chaiff pobl eu herlyn oherwydd bod hynny'n gallu arwain at ddirwyon bach nad ydynt yn atal pobl rhag gweithredu'n groes i'r Rheoliadau.[151] Honnwyd bod cwmnïau mawr yn aml yn fodlon wynebu'r risg o dalu dirwy, er mwyn bod uwchlaw'r gyfraith.[152] Os oes Hysbysiad Gosod Gwrych Newydd wedi'i roi, bydd angen llawer o amser staff i fynd ar drywydd hynny a gwirio bod gwaith ailblannu wedi'i gyflawni. Os na fydd tirfeddiannwr yn cydymffurfio â'r hysbysiad, ymddengys nad oes cosb bellach y gall yr awdurdod lleol fynd ar ei thrywydd, oherwydd nad yw'r awdurdod lleol yn gallu erlyn rhywun am fethu â chydymffurfio.[153] Gallai'r awdurdod lleol ystyried erlyn wedyn yng nghyswllt yr achos gwreiddiol o weithredu'n groes i'r Rheoliadau, gan fynd i gostau sylweddol heb fod unrhyw sicrwydd y gall adennill y costau hynny'n llawn.

---

[146] *England's Hedgerows: Don't Cut Them Out* https://www.cpre.org.uk/wp-content/uploads/2019/11/Englands_Hedgerows_dont_cut_them_out_1.pdf Dyfynnwyd mewn tystiolaeth ysgrifenedig gan Cyfoeth Naturiol Cymru, tudalen 3.
[147] Tystiolaeth ysgrifenedig Nature at Risk Ceredigion, tudalen 4.
[148] Cyflwyniad gwreiddiol i AIDAC, a gafwyd ar 4.11.21, gydag enw'r cyflwynwr wedi'i guddio.
[149] Tystiolaeth ysgrifenedig Nature at Risk Ceredigion, tudalen 2.
[150] Tystiolaeth ysgrifenedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ym mharagraff 2e.
[151] Tystiolaeth ysgrifenedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ym mharagraff 2f.
[152] Jerry Langford fel y cofnodwyd yn y nodyn am y Drafodaeth Banel yn y Digwyddiad i Randdeiliaid yn y Sioe Frenhinol, tudalen 2.
[153] Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Castell-nedd Port Talbot, tudalen 2.

Yr opsiwn amgen yw bod yr awdurdod lleol yn cyflawni'r gwaith plannu ei hun, ond mae risgiau cysylltiedig i hynny hefyd yn ogystal â chostau sy'n uwch na'r hyn y byddai modd ei adennill efallai.[154] Awgrymodd Coed Cadw y dylai awdurdodau lleol gael yr adnoddau i gefnogi gwaith plannu gwrychoedd newydd yn lle rhai a waredwyd, yn ogystal â defnyddio eu pwerau i fynnu bod perthi a waredwyd yn anghyfreithlon yn cael eu hailblannu.[155]

### *4.3.4 Y canllaw i'r gyfraith ac arfer da*

Cafodd y ddogfen sy'n dwyn y teitl *The Hedgerow Regulations 1997: A Guide to the Law and Good Practice* ei chyhoeddi yn 1997 ac mae wedi dyddio erbyn hyn. Awgrymwyd y dylid cyhoeddi arweiniad newydd os caiff newidiadau sylweddol eu gwneud i'r Rheoliadau, ond hyd yn oed os bydd y Rheoliadau yn aros yr un fath i raddau helaeth byddai'n braf cael fersiwn sydd wedi'i ddiweddaru.[156] Cynigiwyd hefyd bod angen codi ymwybyddiaeth o fodolaeth y Canllaw[157] ac awgrymwyd y gellid ymestyn unrhyw ganllaw fel ei fod yn cynnwys materion sy'n ymwneud â rheoli gwrychoedd, ar ffurf pwyntiau cyfeirio sy'n gynhwysol ac yn hwylus.

## 4.4 Newidiadau a gynigiwyd i'r Rheoliadau ac i arweiniad

Roedd y dystiolaeth yn cynnwys y cynigion canlynol ynghylch newidiadau i'r Rheoliadau a/neu i arweiniad.

- Ystyrid nad oedd y cosbau am weithredu'n groes i'r Rheoliadau yn ddigon llym i atal pobl rhag gwneud hynny, ac awgrymwyd y dylid cynyddu'r cosbau.[158]
- Byddai cael arweiniad ynghylch y cyfnod i ddelio ag achosion o weithredu'n groes i'r Rheoliadau yn ddefnyddiol, oherwydd ymddengys nad oes terfyn amser wedi'i bennu i awdurdodau lleol weithredu os oes gwaith nas awdurdodwyd wedi'i ddwyn i'w sylw.[159]

---

[154] Tystiolaeth ysgrifenedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ym mharagraff 2e.
[155] Tystiolaeth ysgrifenedig Coed Cadw, paragraff 5.6.
[156] Tystiolaeth ysgrifenedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ym mharagraff 2b; tystiolaeth ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru, ar dudalen 4.
[157] Tystiolaeth ysgrifenedig Nature at Risk Ceredigion, tudalen 4.
[158] Tystiolaeth ysgrifenedig Nature at Risk Ceredigion, tudalen 2.
[159] Tystiolaeth ysgrifenedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, paragraff 2f.

- Os oes gwaith ailblannu'n digwydd ar safle lle'r oedd clawdd â pherth yn bresennol hefyd, mae angen eglurder ynghylch y gofyniad i ailosod y clawdd â pherth, oherwydd byddai methu â gwneud hynny'n cael effaith andwyol ar gymeriad a golwg yr ardal. Ymddengys fod yr arweiniad yn ystyried bod y clawdd â pherth wedi'i warchod, ond nid oes unrhyw sôn am hynny yn y Rheoliadau eu hunain.[160]
- Dylid dileu'r esemptiad rhag yr angen i anfon Hysbysiad Gwaredu Gwrych os oes angen gwaredu'r gwrych er mwyn ei reoli'n briodol, oherwydd nid oes diffiniad ar gael o 'reolaeth briodol' ac mae'r esemptiad wedi'i ddefnyddio i gyfiawnhau gwaredu gwrych cyfan.[161]
- Mae'r Canllaw i'r Rheoliadau wedi dyddio a dylid ei adolygu.[162]
- Dylid adolygu'r diffiniad o wrychoedd sydd i'w gwarchod a dylid ystyried cyd-destun ehangach gwrychoedd, coed mewn gwrychoedd a'r gwasanaethau ecosystemau y maent yn eu darparu, sy'n cynnwys rhai'n ymwneud â bioamrywiaeth, atafaelu carbon, a'r dirwedd.
- Dylid addasu'r diffiniadau a ddefnyddir yn y Rheoliadau fel bod coed hynafol a hen fonion mewn gwrychoedd yn cael eu gwarchod yn benodol rhag camau i'w torri neu'u gwaredu.[163]

### 4.5 Rheoli gwrychoedd

Mae gwerth gwrych o ran bioamrywiaeth yn dibynnu i raddau helaeth ar sut yr eir ati i ofalu am y gwrych. Cydnabyddid bod yn rhaid rheoli gwrychoedd yn rheolaidd drwy eu plygu neu'u bôn-docio, oherwydd fel arall bydd llwyni'n tyfu o ran eu maint a'u taldra, a fydd yn galluogi bylchau i ymddangos. O ganlyniad, nid yw'r fflora lysieuog yn cael ei chysgodi gymaint ac mae felly'n dirywio, sy'n arwain at golli'r ffawna sy'n dibynnu arni. Yn y pen draw, gallai hynny olygu nad yw gwrych mwyach yn cynnwys yr amrywiaeth o rywogaethau sy'n ofynnol er mwyn iddo gael ei glustnodi'n wrych 'pwysig'.[164]

---

[160] Tystiolaeth ysgrifenedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, paragraff 2e.
[161] Tystiolaeth ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru, tudalen 4.
[162] Tystiolaeth ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru, tudalen 5.
[163] Coed Cadw, paragraff 3.12.
[164] Tystiolaeth ysgrifenedig Barry Thomas.

### *4.5.1 Technegau rheoli*

Nid esgeulustod yw'r unig broblem, fodd bynnag. Gwnaeth sawl ymatebydd sylwadau ar y difrod y mae rheolaeth wael yn ei achosi i ecoleg gwrychoedd, yn enwedig pan gânt eu bôn-docio'n amhriodol. Cyfeiriodd ymatebwyr o blith ffermwyr at fanteision bôn-docio gwrychoedd, gan nodi bod hynny'n gallu creu perthi mwy trwchus a llawn.[165] Er y gall bôn-docio gwrychoedd sydd wedi tyfu'n wyllt ymddangos yn gam llym i'w gymryd, i'r graddau y caiff ei gamddehongli weithiau fel cam i waredu gwrych, gall y tyfiant newydd sy'n dilyn hynny helpu i sicrhau bod gwrychoedd sydd wedi tyfu'n wyllt/nad ydynt wedi'u rheoli yn ddigonol yn cael eu rheoli'n ffafriol yn y dyfodol.[166] Fodd bynnag, roedd ymatebwyr eraill yn llai brwdfrydig. Honnodd un ohonynt fod yr arfer modern o ddefnyddio peiriannau ffustio mecanyddol unwaith bob un i dair blynedd wedi lleihau potensial gwrychoedd o ran bywyd gwyllt yn sylweddol. Mae rhai rhywogaethau mewn gwrychoedd yn cymryd dwy i dair blynedd i flodeuo, felly nid ydynt yn gallu darparu neithdar neu aeron i bryfed ac adar.[167] Cyfeiriodd un arall at achosion lle mae gwrychoedd wedi'u tocio yn ddifrifol, gan ddefnyddio sisyrnau tocio coed weithiau, sy'n cael effaith negyddol sylweddol ac sy'n lleihau cysylltedd rhwng cynefinoedd.[168] Nodwyd hefyd bod bôn-docio gwrychoedd fel techneg reoli ar gyfer cynhyrchu tanwydd biomas yn bryder penodol.[169] Honnwyd bod y galw cynyddol am sglodion coed ar gyfer biomas, ac o ganlyniad y defnydd y mae contractwyr yn ei wneud o beiriannau mwy effeithlon a mwy o faint megis sisyrnau tocio coed a pheiriannau asglodi diwydiannol, wedi dinistrio miloedd lawer o gilometrau o gynefin gwrychoedd hynafol ledled Cymru yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf.[170]

Er gwaetha'r problemau hyn, bôn-docio gwrychoedd yw'r prif ddull o reoli gwrychoedd. Dywedodd un ymatebydd na ddylai arfer gorau fod yn hybu bôn-docio hen wrychoedd

---

165 Tystiolaeth ysgrifenedig Undeb Amaethwyr Cymru, tudalen 4.
166 Tystiolaeth ysgrifenedig Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, tudalen 3.
167 Tystiolaeth ysgrifenedig Ymddiriedolaethau Natur Cymru, paragraff 3; Rhianne Jones fel y cofnodwyd yn y nodyn am y Drafodaeth Banel yn y Digwyddiad i Randdeiliaid yn y Sioe Frenhinol, tudalen 3.
168 Tystiolaeth ysgrifenedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, paragraff 1f.
169 Tystiolaeth ysgrifenedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, paragraff 1g sy'n dyfynnu nifer o gyhoeddiadau sy'n cyfeirio at gael tanwydd pren o wrychoedd.
170 Tystiolaeth ysgrifenedig Ymddiriedolaethau Natur Cymru, paragraff 5.

yn enwedig erbyn hyn, oherwydd ni fydd y gwrychoedd hynny sy'n dal yn gyfan ledled Cymru (gwrychoedd hynafol sy'n cynnwys y ddraenen wen, y gollen neu'r griafolen) yn gallu ymadfer yn dilyn effaith camau i'w bôn-docio.[171] Nodwyd nad yw'r rhan fwyaf o arweiniad swyddogol ynghylch bôn-docio gwrychoedd yn esbonio sut y dylid gwneud hynny mewn modd sy'n garedig i gadwraeth.[172] Galwyd am warchodaeth fwy pendant i'r elfennau o 'hen dyfiant' sy'n perthyn i wrychoedd hynafol, gan gynnwys yr hen fonion sydd mewn gwrychoedd ac unrhyw goed hynafol sy'n bresennol, ac awgrymwyd y dylid diwygio'r Rheoliadau fel bod coed hynafol a hen fonion yn cael eu gwarchod yn benodol rhag camau i'w torri.[173] Yn yr un modd, nodwyd bod adroddiad 1998 y Grŵp Adolygu Gwrychoedd wedi awgrymu y gallai darpariaeth gyffredinol fod yn angenrheidiol i atal camau bwriadol a systematig i waredu un neu ragor o rywogaethau drwy fôn-docio gwrychoedd yn rhy aml. [174]

Mae'r arfer o reoli gwrychoedd drwy eu plygu wedi'i ddisodli, oherwydd cost uchel yr arfer hwnnw o'i gymharu â bôn-docio gwrychoedd.[175] Esboniodd un ymatebydd fod plygu perthi yn sgìl technegol, arbenigol iawn a bod gan ardaloedd daearyddol arddulliau penodol sydd wedi esblygu ar hyd cenedlaethau lawer, ac nad yw cynlluniau grant yn dod yn agos at dalu'r holl gostau sy'n gysylltiedig â phlygu perthi.[176] Fodd bynnag, awgrymwyd ei bod yn bosibl nad y technegau plygu perthi traddodiadol hyn yw'r ffordd orau o weithredu bob amser. Gall plygu perthi yn y dull traddodiadol warchod gwrychoedd presennol i raddau cyfyngedig, ond caiff o leiaf hanner y deunydd prennaidd ei waredu wrth blygu'r perthi, gan ddifrodi'r cysgod a'r bwyd a ddarperir gan y gwrych. Mae hefyd yn broses ddrud iawn sy'n cymryd llawer o amser, felly mae'n annhebygol o gael ei hystyried yn opsiwn rheoli ymarferol ar gyfer y rhan fwyaf o wrychoedd.[177] Yn hytrach, roedd yna gefnogaeth i dechneg plygu perthi er budd bywyd gwyllt, sy'n gynt ac yn fwy manteisiol i fywyd gwyllt. Profwyd bod y dechneg hon yn rhatach ac yn fwy cynaliadwy mewn gwrychoedd a reolir gan

[171] Tystiolaeth ysgrifenedig Ymddiriedolaethau Natur Cymru, paragraff 5.
[172] Tystiolaeth ysgrifenedig Coed Cadw, paragraff 3.8.
[173] Tystiolaeth ysgrifenedig Coed Cadw, paragraff 2.4.
[174] Dyfynnwyd mewn tystiolaeth ysgrifenedig gan Barry Thomas.
[175] Tystiolaeth ysgrifenedig Ymddiriedolaethau Natur Cymru, paragraff 3.
[176] Tystiolaeth ysgrifenedig Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru, tudalen 3.
[177] Tystiolaeth ysgrifenedig Ymddiriedolaethau Natur Cymru, paragraff 7.

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. Mae'r dechneg yn golygu torri coesynnau yn rhannol yn unig er mwyn eu plygu, a hynny mor agos ag sy'n bosibl i'r ddaear. Caiff y berth ei gwthio drosodd yn ofalus fesul rhan a'i chywasgu er mwyn clymu'r cyfan wrth ei gilydd a sicrhau sefydlogrwydd yn y gwynt. Yna, caiff ffens ei gosod bob ochr i'r berth, o leiaf fetr o'i gwaelod.[178] Fodd bynnag, nodwyd hefyd bod ffensio dwbl, yr honnid ei fod yn elfen ddiofyn o waith rheoli gwrychoedd, yn cyfrannu at unrhywiaeth ac at golli amrywiaeth mewn gwrychoedd[179], er ei fod yn atal da byw sy'n pori rhag amharu ar y tyfiant newydd mewn gwrychoedd sydd wedi'u bôn-docio a'i fod yn angenrheidiol ar gyfer cael cyllid grant.[180]

### *4.5.2 Gwaith gwaredu a ariennir gan grantiau*

Cafwyd sawl ymateb i'r cwestiwn ynghylch a oedd cyllid grant yn annog pobl i waredu gwrychoedd sydd wedi tyfu'n wyllt. Roedd un o'r cyflwyniadau gwreiddiol yn cynnwys enghreifftiau o ganlyniadau – y bernid eu bod yn anfwriadol – gan gynllun a oedd fel arall yn gyfreithlon lle'r oedd cyllid ar gael i waredu gwrychoedd sydd wedi tyfu'n wyllt a gosod gwrychoedd newydd yn eu lle. Mewn un achos, roedd coed yn eu llawn dwf wedi'u torri ar lefel y ddaear ac roedd glasbrennau wedi'u plannu rhwng y bonion. Mewn achos arall, roedd perth wasgarog ac ynddi fylchau ac a oedd yn cynnwys sawl coeden yn ei llawn dwf wedi'i gwaredu er mwyn gosod ffens ac ailblannu'r berth.[181] Dywedodd un ymatebydd a oedd yn Awdurdod Parc Cenedlaethol fod yr Awdurdod wedi gweld llawer o wrychoedd a llawer o goed mewn gwrychoedd yn cael eu colli mewn rhannau o'r Parc, a bod hynny wedi'i sbarduno yn ôl pob golwg gan Gynllun Grantiau Bach Glastir.[182] Cytunwyd bod y pryderon yn gysylltiedig yn ôl pob tebyg â'r cynllun hwnnw, a oedd wedi darparu cyllid i lenwi bylchau mewn gwrychoedd presennol a bôn-docio gwrychoedd presennol.[183] Fodd bynnag, bernid bod yr awgrym bod hynny'n gyfystyr â ffermwyr yn defnyddio cyllid grant i 'ddarnio' gwrychoedd yn

---

178 Tystiolaeth ysgrifenedig Ymddiriedolaethau Natur Cymru, paragraffau 6, 8-9.
179 Arfon Williams fel y cofnodwyd yn y nodyn am y Drafodaeth Banel yn y Digwyddiad i Randdeiliaid yn y Sioe Frenhinol, tudalen 2.
180 Tystiolaeth ysgrifenedig Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, tudalen 3.
181 Cyflwyniad gwreiddiol i AIDAC, a gafwyd ar 17.12.21, gydag enw'r cyflwynwr wedi'i guddio. Gweler Atodiad 1.
182 Tystiolaeth ysgrifenedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ym mharagraff 4.
183 Tystiolaeth ysgrifenedig Undeb Amaethwyr Cymru, tudalen 4.

gamddealltwriaeth ar raddfa eang ymhlith aelodau'r cyhoedd.[184] Cymharwyd hynny â gwaredu gwrychoedd drwy ddatblygiadau ffyrdd a thai. Honnid bod yna lai o lawer o rwymedigaethau i warchod gwrychoedd presennol, neu fod yna lai o lawer o ganlyniadau'n dilyn eu gwaredu,[185] a mynegwyd pryderon am lefel y warchodaeth a roddir i wrychoedd mewn penderfyniadau cynllunio.[186]

### 4.6 Cyllid

Gwnaeth sawl ymatebydd sylwadau ar gost cynnal a chadw gwrychoedd. Er enghraifft, credir bod y gost uchel sy'n gysylltiedig â rheoli gwrychoedd drwy ddulliau traddodiadol, megis drwy eu plygu, wedi arwain at gynnydd yn yr arfer o fôn-docio gwrychoedd.[187] Nodwyd bod angen i Lywodraeth Cymru, os yw am annog yr arfer o blygu perthi yn hytrach na'u bôn-docio, fynd i'r afael â'r broblem o ran cost a sicrhau trefn wobrwyo deg am blygu perthi.[188] Honnwyd nad oedd cymorth ar ffurf grantiau cyfalaf i reoli gwrychoedd yn ddigonol ar hyn o bryd, ac nad yw cynlluniau grantiau presennol yn digolledu'n deg unrhyw ffermwyr sy'n ymgymryd â'r arfer o blygu perthi nac yn adlewyrchu gwerth amgylcheddol yr arfer hwnnw a'r canlyniad y mae'n ei ddarparu.[189]

Roedd yna bryder hefyd am y modd y câi grantiau bach Glastir eu defnyddio i blannu gwrychoedd newydd, a hynny oherwydd bod llawer o wrychoedd yn cael eu hailblannu â stoc a gaiff ei mewnforio o gyfandir Ewrop, nad yw mor addas â stoc frodorol i amodau tyfu lleol. Yn hytrach, dylai cynlluniau ariannu ganolbwyntio ar gadw perthi aeddfed drwy fabwysiadu arferion rheoli mwy cynaliadwy.[190]

---

[184] Tystiolaeth ysgrifenedig Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, tudalen 3.
[185] Tystiolaeth ysgrifenedig Undeb Amaethwyr Cymru, tudalen 4.
[186] Tystiolaeth ysgrifenedig Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU, adran 3.1.
[187] Tystiolaeth ysgrifenedig Ymddiriedolaethau Natur Cymru, paragraff 7.
[188] Tystiolaeth ysgrifenedig Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, tudalen 3.
[189] Tystiolaeth ysgrifenedig Undeb Amaethwyr Cymru, tudalen 5.
[190] Tystiolaeth ysgrifenedig Ymddiriedolaethau Natur Cymru, paragraff 6; Thomas (2000) 'Do the Hedgerow Regulations conserve the biodiversity of British hedgerows?' *International Journal of Biosciences and the Law* 2, 67-90 ar dudalen 68 fel y dyfynnwyd mewn tystiolaeth ysgrifenedig gan B A Thomas a Chymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU.

Bernid ei bod yn hanfodol bwysig sicrhau bod gwrychoedd yn ystyriaeth bwysig yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd.[191] Roedd yna gefnogaeth i'r awgrym gwreiddiol y dylai gwrychoedd gael eu cynnwys yn y 10 cant o dir ffermio a reolir er budd natur dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a gynigir[192] yn hytrach na bod ffermwyr yn gorfod rheoli gwrychoedd presennol a newydd yn unol â'r 'cylch rheoli perthi' er mwyn bod yn gymwys i gael y taliad sylfaenol fel y cynigiwyd. Gofynnwyd hefyd am esboniad cliriach o'r hyn a olygir wrth y 'cylch rheoli perthi'.[193] Fel y nodwyd uchod, mae'r gofyniad o 10 y cant wedi'i ollwng ac mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy sydd wedi'i ddiweddaru yn cynnwys Gweithredoedd Cyffredinol newydd sy'n ymwneud â gwrychoedd. Cafodd y newidiadau hynny eu gwneud tra oedd yr adroddiad hwn yn cael ei ysgrifennu, ac nid ydym wedi cael unrhyw dystiolaeth yn eu cylch. Fodd bynnag, rydym wedi nodi'r farn a fynegwyd mewn ymateb i'r Alwad am Dystiolaeth, sef y gall gwrychoedd gael eu hystyried ar hyn o bryd yn faich ar berchnogion a rheolwyr sy'n talu am gost eu cynnal a'u cadw yn awr.[194]

Ystyrid hefyd bod cyllid ar gyfer hyfforddiant yn bwysig ac y dylai gael ei gynnwys mewn cynlluniau ffermio yn y dyfodol[195] er mwyn osgoi annog un dull o reoli gwrychoedd (ffensio dwbl) a cholli sgiliau traddodiadol.[196] Awgrymwyd y dylai contractwyr ffensio a ffermwyr gael eu hyfforddi a'u cynorthwyo i fabwysiadu plygu perthi er budd bywyd gwyllt fel dull rheoli a gaiff ei ffafrio, a fydd yn galluogi perthi i atgynhyrchu a chynnal eu swyddogaeth ecolegol o ran darparu cysgod a bwyd i fywyd gwyllt.[197]

---

191 Tystiolaeth ysgrifenedig Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU, paragraff 21.
192 Jerry Langford fel y cofnodwyd yn y nodyn am y Drafodaeth Banel yn y Digwyddiad i Randdeiliaid yn y Sioe Frenhinol, Cyflwyniad, tudalen 2; tystiolaeth ysgrifenedig Undeb Amaethwyr Cymru, tudalen 5; tystiolaeth ysgrifenedig Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, tudalen 3; tystiolaeth ysgrifenedig Coed Cadw, paragraff 5.22. Mae manylion y cynigion gwreiddiol ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy i'w gweld yma: https://www.llyw.cymru/cynllun-ffermio-cynaliadwy-canllaw.
193 Tystiolaeth ysgrifenedig Undeb Amaethwyr Cymru, tudalennau 4-5.
194 Tystiolaeth ysgrifenedig Coed Cadw, paragraff 5.23.
195 Arfon Williams fel y cofnodwyd yn y nodyn am y Drafodaeth Banel yn y Digwyddiad i Randdeiliaid yn y Sioe Frenhinol, tudalen 4; tystiolaeth ysgrifenedig Ymddiriedolaethau Natur Cymru, paragraff 9.
196 Geraint Davies fel y cofnodwyd yn y nodyn am y Drafodaeth Banel yn y Digwyddiad i Randdeiliaid yn y Sioe Frenhinol, tudalen 4.
197 Tystiolaeth ysgrifenedig Ymddiriedolaethau Natur Cymru, paragraff 9.

Gwnaeth Undeb Amaethwyr Cymru nifer o argymhellion yn ymwneud â chyllid:

- cynnwys gwrychoedd yn y gofyniad i gael gorchudd coed ar 10 y cant o'r tir, yn rhan o Weithredoedd Cyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy;
- cynnwys taliad am fapio gwrychoedd presennol er mwyn creu rhestr fwy cywir;
- gwella cymorth ar ffurf grantiau cyfalaf ar gyfer rheoli gwrychoedd;
- hybu'r Cod Carbon Gwrychoedd a'i symud yn ei flaen; a
- rhoi taliadau ychwanegol am gael cyfran o berthi sy'n dwyn ffrwythau ac yn blodeuo bob blwyddyn, er mwyn adlewyrchu gwerth rheolaeth o'r fath o ran bioamrywiaeth.

**4.7 Gosod rhwydi**

Cafodd AIDAC ddau gyflwyniad cysylltiedig am osod rhwydi. Esboniodd tystiolaeth gan ffermwyr na all coed, dan reolau trawsgydymffurfio, gael eu torri na'u tocio yn gyffredinol yn ystod y tymor magu, h.y. rhwng 1 Mawrth a 31 Awst.[198] Mewn amgylchiadau eithriadol, caniateir adfer perthi, h.y. eu plygu neu'u bôn-docio, hyd at 1 Ebrill cyhyd â bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi rhoi caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw i hynny ddigwydd.[199]

Fodd bynnag, cafodd y materion a godwyd yn y cyflwyniadau eu hysgogi oherwydd pryderon am y defnydd o rwydi yng nghyswllt gwaith datblygu sy'n rhwym wrth ddeddfau cynllunio.[200] Ni all AIDAC ymchwilio i fanylion achosion unigol, ond roedd y cyflwyniadau'n codi pwyntiau o ddiddordeb cyffredinol a arweiniodd at gynnwys cwestiwn yn yr Alwad am Dystiolaeth ynghylch yr effaith y mae defnyddio rhwydi atal adar ar wrychoedd yn ei chael.

[198] Tystiolaeth ysgrifenedig Undeb Amaethwyr Cymru, tudalen 2; tystiolaeth ysgrifenedig Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, tudalen 2.
[199] Tystiolaeth ysgrifenedig Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, tudalen 2.
[200] Cyflwyniadau gwreiddiol i AIDAC, a gafwyd ar 20.12.21, gydag enw'r cyflwynwr wedi'i guddio. Gweler Atodiad 1.

Cafodd rhwydi eu disgrifio fel cast sinigaidd gan ddatblygwyr i atal adar rhag nythu[201], ac i osgoi'r perygl y gallent gymryd, difrodi neu ddinistrio nyth weithredol, a fyddai'n drosedd dan y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad.[202] Ym mis Mehefin 2019, roedd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar y pryd wedi ysgrifennu at bob pennaeth cynllunio i ddweud mai dim ond yn niffyg unrhyw fesur arall y dylid ystyried gosod rhwydi, ar ôl ystyried opsiynau amgen eraill yn llawn ac mewn amgylchiadau eithriadol a dim ond ar ôl i ganiatâd cynllunio gael ei roi.[203] Yn ei llythyr, cyfeiriodd at arweiniad ynghylch defnyddio rhwydi, a ddarparwyd gan y Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol.[204] Roedd yr arweiniad hwnnw'n datgan:

- bod yn rhaid bod caniatâd cynllunio wedi'i roi ymlaen llaw;
- bod y rhwydi'n cael eu gosod gyda chyngor gan ecolegydd;
- bod y rhwydi'n cael eu defnyddio mewn modd sy'n golygu na fyddant yn dal ac yn caethiwo adar a mathau eraill o fywyd gwyllt;
- bod yn rhaid cymryd camau rhagofalus i sicrhau nad oes unrhyw fywyd gwyllt yn cael ei gaethiwo gan y rhwydi pan fyddant yn cael eu gosod; ac
- y dylid gwirio'r rhwydi dair gwaith y dydd.

Roedd tystiolaeth gan ymatebwyr yn dangos cefnogaeth gref i'r arfer o beidio â defnyddio rhwydi oni bai bod gwir angen gwarchod adar rhag niwed yn ystod gwaith datblygu a bod caniatâd cynllunio wedi'i roi yn barod (nad oedd wedi digwydd yn yr enghraifft a grybwyllwyd yn y cyflwyniad). Dylid gwneud cyn lleied o ddefnydd ag sy'n bosibl o rwydi.[205] Teimlid hefyd bod rhwydi'n aneffeithiol, yn enwedig os na chânt eu cynnal a'u cadw, eu bod yn beryglus i fywyd gwyllt (ac anifeiliaid anwes) yn gyffredinol

201 Atodiad 4 y cyflwyniad gwreiddiol i AIDAC, a gafwyd ar 20.12.21, gydag enw'r cyflwynwr wedi'i guddio. Gweler Atodiad 1.
202 Tystiolaeth ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru, tudalen 5.
203 Dyfynnwyd yn Atodiad 1 y cyflwyniad gwreiddiol i AIDAC, a gafwyd ar 20.12.21. Gweler Atodiad 1.
204 Y Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol yn https://cieem.net/cieem-and-rspb-advise-against-netting-on-hedges-and-trees, wedi'i gynnwys fel Atodiad 2 i'r cyflwyniad gwreiddiol i AIDAC, a gafwyd ar 20.12.21. Gweler Atodiad 1.
205 Tystiolaeth ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru, tudalen 5.

a'u bod yn peri i anifeiliaid ddioddef anafiadau sy'n arwain yn aml at farwolaeth.[206] At hynny, os na chaiff rhwydi eu cynnal a'u cadw, gallant fod yn beryglus i ddiogelwch pan gânt eu tynnu i ffwrdd yn ystod y tymor nythu. Yn ogystal, caiff rhwydi eu gwneud o blastig neilon untro sy'n gallu rhyddhau microblastigau i'r amgylchedd pan fydd yn diraddio.[207]

Roedd yna amheuon ynghylch yr angen am rwydi o gwbl. Teimlid bod modd amseru gwaith ar wrychoedd yn briodol er mwyn osgoi effeithiau ar fywyd gwyllt, heb orfod defnyddio rhwydi, ac awgrymwyd y dylid gwahardd defnyddio rhwydi neu annog pobl i beidio â defnyddio rhwydi, a hynny ym mhobman.[208]

**4.8 Sylwadau ar ddeddfwriaeth a pholisi arall**

Un feirniadaeth o'r Rheoliadau Gwrychoedd, a fynegwyd fwy nag unwaith mewn tystiolaeth, oedd y ffaith nad ydynt yn ymwneud yn briodol â deddfwriaeth fwy diweddar.

Y sylw mwyaf difrifol oedd nad yw meini prawf y Rheoliadau ar gyfer clustnodi gwrychoedd 'pwysig' yn adlewyrchu statws gwrychoedd fel cynefin â blaenoriaeth[209] fel y diffinnir dan adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru), a bod angen sicrhau bod y ddau ddarn o ddeddfwriaeth yn cyd-fynd â'i gilydd.

Gwnaed sylwadau hefyd ar y berthynas rhwng adran 7 a pholisi cynllunio. Ystyrid bod cynnwys gwrychoedd yn y rhestr o gynefinoedd â blaenoriaeth yn hanfodol i warchod gwrychoedd yng Nghymru, gan fod rhestr adran 7 yn cyfrannu at ganllawiau cynllunio i sicrhau na ddylai gwrychoedd, coed a choetir hynafol gael eu difrodi.[210] Galwyd am

---

[206] Tystiolaeth ysgrifenedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, paragraff 5a. Cafodd safbwyntiau tebyg eu mynegi gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Cyngor Castell-nedd Port Talbot a Chymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol Cymru.
[207] Cyflwyniad gwreiddiol i AIDAC, a gafwyd ar 20.12.21. Gweler Atodiad 1.
[208] Tystiolaeth ysgrifenedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, paragraff 5b. Cafodd safbwyntiau tebyg eu mynegi gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Cyngor Castell-nedd Port Talbot a Chymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol Cymru.
[209] Tystiolaeth ysgrifenedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, paragraff 1e; tystiolaeth ysgrifenedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, paragraff 1f.
[210] Tystiolaeth ysgrifenedig Coed Cadw, paragraff 5.15.

ystyriaeth fanylach i dynged gwrychoedd ar safleoedd datblygu[211] a nodwyd nad yw Polisi Cynllunio Cymru yn cyfeirio'n benodol at y Rheoliadau Gwrychoedd, er ei fod yn nodi pwysigrwydd gwrychoedd ac yn datgan y dylent gael eu gwarchod. Dyma enghraifft arall o achos lle nad yw'r Rheoliadau yn cyd-fynd â pholisi mwy diweddar.

Mae'n bosibl nad yw gallu awdurdodau lleol i gyflawni eu rhwymedigaethau o ran gwrychoedd yn syml. Awgrymwyd, o gofio'r rhestr faith o gynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth a geir dan adran 7, y gallai fod yn anodd sicrhau na chaiff gwrychoedd eu dinistrio heb nodi ymhellach beth yw pwysigrwydd penodol gwrychoedd[212]. At hynny, roedd angen i awdurdodau lleol gael yr adnoddau i ddefnyddio eu pwerau i fynnu bod perthi a waredwyd yn anghyfreithlon yn cael eu hailblannu. Dylent gael adnoddau ychwanegol i gefnogi gwaith plannu gwrychoedd newydd, waeth a yw'r gwrychoedd wedi'u dynodi yn rhai 'pwysig' neu beidio dan y Rheoliadau.[213] Fodd bynnag, nodwyd bod y system cynllunio defnydd tir yn berthnasol i waith 'datblygu' yn unig, nad yw'n cynnwys llawer o weithgareddau amaethyddol ac nad yw ond yn gallu atal difrod i wrychoedd; nid yw'n system a all orfodi tirfeddianwyr i gynnal a gwella'r gwrychoedd sydd ar eu tir.[214]

Cyfeiriwyd at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn y cyflwyniadau'n ymwneud â rhwydi, lle honnwyd bod yn rhaid i gynigion i waredu cynefin gwerthfawr megis gwrychoedd ystyried effeithiau ar genedlaethau'r dyfodol.[215]

---

211 Tystiolaeth ysgrifenedig Coed Cadw, paragraff 3.4.
212 Tystiolaeth ysgrifenedig Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU, paragraff 20.
213 Tystiolaeth ysgrifenedig Coed Cadw, paragraff 5.6.
214 Tystiolaeth ysgrifenedig Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU, paragraff 21.
215 Cyflwyniad gwreiddiol i AIDAC, a gafwyd ar 20.12.21, tudalen 2, gyda'r enw wedi'i guddio. Gweler Atodiad 1.

## 5. Casgliadau ac argymhellion

Mae Rheoliadau Gwrychoedd 1977, sy'n gwarchod rhai gwrychoedd rhag camau i'w gwaredu'n anghyfreithlon, yn rhagflaenu datganoli yng Nghymru. Felly, nid yw'r Rheoliadau yn cyd-fynd â deddfwriaeth a wnaed yng Nghymru wedyn, ac yn benodol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 neu Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023. Yn benodol, nid ydynt yn adlewyrchu'r egwyddor y dylai adnoddau naturiol gael eu rheoli'n gynaliadwy, nid ydynt yn adlewyrchu'r amcanion datblygu cynaliadwy ac nid ydynt yn adlewyrchu'r amcanion cyfatebol sy'n ymwneud â rheoli tir yn gynaliadwy. Rydym o'r farn y byddai'r hepgoriadau hyn yn rhesymau digonol dros ddiwygio'r Rheoliadau, hyd yn oed heb y galwadau manwl am newid a nodwyd yn y dystiolaeth.

Mae nifer o'r argymhellion a nodir isod yn tybio y bydd y Rheoliadau Gwrychoedd yn cael eu diwygio neu'u disodli. Fodd bynnag, nid dyma'r unig opsiwn ar gyfer diwygio, a gallai sawl llwybr cyfreithiol fod ar gael i warchod gwrychoedd yng Nghymru yn well. Mae'r llwybrau hynny fel a ganlyn:

- diwygio rhannau o'r Rheoliadau Gwrychoedd presennol fel y maent yn berthnasol i Gymru;
- diwygio Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) er mwyn cyflwyno gwarchodaeth benodol ar gyfer gwrychoedd yng Nghymru, yn unol â'r egwyddorion rheoli tir yn gynaliadwy;
- cyflwyno Bil Gwarchod Gwrychoedd (Cymru) sydd wedi'i ddatganoli.

Mae pob llwybr yn cynnig cyfle i fynd i'r afael â diffygion presennol y Rheoliadau Gwrychoedd. Dylai unrhyw ddiwygio deddfwriaethol o leiaf:

- gyflwyno rhagdybiaeth bod pwysigrwydd cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac ecolegol yn perthyn i bob gwrych, sy'n drech na'r meini prawf cul a gorgymhleth presennol a ddefnyddir i roi gwrych yn y categori 'pwysig';
- ymdrechu i sicrhau bod gwarchod gwrychoedd yn cyd-fynd ag uchelgeisiau Cymru ers datganoli, drwy ymgorffori:

    - yr agweddau ar gydnerthedd dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru);
    - yr egwyddorion datblygu cynaliadwy dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru);
    - yr egwyddorion rheoli tir yn gynaliadwy dan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru); ac
    - unrhyw derminoleg leol a ddefnyddir ar gyfer 'gwrychoedd'
- cael ei ategu gan arweiniad wedi'i ddiweddaru ynghylch arferion er mwyn rhoi cyngor ymarferol i ffermwyr, tirfeddianwyr a rheolwyr tir, yn ogystal ag awdurdodau lleol, ynglŷn â rhoi'r ddeddfwriaeth ar waith;
- cael ei ategu gan strwythur cyllido digonol sy'n hybu ac yn galluogi'r arfer o reoli gwrychoedd yn gynaliadwy;
- cael ei ystyried yn rhan o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol/Gweithredoedd Cyffredinol a'r llinell sylfaen reoleiddiol a gyflwynir yn rhan o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Yng nghyswllt pob un o'r argymhellion a nodir isod, dylai rhanddeiliaid a chymunedau lleol gael eu cynnwys yn ystod pob un o'r camau sy'n ymwneud â datblygu a gweithredu diwygiadau i'r gyfraith ynghylch gwrychoedd yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod y diwygiadau'n adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau lleol.

### 5.1 Y Rheoliadau Gwrychoedd

Cafodd y Rheoliadau Gwrychoedd eu beirniadu yn y dystiolaeth am eu methiant i ddarparu diffiniad clir o 'wrych' ac am y meini prawf a ddefnyddir i glustnodi gwrychoedd 'pwysig'. Nid dyma'r tro cyntaf i feirniadaeth o'r fath gael ei mynegi. Gwnaeth y Llywodraeth Lafur newydd, a ddaeth i rym yn fuan ar ôl i'r Rheoliadau ddod i rym, lansio adolygiad yn syth[216] er mwyn ystyried sut y gellid atgyfnerthu'r Rheoliadau. Yn anffodus, ni weithredwyd ar ganfyddiadau'r adolygiad. Cynhaliodd Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a Materion Rhanbarthol ymchwiliad i derfynau caeau yn 1998. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod yn rhaid i'r

[216] Adran dros yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau Llywodraeth y DU (1998) *The Review of the Hedgerow Regulations 1997.*

Llywodraeth gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol ynghylch gwarchod terfynau caeau.[217] Unwaith eto, ni ddigwyddodd dim byd. Mae'r angen dros ddiwygio y galwyd amdano yn 1998 yn fwy fyth yn awr.

Rydym o'r farn bod angen diwygio'n sylweddol. Dylai cwmpas y warchodaeth gael ei ymestyn fel ei fod yn cynnwys ystod ehangach o derfynau caeau mewn lleoliadau amaethyddol a threfol. At hynny, ceir angen sylfaenol i ddiwygio neu, yn well fyth, dileu'r gofyniad i wrych fod yn 'bwysig'.

### 5.2 Pwysigrwydd gwrychoedd

Mae gwrychoedd yng Nghymru yn gynefin sydd o'r pwysigrwydd pennaf fel y diffinnir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Caiff eu pwysigrwydd ei gydnabod hefyd mewn polisi cynllunio, ym Mholisi Cynllunio Cymru Rhifyn 12. Roedd y rôl bwysig y mae gwrychoedd yn ei chwarae o ran bioamrywiaeth yn cael ei chydnabod yn yr holl dystiolaeth a gawsom. Roedd yr angen i wrychoedd gael eu gwarchod er mwyn hybu bioamrywiaeth yn ddigwestiwn. Yn anffodus, nid yw'r Rheoliadau Gwrychoedd yn adlewyrchu hynny; yn hytrach maent yn cyfyngu ar warchodaeth i wrychoedd y bernir eu bod yn bwysig.

Rydym yn cytuno â'r safbwyntiau a fynegwyd yn y dystiolaeth. Rhaid i statws gwrychoedd fel cynefin â blaenoriaeth dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 gael ei ategu gan fesurau priodol i'w gwarchod, gan gynnwys ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

**Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd gwarchod gwrychoedd, gan gynnwys drwy ddarparu arweiniad clir i'r cyhoedd ac i awdurdodau lleol ynghylch y gofynion o ran gwarchodaeth gyfreithiol sy'n ymwneud â gwrychoedd.**

---

[217] Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a Materion Rhanbarthol, *The Protection of Field Boundaries*' 13eg Adroddiad, Sesiwn 1997-98, 12 Tachwedd 1998, Tŷ'r Cyffredin 969-I, Crynodeb o Gasgliadau ac Argymhellion.

### 5.3 Diffiniad o wrych a meini prawf ar gyfer pwysigrwydd

Mae'r Rheoliadau Gwrychoedd yn defnyddio cyfres o feini prawf sydd wedi dyddio ac sy'n gymhleth, heb fod angen, ar gyfer penderfynu a yw gwrych yn bwysig neu beidio, ac nid ydynt hyd yn oed yn diffinio beth a olygir wrth 'wrych'. Mae'r categorïau canlynol o wrychoedd yn rhai nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau, boed yn benodol neu'n ddiofyn:

- gwrychoedd sydd yng nghwrtil tŷ annedd neu sy'n nodi terfyn cwrtil o'r fath;
- gwrychoedd sydd ar dir nad yw at ddibenion amaethyddiaeth neu goedwigaeth;
- gwrychoedd sy'n llai nag 20 metr o hyd, oni bai eu bod yn gysylltiedig â gwrych arall;
- gwrychoedd sydd wedi troi'n llinell o goed; a
- mathau eraill o derfynau caeau, megis cloddiau â pherthi, a chloddiau.

Nid yw'r Rheoliadau yn sôn dim am dir arall nad yw'n dir amaethyddol. Rydym yn cytuno â'r safbwynt y dylai'r Rheoliadau ymdrin â gwrychoedd sy'n ffurfio terfyn eiddo cyhoeddus ac eiddo preifat annomestig gan gynnwys safleoedd diwydiannol, mynwentydd a pharciau.

Rydym hefyd yn cytuno â'r safbwynt y dylai'r Rheoliadau ymdrin â gwrych sy'n ffurfio'r terfyn rhwng tŷ annedd a thir amaethyddol. Er ein bod hefyd o'r farn y dylai gwrychoedd gerddi eraill gael eu gwarchod, nid ydym yn credu mai'r Rheoliadau yw'r ffordd orau o sicrhau'r warchodaeth honno.

Nid ydym yn cytuno bod yn rhaid nad oes unrhyw ddiddordeb o ran bioamrywiaeth yn perthyn i wrychoedd sy'n llai nag 20 metr o hyd. Fodd bynnag, rydym yn cytuno ei bod yn debygol na ddylai gwrychoedd sy'n fyrrach na rhyw hyd gofynnol gael eu cynnwys yn y diffiniad o wrychoedd, ond yn credu y dylai'r hyd gofynnol hwnnw fod gryn dipyn yn llai nag 20 metr.

Rydym yn cytuno bod gwerth yn perthyn i wrychoedd sydd wedi troi'n llinellau o goed, nid yn lleiaf oherwydd y gallent fod yn cynnwys coed yn eu llawn dwf. Rydym wedi dod

i'r casgliad y dylent gael eu gwarchod, naill ai drwy eu cynnwys yng nghylch gorchwyl y Rheoliadau neu mewn rhyw ffordd arall.

Ni chaiff argloddiau a waliau eu gwarchod yn benodol yn y Rheoliadau, a dim ond yn y rhestr o nodweddion cysylltiedig y maent wedi'u cynnwys. Rydym yn cytuno bod methu â'u cynnwys fel nodweddion yn eu rhinwedd eu hunain yn golygu bod perygl iddynt beidio â chael eu hystyried.

Rydym yn cytuno bod y wybodaeth sydd i'w defnyddio i benderfynu a yw gwrych yn 'bwysig' oherwydd yr anifeiliaid y mae'n eu cynnal wedi dyddio, fel y mae'r dyddiad perthnasol y mae gofyn asesu'r dystiolaeth o bwysigrwydd ar ei sail. Rydym hefyd yn cytuno bod y gofyniad ynghylch bod yn 30 oed yn methu â chydnabod y ffaith nad yw gwerth o ran bioamrywiaeth o reidrwydd yn cyfateb i oedran. Rydym hefyd yn cytuno bod y meini prawf ar gyfer asesu pwysigrwydd ar sail y cymunedau o blanhigion sy'n bresennol yn gymhleth, ei bod yn anodd gweithio gyda nhw a'u bod wedi'u seilio ar restrau anghyflawn o rywogaethau.

Rydym wedi dod i'r casgliad y byddai'n rhaid i ddiffiniad o bwysigrwydd, pe bai'n cael ei gadw, gael ei ddiwygio fel a ganlyn:

- dileu'r gofyniad i wrych fod yn o leiaf 30 oed;
- disodli'r maen prawf a nodir yn Atodlen 1, Rhan II, paragraff 6 â chyfeiriad at rywogaethau sydd wedi'u cynnwys yn y rhestr o rywogaethau o'r pwysigrwydd pennaf a luniwyd dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, adran 7; a
- dileu pob cyfeiriad at y 'dyddiad perthnasol'.

Fodd bynnag, nid ydym yn gweld bod angen unrhyw un o'r darpariaethau hyn a byddai'n well gennym pe baent yn cael eu disodli gan ddiffiniad newydd o wrychoedd, sy'n adlewyrchu eu statws fel cynefinoedd â blaenoriaeth.

**Argymhelliad 2: Yn ystod tymor nesaf y Senedd, dylai Llywodraeth Cymru ddeddfu i ddarparu gwarchodaeth gyfreithiol i wrychoedd yng Nghymru, sy'n**

**adlewyrchu eu statws fel cynefinoedd â blaenoriaeth. Dylai Gweinidogion Cymru ymgynghori ynghylch y ffordd orau o gyflawni hynny – adolygu'r Rheoliadau Gwrychoedd yn helaeth neu gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol newydd.**

**Argymhelliad 3: Waeth beth fydd ffurf y warchodaeth newydd dan sylw, dylai ddarparu:**

- **diffiniad cyfreithiol o 'wrych', a fydd yn cynnwys unrhyw wrych sy'n hirach na hyd lleiaf a ragnodir (sydd i'w benderfynu ac a fydd yn amodol ar gael tystiolaeth ynghylch beth ddylai'r hyd lleiaf hwnnw fod), ac o nodweddion cysylltiedig megis cloddiau â pherthi a chloddiau;**
- **diffiniad o 'nodweddion unionlin prennaidd eraill'; a**
- **gwarchodaeth gyfreithiol rhag gwaredu ar gyfer pob gwrych ac ar gyfer unrhyw nodweddion unionlin prennaidd eraill, oni chafwyd awdurdod i'w gwaredu.**

### 5.4 Gwaredu gwrychoedd

Yn y dystiolaeth, ni chafodd unrhyw bryderon eu mynegi am y gofyniad i'r perchennog anfon Hysbysiad Gwaredu Gwrych i'r awdurdod lleol perthnasol cyn gwaredu'r gwrych. Fodd bynnag, roedd yna bryderon am y broses o benderfynu a ddylid rhoi Hysbysiad Cadw Gwrych neu beidio.

Dan y Rheoliadau, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori â'r cyngor cymuned ynghylch y bwriad i waredu gwrych ond nid oes angen iddo ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru. Cyn rhoi Hysbysiad Cadw Gwrych, rhaid i'r awdurdod lleol yn gyntaf ei fodloni ei hun bod y gwrych yn 'bwysig'. Mae ganddo 42 o ddiwrnodau i wneud ei benderfyniad. Oni chytunir ar estyniad gyda'r ymgeisydd, caniateir gwaredu'r gwrych os nad yw'r Hysbysiad Cadw Gwrych wedi'i roi cyn diwedd y cyfnod hwnnw.

**Argymhelliad 4: Yn ystod tymor nesaf y Senedd, dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r darpariaethau sy'n ymwneud â gwaredu gwrych gydag awdurdod, er mwyn:**

- **ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch y bwriad i waredu'r gwrych;**
- **rhoi dyletswydd ar Cyfoeth Naturiol Cymru i gynghori'r awdurdod lleol ynghylch a ddylid rhoi Hysbysiad Cadw Gwrych neu beidio, a mynnu bod yr awdurdod lleol yn ystyried y cyngor hwnnw wrth wneud ei benderfyniad;**
- **estyn i Cyfoeth Naturiol Cymru yr un hawliau i fynd i mewn i dir ag sydd ar gael i'r awdurdod lleol er mwyn arolygu'r gwrych; a**
- **rhoi pŵer i'r awdurdod lleol roi hysbysiad ynghylch estyniad mewn sefyllfaoedd lle na all asesu gwerth gwrych o fewn y cyfnod a bennwyd.**

### 5.5 Gwaith a ganiateir

Yn yr achos *Conwy County Council v Lloyd*, penderfynwyd bod gwaredu perth yn waith a ganiateid os oedd yn cael ei gyflawni fel 'rheolaeth briodol'.

**Argymhelliad 5: Yn ystod tymor nesaf y Senedd, dylai Llywodraeth Cymru dynnu 'rheoli'r gwrych yn briodol' allan o'r rhestr o waith a ganiateir.**

### 5.6 Gorfodi

Cawsom wybod bod mynnu bod gwrych newydd yn cael ei osod yn lle'r hen un yn opsiwn a gâi ei ffafrio'n gyffredinol, yn hytrach nag erlyn rhywun. Mae hynny'n rhannol oherwydd yr arian a'r amser sy'n gysylltiedig â dwyn achos, ac yn rhannol oherwydd bod gosod gwrych newydd yn lle'r hen un o leiaf yn sicrhau bod gwrych yn cael ei ail-greu. Fodd bynnag, nid oes gan yr awdurdod lleol unrhyw bwerau i orfodi Hysbysiad Gosod Gwrych Newydd. Os bydd y perchennog yn methu â chydymffurfio, mae gan yr awdurdod lleol yr opsiwn o hyd i erlyn rhywun am waredu gwrych yn anghyfreithlon

a/neu gall gyflawni'r gwaith ailblannu ei hun. Mae'r ddau beth yn gofyn am lawer o adnoddau.

**Argymhelliad 6: Yn ystod tymor nesaf y Senedd, dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r adran ar droseddau yn y Rheoliadau:**

- **fel bod y person a ganfyddir yn euog dan Reoliad 7 yn cael Hysbysiad Gosod Gwrych Newydd gorfodol yn ogystal â dirwy; ac**
- **fel bod methu â chydymffurfio â Hysbysiad Gosod Gwrych Newydd yn drosedd.**

Rydym wedi nodi bod Rheoliadau Rheoli Gwrychoedd (Lloegr) 2024 yn cyflwyno'r opsiwn o sancsiynau sifil os oes trosedd wedi digwydd. Rydym yn credu y dylid ystyried a allai sancsiynau sifil fod yn ddull mwy effeithiol o atal na'r bygythiad o erlyn, ac a allai sancsiynau o'r fath olygu bod angen llai o adnoddau. Maes o law, byddai'n ddefnyddiol asesu effaith Rheoliadau Rheoli Gwrychoedd (Lloegr) ac unrhyw rai o fanteision y dull gweithredu hwn a allai gael eu hefelychu yng Nghymru.

**Argymhelliad 7: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a allai sancsiynau sifil fod yn opsiwn priodol.**

### 5.7 Rheoli gwrychoedd

Nododd nifer sylweddol o ymatebwyr mai newid defnydd tir, ac yn enwedig arferion ffermio anghynaliadwy, yw'r prif fygythiad i wrychoedd yng Nghymru. Er mwyn sicrhau bod gwrychoedd yn cael eu gwarchod, dylai cynlluniau cyllido gael eu hadolygu i sicrhau nid yn unig eu bod yn anghymeradwyo arferion rheoli sy'n anghynaliadwy ond eu bod hefyd yn mynd ati i annog arferion rheoli sy'n fwy cynaliadwy. Tynnwyd ein sylw at y bwlch posibl o ran sgiliau ym maes arferion rheoli sy'n fwy cynaliadwy, ac at yr angen i ddarparu cyllid ar gyfer unrhyw hyfforddiant a gwaith gwella sgiliau sy'n angenrheidiol er mwyn annog y defnydd o arferion mwy cynaliadwy.

Gwnaed sylwadau ar fanteision plygu gwrychoedd, o gymharu â'u rheoli drwy eu ffustio a'u bôn-docio, mewn tystiolaeth gan ffermwyr, sefydliadau anllywodraethol a chyrff cyhoeddus. Cafwyd sylwadau hefyd ar y costau cymharol. Nid ydym yn credu y byddai'n ymarferol mynnu bod ffermwyr yn mabwysiadu technegau rheoli gwrychoedd traddodiadol. Fodd bynnag, rydym yn credu y dylai ffermwyr gael eu hannog i reoli eu gwrychoedd mewn modd sy'n fanteisiol i fywyd gwyllt ac y dylent gael eu gwobrwyo'n ariannol am wneud hynny. Rydym yn credu ei bod yn werth ymchwilio ymhellach i'r dechneg plygu perthi er budd bywyd gwyllt, y mae Ymddiriedolaethau Natur Cymru yn ei ffafrio, oherwydd gallai'r dechneg honno gynnig ffordd fwy cost-effeithiol o reoli gwrychoedd.

Mae cymorth ariannol i ffermwyr yng Nghymru wrthi'n newid. Bydd y rheolau trawsgydymffurfio sy'n berthnasol dan Gynllun y Taliad Sengl yn dod i ben gyda'r cynllun hwnnw yn 2025. Yn Lloegr, mae'r rheolau hyn wedi'u hefelychu mewn cyfraith ddomestig yn Rheoliadau Rheoli Gwrychoedd (Lloegr) 2024. Yng Nghymru, byddant yn cael eu disodli gan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Cawsom nifer o awgrymiadau ynghylch ariannu cymorth ar gyfer gwaith ar wrychoedd dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Rydym yn credu ei bod yn werth ystyried pob un o'r rheiny, ac rydym yn falch o nodi'r cynigion diwygiedig yng Ngweithredoedd Cyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a amlinellwyd ym mis Tachwedd 2024. Mae'n bwysig bod arweiniad clir yn cael ei roi i ffermwyr ynghylch sut beth yw rheoli gwrychoedd yn dda at ddibenion canlyniadau i'r amgylchedd a bioamrywiaeth.

Rydym hefyd yn croesawu'r Grŵp Cyflawni i Randdeiliaid ar gyfer Coed a Gwrychoedd[218] a sefydlwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru i hybu'r gwaith o gyflawni targedau ar gyfer plannu coed a chreu gwrychoedd. Mae rôl y Grŵp yn

---

218 https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2025/3/1/1742213771/grwp-cyflawni-rhanddeiliaid-coed-gwrychoedd-cylch-gorchwyl.pdf

cynnwys rhai o'r syniadau y mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â nhw, sy'n cynnwys hybu cydnabyddiaeth o fanteision niferus coed a pherthi i fusnesau fferm a'r amgylchedd.

Am resymau tebyg, rydym yn cefnogi'r Cod Carbon Gwrychoedd yn fawr iawn, oherwydd byddai'n galluogi ffermwyr i gynhyrchu incwm o'u gwaith ar reoli gwrychoedd. Rydym wedi nodi bod Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd gwaith y Grŵp Cyflawni i Randdeiliaid ar gyfer Coed a Gwrychoedd yn ystyried sut i weithredu argymhellion y Panel Carbon er mwyn hybu'r gwaith o blannu mwy o goed a chreu mwy o wrychoedd yng Nghymru.

**Argymhelliad 8: Dylai Llywodraeth Cymru, yn ystod tymor hwn y Senedd yn rhan o'r newidiadau i bolisi amaethyddol yng Nghymru, fynd ati ar frys i wneud y canlynol:**

- **darparu cymorth ariannol gan gynnwys grantiau cyfalaf er mwyn i ffermwyr reoli gwrychoedd mewn modd cynaliadwy i gynnal a gwella eu gwerth o ran bioamrywiaeth;**
- **cynnwys gwrychoedd yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, yn rhan o'r gofynion ynghylch ardaloedd o gynefinoedd yng Ngweithred Gyffredinol 7 ar gyfer Rheoli Cynefinoedd;**
- **hybu'r Cod Carbon Gwrychoedd a'i symud yn ei flaen;**
- **rhoi ystyriaeth ddyladwy i'r posibilrwydd o roi taliadau ychwanegol yn rhan o Haen Opsiynol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy am gael cyfran o wrychoedd sy'n dwyn ffrwythau ac yn blodeuo bob blwyddyn; a**
- **chomisiynu ymchwil a digwyddiadau trosglwyddo gwybodaeth ynghylch manteision posibl technegau plygu perthi er budd bywyd gwyllt.**

### 5.8 Gwrychoedd nad ydynt yn rhai amaethyddol

Fel y nodwyd uchod, rydym yn credu y dylai gweithdrefnau'r Rheoliadau Gwrychoedd ynghylch gwaredu gwrychoedd fod yn berthnasol i dir cyhoeddus a phreifat nad yw'n dir amaethyddol, ar wahân i eiddo domestig. Yn y rhan fwyaf o achosion o'r fath, mae'r gwaith o waredu gwrych yn debygol o ymwneud â datblygiad arfaethedig y byddai

angen caniatâd cynllunio ar ei gyfer. Dylai cynnwys gofyniad pellach i roi Hysbysiad Gwaredu Gwrych sicrhau nad yw gwrychoedd yn cael eu gwaredu cyn bod cais cynllunio'n cael ei gyflwyno.

Awgrymwyd wrthym hefyd y dylai gwrychoedd gerddi gael eu cynnwys yng nghylch gorchwyl y Rheoliadau. Rydym yn cytuno bod y rhain yn gyfranwyr pwysig i seilwaith gwyrdd trefol. Nid yw eu cyfraniad i wasanaethau ecosystemau wedi'i gyfyngu i'w gwerthoedd o ran bioamrywiaeth. Gallant wella ansawdd yr aer a helpu i leihau llifogydd. Rydym wedi dod i'r casgliad bod angen i'r gwrychoedd hyn gael eu gwarchod ond nid ydym wedi cael ein hargyhoeddi mai'r Rheoliadau Gwrychoedd yw'r ffordd orau o'u diogelu, nid yn lleiaf oherwydd byddai'n rhaid rhoi gwybod i bob tirfeddiannwr am yr angen i anfon Hysbysiad Gwaredu Gwrych i'r awdurdod lleol. At hynny, gallai methu â chydymffurfio â'r Rheoliadau arwain at euogfarn droseddol.

Rydym o'r farn mai'r ffordd orau o warchod gwrychoedd gerddi yw drwy'r system gynllunio. Mae perchnogion tai domestig eisoes yn gwybod am yr angen i gael caniatâd cynllunio ar gyfer datblygu, felly byddai'r dull hwn o weithredu yn osgoi'r angen i orfod cyflwyno fframwaith cyfreithiol hollol newydd. Gallai'r gwaith o waredu gwrych gael ei gynnwys yn y drefn ar gyfer caniatâd cynllunio. Yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd, gelid ei ychwanegu at y rhestr o waith datblygu a ganiateir dan y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol. Byddai angen meini prawf i nodi gwrychoedd y byddai angen cais cynllunio ar eu cyfer.

**Argymhelliad 9: Yn ystod tymor nesaf y Senedd, dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori ynghylch y ffordd orau o reoli gwrychoedd ar dir nad yw'n dir amaethyddol.**

### 5.9 Gosod rhwydi

Rydym o'r farn nad oes yn rhaid gosod rhwydi. Unig ddiben gwneud hynny yw atal adar rhag nythu, a galluogi perchennog y gwrych i waredu'r gwrych yn ystod y tymor magu heb fod perygl y byddai'n cyflawni trosedd dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Rydym yn credu y dylid gwahardd gosod rhwydi ar bob math o wrych.

**Argymhelliad 10: Dylai Llywodraeth Cymru weithredu ar frys i wahardd y defnydd o rwydi ar bob gwrych.**

Un o'r materion a godwyd yn y cyflwyniadau a gawsom ynghylch gosod rhwydi oedd methiant yr awdurdod lleol i gymryd camau i fynd i'r afael â'r drosedd. Gallai hynny fod yn digwydd yn rhannol, o leiaf, oherwydd diffyg ymwybyddiaeth o'r problemau a allai gael eu datrys drwy ddarparu arweiniad priodol.

**Argymhelliad 11: Yn y cyfamser, nes y caiff yr arfer o osod rhwydi ar wrychoedd ei wahardd, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi arweiniad ar frys i awdurdodau lleol i esbonio:**

- **y rhagdybiaeth yn erbyn gosod rhwydi ar wrychoedd ar unrhyw adeg;**
- **y cyfyngiadau cyfreithiol ar ddefnyddio rhwydi;**
- **yr angen i fod yn wyliadwrus er mwyn darganfod achosion anghyfreithlon o osod rhwydi.**

**5.10 Arweiniad**

Cafodd y canllaw sy'n dwyn y teitl The *Hedgerows Regulations Guide to the Law and Good Practice* ei gyhoeddi gan Adran dros yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau Llywodraeth y DU yn 1997 i gyd-fynd â'r Rheoliadau. Cafodd ei fabwysiadu gan Defra wedyn heb iddo gael ei newid, ac nid yw wedi cael ei adolygu ers hynny. Mae llawer ohono wedi dyddio a bydd angen arweiniad newydd os bydd y Rheoliadau yn cael eu diwygio neu'u disodli. Rydym o'r farn mai'r ffordd orau o fynd i'r afael â sawl pryder a fynegwyd mewn tystiolaeth fyddai drwy roi arweiniad sydd wedi'i ddiwygio.

Bydd llawer o wrychoedd pwysig o ran y dirwedd wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau oherwydd eu diddordeb hanesyddol neu archaeolegol. Fodd bynnag, ni fydd y categori hwn yn cynnwys gwrychoedd sydd wedi'u sefydlu yn fwy diweddar ond a gaiff eu hystyried er hynny'n wrychoedd pwysig i ddiwylliant y gymuned leol. Nid ydym yn

credu ei bod yn bosibl llunio maen prawf ar gyfer diffinio gwrych sydd o bwys diwylliannol, oherwydd bydd hynny'n dibynnu ar yr amgylchiadau lleol. Fodd bynnag, nid yw hynny'n rheswm dros beidio â chynnwys y mathau hyn o wrychoedd mewn trefniadau gwarchod. Rydym wedi dod i'r casgliad y dylai arweiniad i gynorthwyo awdurdodau lleol i benderfynu a yw gwrych o bwys diwylliannol lleol neu beidio gael ei gynnwys mewn canllaw newydd.

Yng ngoleuni'r dystiolaeth a gawsom, rydym yn credu bod angen arweiniad pellach ar gyfer awdurdodau lleol ynghylch agweddau eraill ar reoli gwrychoedd. Os bydd trefniadau gwarchod gwrychoedd yn cynnwys gerddi hefyd, bydd ar awdurdodau lleol angen arweiniad ynghylch a yw hawliau datblygu a ganiateir yn berthnasol i unrhyw fwriad i waredu gwrych.

Fodd bynnag, ni fydd y ffaith bod canllaw wedi'i ddiweddaru yn bodoli yn ddigon, a bydd yn rhaid bod gwaith cyfathrebu strategol yn cyd-fynd ag ef er mwyn mynd i'r afael â'r lefelau amrywiol o ymwybyddiaeth o'r Rheoliadau a geir ymhlith tirfeddianwyr, awdurdodau lleol ac aelodau'r cyhoedd.

**Argymhelliad 12: Dylai Llywodraeth Cymru:**

- **gyhoeddi arweiniad newydd neu ddiwygiedig ynghylch y Rheoliadau Gwrychoedd;**
- **codi ymwybyddiaeth o fodolaeth yr arweiniad pan fydd wedi'i gyhoeddi; ac**
- **ystyried cynnwys yn yr arweiniad gyfeiriad at arfer gorau ym maes rheoli gwrychoedd.**

**Argymhelliad 13: Dylai Llywodraeth Cymru, yn ystod tymor hwn y Senedd, roi arweiniad cynllunio i awdurdodau lleol ynghylch yr angen i bwyso a mesur ffactorau hanesyddol, archaeolegol, ecolegol a diwylliannol wrth ystyried cais am ganiatâd cynllunio i waredu gwrych.**

### 5.11 Rhestr o wrychoedd

Mae'n amlwg o'r dystiolaeth a gafwyd bod rhywfaint o ddryswch ynghylch cyfanswm hyd y gwrychoedd sy'n bresennol yng Nghymru. Awgrymwyd wrthym mai mater eithaf syml fyddai llunio rhestr o wrychoedd hynafol, a fyddai'n seiliedig ar nodi'r gwrychoedd sydd ar fapiau'r Arolwg Ordnans ac sy'n dal yn bresennol. Awgrymwyd hefyd y gellid talu ffermwyr am fapio gwrychoedd presennol dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy er mwyn creu rhestr. Rydym wedi nodi bod Canolfan Ecoleg a Hydroleg y DU wedi diweddaru ei Fframwaith Nodweddion Unionlin Prennaidd 2016[219] drwy lunio adnodd sy'n dwyn y teitl *Land Cover Plus: Hedgerows*[220], sef rhaglen LIDAR genedlaethol sy'n darparu set ddata fanwl a chywir ar gyfer Lloegr, sy'n cynnwys data am uchder coed a llwyni. Rydym o'r farn y gallai cronfa ddata debyg i Gymru fod yn ddefnyddiol iawn wrth benderfynu ynghylch pwysigrwydd gwrychoedd.

**Argymhelliad 14: Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i ariannu a darparu rhestr o wrychoedd yng Nghymru, ac rydym yn awgrymu y gallai rhywfaint o'r gwaith casglu data gael ei gyflawni drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.**

https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2025/3/1/1742213771/grwp-cyflawni-rhanddeiliaid-coed-gwrychoedd-cylch-gorchwyl.pdf

219 https://www.ceh.ac.uk/data/woody-linear-features-framework
220 https://www.ceh.ac.uk/data/ukceh-land-cover-plus-hedgerows-2016-2021-england

## Atodiad 1 Cyflwyniadau

**Ebost IEPAW009 wedi'i olygu dyddiedig 4-11-21**

Annwyl Asesydd,

Rwy'n ysgrifennu atoch gan fy mod ar ddeall gan gydweithwyr blaenorol mai eich rôl newydd yw ystyried agweddau ar gyfraith amgylcheddol yng Nghymru nad ydynt yn gweithredu'n effeithiol. Rwyf wedi mynegi fy mhryderon o'r blaen gyda nifer o awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a staff yn Cyfoeth Naturiol Cymru – y rheoleiddiwr amgylcheddol.

Nid yw Rheoliadau Gwrychoedd 1997 yn addas i'w diben oherwydd nid ydynt yn cyflawni'r nod a ddatganwyd ar eu cyfer, sef gwarchod gwrychoedd yn effeithiol yng Nghymru (a Lloegr). Maent yn caniatáu i lawer o wrychoedd presennol gael eu gwaredu neu'u difrodi, oherwydd geiriad a chymhlethdod y Rheoliadau. Yn ôl pob golwg, nid oes gan awdurdodau lleol ddigon o adnoddau i roi'r Rheoliadau ar waith neu nid ydynt yn eu deall yn llawn ac, o ganlyniad, ceir dryswch ynghylch y rheolau ymhlith tirfeddianwyr. Dim ond i dir ffermio y maent yn berthnasol; nid ydynt yn berthnasol i barciau na gerddi ac nid yw'r term 'gardd' wedi'i ddiffinio yn glir. Maent hefyd yn cynnwys safonau mympwyol ynghylch beth yw gwrych, gyda rhai rhywogaethau planhigion â choesynnau prennaidd wedi'u cynnwys ac eraill wedi'u hepgor.

Rwy'n deall bod awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn gofyn am welliannau ers peth amser, fel y mae sefydliadau yn Lloegr. Rwy'n gobeithio y bydd gennych amser i ymchwilio i hyn oherwydd mae'n broblem sydd wedi arwain at weld llawer o wrychoedd Cymru yn cael eu colli neu'n diraddio. Rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol eu bod yn warchodfeydd pwysig i fioamrywiaeth ac yn nodweddu ein tirwedd wledig.

**Ebost IEPAW016 wedi'i olygu dyddiedig 17-12-21**

Annwyl Dr Llewelyn Jones,

Rwy'n ysgrifennu yng nghyswllt eich rôl fel yr Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd.

Rwy'n perthyn i grŵp bach o bobl sy'n sefydlu grŵp gwirfoddol newydd. Nod cychwynnol y grŵp yw casglu gwybodaeth am y nifer fawr iawn o ddigwyddiadau sy'n arwain at ddifrod amgylcheddol, sy'n digwydd fel mater o drefn heb fod neb yn sylwi arnynt. Er bod pob un o'r digwyddiadau hyn efallai'n eithaf bach o ran eu maint, ac nad yw llawer ohonynt yn torri'r gyfraith, mae'r ffaith eu bod yn niferus yn golygu eu bod gyda'i gilydd yn arwain at golli llawer o fyd natur.

A fyddai hynny'n rhywbeth a fyddai'n perthyn i'ch cylch gorchwyl chi? A fyddai'n ddefnyddiol i chi pe baech yn cael ffeil o ddigwyddiadau o'r fath erbyn, dyweder, mis Ionawr 2023?

Rwy'n credu bod un gweithgaredd penodol sy'n peri pryder i fi yn rhan o gynllun amaeth-amgylcheddol, mewn gwirionedd. Ymddengys fod cyllid grant ar gael i dirfeddianwyr/rheolwyr tir waredu perthi "sydd wedi tyfu'n wyllt" a gosod rhai newydd yn eu lle. Y broblem yw bod perthi sydd wedi tyfu'n wyllt yn gallu cynnwys coed yn eu llawn dwf, sy'n aml yn bodoli ers degawdau lawer. Gwelwyd dwy enghraifft o hyn yn ddiweddar, o fewn milltir i'm cartref yng ngogledd Ceredigion. Yn un o'r enghreifftiau hynny, cafodd tua 70 o ddrain gwynion yn eu llawn dwf eu torri ar lefel y ddaear – roedd llawer ohonynt yn 70 oed neu'n hŷn na hynny. Yna, cafodd glasbrennau eu plannu rhwng y bonion i greu perth newydd. Bydd yn cymryd blynyddoedd lawer i adennill y gwerth a gollwyd o ran y dirwedd ac o ran yr amgylchedd. Heb fod ymhell o'r fan honno, cafodd perth wasgarog ac ynddi fylchau ei gwaredu er mwyn gosod ffens ac ailblannu'r berth, ond roedd yn cynnwys nifer o goed collddail, tal yn eu llawn dwf, o amryw rywogaethau.

Ymddengys fod hyn yn ganlyniad anfwriadol cynllun sydd fel arall yn ddefnyddiol. A fyddech yn gallu ymchwilio i hynny?

**Ebost IEPAW017 wedi'i olygu dyddiedig 20-12-21**

Annwyl Dr Llewelyn Jones,

Rwy'n siŵr eich bod yn hollol ymwybodol o'r arfer dadleuol iawn lle caiff rhwydi eu gosod dros gynefinoedd nythu/bwydo/clwydo er mwyn ei gwneud yn hawdd i ddatblygwyr waredu coed, llwyni neu wrychoedd yn ystod y tymor nythu.

Hoffwn dynnu eich sylw at achos penodol o ddefnyddio rhwydi, sy'n adlewyrchu'r problemau yn dda ac a ddylai fod yn achos prawf ar gyfer pa mor wael y caiff bywyd gwyllt a chynefinoedd eu gwarchod yng Nghymru. Mae'r ddolen gyswllt hon yn eich galluogi i weld taenlen Google Drive sy'n cynnwys amseroedd digwyddiadau a dogfennau:
https://docs.google.com/spreadsheets/d/1ikkMGXl8Hj9EoTN81DoHcSbHug8ws4PZkn61nbi83xw/edit?usp=sharing

Yn gryno: Penderfynodd datblygwr (sy'n aelod o'r Pwyllgor Cynllunio ac sy'n ymwybodol o'r holl reoliadau a'r holl gyngor) ddatblygu cae i adeiladu amlosgfa. Er nad oedd wedi cyflwyno cais cynllunio (noder yr hyn a ddywedodd Julie James AC, sef mai dim ond yn niffyg unrhyw fesur arall y dylid ystyried gosod rhwydi, ar ôl ystyried opsiynau amgen eraill yn llawn ac mewn amgylchiadau eithriadol a dim ond ar ôl i ganiatâd cynllunio gael ei roi), gosododd rwydi ar berth ar ddechrau'r tymor nythu yn gynnar ym mis Mawrth er mwyn ei gwaredu. Byddai gwaredu'r berth (nid ei symud) wedi bod yn hollol bosibl yn ystod misoedd y gaeaf tra oedd y berth yn cysgu.

Roedd aelodau'r cyhoedd wedi gwylltio – roedd rhai pobl leol wedi gwylltio ynghylch y cynnig ei hun oherwydd gallent ragweld problemau traffig ar y ffordd fach, ac roedd llawer o wrthwynebiad i'r ffaith bod rhwydi wedi'u gosod. Roedd yna wrthwynebiad gan Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig, llawer o gadwraethwyr uchel eu parch, Ymddiriedolaethau Natur ac Ecolegydd Sirol Powys ei hun a ysgrifennodd fel a ganlyn:

“Cafwyd argymhelliad o’r blaen ynghylch digolledu am yr effaith ar wrychoedd wrth ymyl y ffordd. Ers hynny, fodd bynnag, mae sylw’r awdurdod cynllunio lleol wedi’i ddwyn at y ffaith bod rhwydi – y bwriedir yn benodol iddynt gadw adar sy’n nythu allan – wedi’u gosod dros y darnau perthnasol o wrychoedd er mwyn hwyluso gwaredu’r perthi yn ystod y tymor nythu. Ystyrir bod hynny’n ddigywilydd ac yn hollol amhriodol o gofio nad oes penderfyniad wedi’i wneud eto ynghylch y cais. Mae hefyd yn mynd yn groes i’r cyngor a roddwyd i’r ymgeisydd gan ei ymgynghorydd ecolegol, a argymhellodd (yn unol ag arfer gorau) y dylid gwaredu’r gwrych y tu allan i’r tymor nythu neu y dylai ecolegydd profiadol gynnal archwiliad trylwyr o’r safle cyn gwaredu’r gwrych, er mwyn gweld a oedd adar sy’n nythu yno.”

Ni wnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru na Chyngor Sir Powys ddim byd i gynnal y Rheoliadau er mwyn gwarchod y berth a bywyd gwyllt, felly cafodd y rhwydi eu symud oddi yno gan dri phrotestiwr a aeth yn wirfoddol at yr heddlu i gael eu cyfweld ac a gafodd eu cyhuddo wedyn a’u dyfarnu’n euog o achosi difrod troseddol. Yr hyn a wnaethant oedd tynnu sylw at y sefyllfa chwerthinllyd hon. Eu hamddiffyniad oedd ‘angenrheidrwydd’. (datgeliad llawn) Manylion wedi’u cuddio oedd un ohonynt.

Mae gennym ddeddfau i warchod cynefinoedd megis perthi: Caiff perthi eu gwarchod dan Reoliadau Gwrychoedd 1997 ac maent wedi’u rhestru yn gynefin â blaenoriaeth sydd o’r pwysigrwydd pennaf dan adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Dan adran 6 y Ddeddf honno, mae hynny’n golygu bod yn rhaid i bob awdurdod cyhoeddus megis Cyngor Powys a Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried y pwysigrwydd hollbwysig hwn wrth wneud unrhyw benderfyniadau. Mae gennym Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol sydd hefyd yn berthnasol i’r gwaith o waredu cynefin gwerthfawr, ac effaith hynny ar genedlaethau’r dyfodol yng Nghymru. Mae gennym ddeddfau i warchod bywyd gwyllt, ac mae’n amlwg na chafodd y rhwydi eu harchwilio o gwbl er mwyn gweld a oedd anifeiliaid wedi’u caethiwo (a fyddai’n drosedd yn erbyn bywyd gwyllt ac yn weithred droseddol). Fel y gwelwch, tyfodd y berth drwy’r rhwydi. Maes o law, chwalodd y rhwydi ac roeddent ar hyd y ffordd yn ystod yr hydref eleni ac yn beryglus i draffig. Dim ond wedyn y gwnaeth y

Cynghorydd eu symud oddi yno. Ni wnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru na Chyngor Sir Powys archwilio'r rhwydi ar unrhyw adeg, na gwirio a oedd arolwg wedi'i gynnal o'r berth cyn i'r rhwydi gael eu gosod (nid oedd yr adroddiad ecolegydd a gyflwynwyd gan y datblygwyr yn cynnwys unrhyw arolwg) na hyd yn oed gwirio a oedd y datblygwr wedi cael caniatâd cynllunio cyn defnyddio'r rhwydi, ac ni wnaethant gymryd unrhyw un o'r camau niferus eraill a ddylai fod wedi gallu atal defnyddio'r rhwydi.

Fel y gwyddoch mae gwrychoedd yn gynefin lled-naturiol allweddol mewn tirweddau a gaiff eu ffermio'n ddwys, ac maent yn darparu bwyd ac adnoddau i nythu, cysgod, coridorau a chilfachau o gynefin ar gyfer bywyd gwyllt. Rydym wedi colli dros hanner ein gwrychoedd oherwydd dulliau ffermio mwy dwys, ac mae llawer o'r hyn sydd gennym yn weddill mewn cyflwr gwael ond yn fwy gwerthfawr fyth yn y cyflwr hwnnw. Gwrychoedd yw cynefin lled-naturiol ehangaf y DU, ac maent yn cynnal amrywiaeth helaeth o fflora a ffawna. Mae gan 130 o rywogaethau'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth gysylltiad agos â pherthi ac mae llawer iawn mwy na hynny'n eu defnyddio i gael bwyd a/neu gysgod yn ystod rhyw ran o'u cylch bywyd.

Hoffwn eich cyfeirio'n benodol at dystiolaeth manylion yr arbenigwr wedi'u cuddio a luniodd yr arweiniad a anfonwyd gan Lywodraeth Cymru at bob pennaeth cynllunio yng Nghymru, na ddilynwyd yr un elfen ohono neu na ddilynir yr un elfen ohono. Hoffwn eich cyfeirio hefyd at yr ail Adroddiad Ecoleg dyddiedig 31 Mawrth. Mae arweiniad y Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol ynghylch defnyddio rhwydi i'w weld mewn ffont glas golau ar y chwith ar y top, ynghyd â'r llythyr at benaethiaid cynllunio oddi wrth Julie James.

Dyma'r cwestiwn, felly – a fydd Cymru yn arwain y ffordd i roi diwedd unwaith ac am byth ar yr arfer hwn? Rydym ni, sef y sawl sy'n poeni am fywyd gwyllt sy'n dirywio'n gyflym ac am gynefinoedd sy'n diraddio yng Nghymru, yn bendant yn gobeithio y bydd.

Rwy'n gobeithio y gallwch neilltuo rhywfaint o amser i ystyried y dystiolaeth ac

archwilio'r achos, fel cam cyntaf defnyddiol tuag at fynd i'r afael o'r diwedd â'r man gwan hwn yn y ddeddfwriaeth.

Er gwybodaeth: Cafodd y cais cynllunio ei gyflwyno a'i roi er nad oedd yn bodloni'r rheolau ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol ym Mhowys, gan ei fod yn ddatblygiad mawr mewn ardal o gefn gwlad agored. Yna, cafodd y cais ei 'alw i mewn' gan Lywodraeth Cymru gan fod beiau niferus yn y broses gymeradwyo. Un o'r beiau hynny oedd y gwyriad "sylweddol" o'r Cynllun Datblygu Lleol heb fod unrhyw gyfiawnhad wedi'i roi dros wneud hynny. Pe bawn i'n berson sinigaidd, byddwn i'n dweud nad yw'r rheolau yn berthnasol os ydych yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio...

Ond, gan droi'n ôl at y rhwydi, rwy'n gobeithio y byddwch yn cytuno, ar ôl adolygu'r arfer dan sylw a'r dystiolaeth yn y fan hon, bod hwn yn un peth y gallem wneud y tro hebddo.

**<u>Ebost IEPAW018 wedi'i olygu dyddiedig 20-12-21</u>**

Gwarchod bywyd gwyllt yng Nghymru

Annwyl Dr Nerys Llewelyn Jones (a'r tîm),

Yn 2019 gwnaeth y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar y pryd, Julie James AC, lofnodi llythyr ynghylch defnyddio rhwydi atal adar/bywyd gwyllt (*Atodiad 1*). Rydym ar ddeall bod y llythyr hwn wedi'i anfon at bob un o Adrannau Cynllunio Cynghorau Sir yng Nghymru. Cafodd canllawiau'r Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol ynghylch defnyddio rhwydi eu cyhoeddi hefyd (*Atodiad 2*).

Ym mis Mawrth eleni, aeth tri ohonom ati'n ofalus i symud rhwydi o wrych mewn protest ac er mwyn adlewyrchu'r 350,000+ o bobl a lofnododd y ddeiseb yn 2019 (*Atodiad 3*) a'r unigolion a'r mudiadau/sefydliadau niferus a wrthwynebodd y defnydd penodol hwn o'r rhwydi*. Mae'r mudiadau/sefydliadau hynny yn cynnwys Ymgyrch

Diogelu Cymru Wledig, yr RSPB, Ymddiriedolaeth Natur Maldwyn ac ecolegydd Cyngor Sir Powys ei hun.

Ar dyddiad wedi'i guddio, cafodd tri ohonom ein dyfarnu'n euog o achosi difrod troseddol (torri clymau sip a rhwygo'r rhwydi o ganlyniad, er i ni fod yn ofalus) a chafodd y pedwerydd ei ddyfarnu'n euog o'n 'hannog' i weithredu fel hyn.

Yn ôl yr adolygiad diweddaraf o Adar o Bryder Cadwraethol, sef adolygiad 2021, mae 70 o rywogaethau Prydain ar y Rhestr Goch erbyn hyn, sef 29% o'r rhywogaethau a aseswyd. bto.org/bocc.

Er gwaethaf tystiolaeth y tyst arbenigol enw wedi'i guddio (*Atodiad 4*) sy'n un o ecolegwyr canolbarth Cymru ers amser maith (ac a fu'n ymwneud â datblygu canllawiau'r Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol) ac er gwaethaf y ddeddfwriaeth warchod ganlynol, cawsom ein canfod yn euog yn unol â'r cyhuddiadau:

- Rheoliadau Gwrychoedd 1997 – mae perthi'n gynefin â blaenoriaeth sydd o'r pwysigrwydd pennaf dan:
- Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016; a than adran 6 mae hynny'n golygu bod yn rhaid i bob awdurdod cyhoeddus megis Cyngor Powys a Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried y pwysigrwydd hwn wrth wneud unrhyw benderfyniadau;
- Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981;
- Y Ddeddf Difrod Troseddol, adran 5, cymal 48.

Mae rhwydi o'r fath wedi'u gwneud o blastig neilon, sy'n anochel yn blastig untro ac sydd felly'n **peryglu pridd, aer a dŵr wrth iddo gael ei gynhyrchu a'i gludo ac wrth iddo ddiraddio**.

Yn yr achos penodol hwn, newydd gael eu tynnu i ffwrdd y mae'r rhwydi oherwydd eu bod wedi diraddio gymaint. Yn dilyn storm Arwen, roeddent yn chwythu ar draws

y ffordd ac felly'n beryglus. Mae microblastigau yn yr amgylchedd lleol erbyn hyn oherwydd bod y rhwydi wedi diraddio (gosododd y tirfeddiannwr rwydi eraill yn eu lle ar ôl i'r rhai gwreiddiol gael eu symud oddi yno – yn ystod y tymor nythu).

**Nid diben y llythyr hwn yw gofyn i chi wrthdroi ein heuogfarnau. Dan y deddfau presennol, roeddem yn gwybod y byddem yn cael ein canfod yn euog yn ôl pob tebyg.**

**Diben y llythyr yw gofyn yn daer am i'n deddfau yng Nghymru sy'n llywodraethu cynllunio a datblygu, a bywyd gwyllt, gael eu hystyried a'u newid.**

Er gwaethaf y canllawiau clir, er gwaethaf y galwadau niferus am i bobl beidio â defnyddio rhwydi a'r ffaith bod yn rhaid eu tynnu i ffwrdd wedyn, ac er gwaethaf y deddfau sydd i fod i warchod ein byd, efallai ei bod yn bryd newid y ddeddfwriaeth, a fydd yn golygu bod o leiaf yr un pwys yn gallu cael ei roi ar fywyd gwyllt a'r amgylchedd.

Mae deddfau sy'n gwarchod eiddo yn drech na deddfau sy'n gwarchod yr amgylchedd. Nid yw hynny'n gydnaws â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r datganiadau ynghylch argyfwng hinsawdd ac argyfwng ecolegol – yn ein hargyfwng presennol, efallai fod yn rhaid rhoi blaenoriaeth i'r amgylchedd.

Tybed a fyddech yn fodlon hybu'r symud (efallai y gallai Cymru arwain y ffordd unwaith eto) tuag at ddeddfwriaeth sy'n sicrhau dim defnydd o gwbl neu ddefnydd bach iawn o rwydi atal adar/bywyd gwyllt, er mwyn gwarchod ymhellach ac yn briodol ein bywyd gwyllt sy'n dirywio.

Mae'n amlwg nad yw'r canllawiau yn ddigonol, oherwydd fel arall ni fyddai'r llys wedi ein canfod yn euog.

Byddem yn fodlon rhoi i chi achos dros annog deddfwriaeth – a oes unrhyw beth arall y byddech yn awgrymu y gallem ei wneud i hybu'r achos hwn a sicrhau bod deddfau amgylcheddol yn cael eu gorfodi'n briodol ledled Cymru?

## Atodiad 2 Tystiolaeth

**Aelodau o'r Panel yn y Digwyddiad i Randdeiliaid yn y Sioe Frenhinol**

Geraint Davies, Ffermwr ac Aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru

Rhianne Jones, Cynghorydd ar Adael yr UE a Rheoli Tir, Cyfoeth Naturiol Cymru

Jerry Langford, Coed Cadw

Arfon Williams, RSPB Cymru

**Tystiolaeth ysgrifenedig mewn ymateb i Alwad am Dystiolaeth**

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Coed Cadw

Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyngor Abertawe

Cyngor Castell-nedd Port Talbot

Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y Deyrnas Unedig

Cymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol

Nature at Risk

Undeb Amaethwyr Cymru

Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr

Ymddiriedolaethau Natur Cymru

Yr Athro Barry Thomas

Yr Athro Victoria Jenkins